# TAFLEN BENDERFYNIAD AELOD UNIGOL O GABINET CYNGOR GWYNEDD

| | |
|---|---|
| **DYDDIAD Y PENDERFYNIAD** | 11/09/2025 |
| **DYDDIAD CYHOEDDI'R PENDERFYNIAD** | 16/09/2025 |
| **DYDDIAD Y BYDD Y PENDERFYNIAD YN DOD I RYM** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25.1 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd. | 23/09/25 |

**ENW A THEITL YR AELOD CABINET**
Y Cyng. Medwyn Hughes, Aelod Cabinet Economi a Chymuned

**PWNC - Mabwysiadu cynlluniau a pholisïau er mwyn cydymffurfio ag Achredu sef Safonau Cenedlaethol Amgueddfaol ar gyfer Storiel ac Amgueddfa Lloyd George.**

**PENDERFYNIAD**

I fabwysiadu Polisïau a Blaengynllun y Gwasanaeth Amgueddfeydd a'u cymeradwyo'r dogfennau er mwyn i'r ddwy amgueddfa gyflwyno eu cais i'r Panel Achredu Cenedlaethol haf 2025

**RHESWM DROS YR ANGEN AM Y PENDERFYNIAD**

Gweler yr Adroddiad Swyddog atodedig.

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU**

Dim.

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD**

Ymgynghorwyd â –
Swyddogion Statudol Cyngor Gwynedd

Adroddir ar ganlyniadau'r ymgynghoriadau yn yr adroddiad atodedig

**TAFLEN BENDERFYNIAD AELOD UNIGOL O GABINET CYNGOR GWYNEDD – ADRODDIAD SWYDDOG**

| | |
|---|---|
| Enw a theitl yr Aelod/au Cabinet : | Y Cyng. Medwyn Hughes, Aelod Cabinet Economi a Chymuned |
| Enw a theitl Awdur yr Adroddiad : | Nêst Thomas, Rheolwr Amgueddfeydd a'r Celfyddydau |
| Dyddiad y Cymerwyd y Penderfyniad : | 11.9.2025 |
| Llofnod yr Aelod/au Cabinet : | |

**Pwnc: Mabwysiadu cynlluniau a pholisïau er mwyn cydymffurfio ag Achredu sef Safonau Cenedlaethol Amgueddfaol ar gyfer Storiel ac Amgueddfa Lloyd George.**

<u>Storiel</u>
Polisi Datblygu Casgliadau
Polisi Dogfennu Casgliadau
Polisi Gofal a Chadwraeth
Polisi Mynediad

<u>Amgueddfa Lloyd George</u>
Polisi Datblygu Casgliadau
Polisi Dogfennu Casgliadau
Polisi Gofal a Chadwraeth
Polisi Mynediad

Blaengynllun Gwasanaeth Amgueddfeydd a'r Celfyddydau 2025-2030

**Argymhelliad ar gyfer y Penderfyniad :**

I fabwysiadu Polisïau a Blaengynllun y Gwasanaeth Amgueddfeydd a'u cymeradwyo'r dogfennau er mwyn i'r ddwy amgueddfa gyflwyno eu cais i'r Panel Achredu Cenedlaethol haf 2025

**Rheswm dros yr angen am y Penderfyniad :**

"Achrediad yw safon y DU ar gyfer amgueddfeydd ac orielau. Mae'n diffinio arferion da ac yn nodi safonau cytunedig, gan annog datblygiad. Mae'n safon ansawdd sylfaenol sy'n

helpu i lywio amgueddfeydd i fod cystal ag y gallent, er budd defnyddwyr yn awr ac yn y dyfodol."

Ymysg yr amcanion a'r manteision mae –

- Mae Safonau Achredu yn nodi bod angen i'r dogfennau gael eu cymeradwyo yn swyddogol er mwyn derbyn Achrediad.
- Sicrhau fod gan y Gwasanaeth Amgueddfeydd weithdrefnau priodol a phroffesiynol mewn lle ac yn cael eu dilyn.
- Uchafu cyfleodd i dderbyn grantiau. Mae'n dangos bod yr amgueddfa wedi cyflawni safon genedlaethol, sy'n cryfhau ceisiadau am gyllid ac yn rhoi hyder i fuddsoddwyr yn y sefydliad
- Annog hyder mewn amgueddfeydd fel sefydliadau sy'n rheoli casgliadau er budd y gymdeithas ac yn rheoli arian cyhoeddus yn briodol.
- Atgyfnerthu sail foesegol a phroffesiynol gyffredin ar gyfer pob amgueddfa
- Safon ansawdd sy'n gweithredu fel meincnod awdurdodol ar gyfer asesu perfformiad, gwobrwyo cyrhaeddiad a sbarduno gwelliant
- Mae'n helpu amgueddfeydd i archwilio eu gwasanaethau ac yn annog cydweithio mewn sefydliadau a rhyngddynt.
- Mae'n helpu gwaith blaengynllunio trwy ffurfioli gweithdrefnau a pholisïau.

**Rhesymeg a chyfiawnhad dros gyrraedd y Penderfyniad :**

Sicrhau gweithdrefnau priodol a safonol i'r Gwasanaeth Amgueddfeydd a derbyn cymeradwyaeth lawn gan y Panel Achredu Cenedlaethol.

Mae Gwasanaethau Amgueddfeydd yn dilyn canllawiau safonau cenedlaethol Achredu ble mae'n ofynnol cael y polisïau a nodir uchod yn ogystal â Blaengynllun. Mae hyn yn sicrhau bod gweithdrefnau priodol yn cael eu dilyn wrth redeg amgueddfeydd e.e. beth i'w gasglu; gofalu am gasgliadau. Mae derbyn safon Achredu hefyd yn hanfodol ar gyfer sicrhau rhai grantiau. Mae'r mwyafrif o'r polisïau yn dilyn templed cenedlaethol. Mae'r Blaengynllun wedi ei ddiweddaru a'i addasu o'r un blaenorol ac yn gosod allan gweledigaeth a'i hamcanion rhwng 2025-2030. Os bydd angen newid e.e. amgylchiadau yn newid, mi fydd modd diweddaru'r rhain yn ôl yr angen yn y cyfnod rhwng cyflwyno hwn i Achredu erbyn yn y cylch nesaf mewn 5 blynedd.

**Cofnod o unrhyw fuddiant a ddatganwyd gan unrhyw Aelod Cabinet yr ymgynghorwyd â hwy ac unrhyw oddefeb gan Bwyllgor Safonau :**

Dim yn berthnasol

**Unrhyw ymgynghoriadau a gynhaliwyd cyn gwneud y Penderfyniad :**

Prif Swyddog Cyllid
“Rwyf yn cefnogi’r penderfyniad a geisir.  Rwyf yn fodlon na fydd y penderfyniad ynddo’i hun yn creu ymrwymiad gwariant uniongyrchol ond bydd achrediad llwyddiannus gyda safonau cenedlaethol yn gwarchod buddiannau’r Cyngor.”

Swyddog Monitro

“Dim sylwadau i’w hychwanegu o safbwynt priodoldeb.”

Aelod/au Lleol - Dim yn berthnasol

## Datganiad Mynediad Amgueddfa Lloyd George

Nid yw’r Datganiad Mynediad hwn yn cynnwys safbwyntiau personol ynghylch ein haddasrwydd ar gyfer pobl ag anghenion hygyrchedd, ond anelir i ddisgrifio’n fanwl gywir y cyfleusterau a’r gwasanaethau rydym yn eu cynnig i’n holl ymwelwyr a defnyddwyr. (Dyddiad adolygu: Chwefror 2025.)

### Cyflwyniad

Wedi'i leoli ar y brif stryd ym mhentref prydferth Llanystumdwy, mae Amgueddfa Lloyd George a bwthyn Highgate o fewn 200 llath i'w gilydd ar eu tiroedd eu hunain. Maent yn adrodd hanes David Lloyd George, y bachgen a fagwyd mewn bwthyn a ddaeth yn Brif Weinidog yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf. Mae'r uchafbwyntiau'n cynnwys ffilm am ei fywyd, copi drafft o gytundeb heddwch y Rhyfel Byd Cyntaf, y pensiwn cyntaf a roddwyd yng Nghymru, ei gartref Fictoraidd pan oedd yn blentyn wedi'i ail-greu, a dosbarth ysgol Fictoraidd a llawer mwy. Ceir hefyd Gornel Ddarganfod ar gyfer plant a theuluoedd.

Mae’r Amgueddfa'n gwbl hygyrch ar gyfer cadeiriau olwyn a choetsys babanod. Mae bwthyn Highgate gyda gweithdy'r crydd yn adeiladau rhestredig, ac nid ydynt yn hygyrch ar gyfer cadeiriau olwyn a choetsys babanod. Mae lluniau ar gael o du mewn Highgate. Ceir toiled hygyrch yn yr Amgueddfa.

Rydym yn edrych ymlaen at eich croesawu. Os oes gennych unrhyw ymholiadau, neu os oes angen unrhyw gymorth arnoch, cysylltwch â ni ar 01766 522071 neu 01286 679098 neu anfonwch e-bost at amgueddfalloydgeorge@gwynedd.llyw.cymru. Y wefan yw [www.gwynedd.llyw.cymru/amgueddfeydd](www.gwynedd.llyw.cymru/amgueddfeydd).

### Cyn Cyrraedd

Lleolir yr Amgueddfa ar brif stryd Llanystumdwy. Mae’r orsaf drenau agosaf yng Nghricieth, sydd tua hanner awr o waith cerdded, neu 5-10 munud ar fws. Mae trafnidiaeth gyhoeddus i'r pentref o amrywiol leoliadau yn cynnwys Cricieth, Pwllheli, Caernarfon a Phorthmadog. Mae digon o arwyddion ar gyfer yr Amgueddfa, yn ogystal â baner fawr y tu allan.

### Maes Parcio a Chyrraedd

Ceir maes parcio am ddim yn yr Amgueddfa, sydd wedi'i leoli drwy'r brif giât ac wedi'i arwyddo ger y fynedfa. Mae man parcio bathodyn glas penodol sydd bellter cerdded byr oddi wrth brif fynedfa'r Amgueddfa ar arwynebedd tarmac ar raddiant bach am i lawr. Mae’r Amgueddfa'n gwbl hygyrch. Ceir mynediad i Highgate drwy docyn a brynir yn yr Amgueddfa. Gellir mynd i Highgate drwy'r ardd Fictoraidd. Ceir hefyd faes parcio mawr am ddim sy'n 5 munud o waith cerdded i ffwrdd, ac sydd yn addas ar gyfer bysiau.

### Y Brif Fynedfa/Derbynfa/Siop

Mae gan y llawr daear garped heb fod yn drwchus a digon o olau. Mae seddi gerllaw. Ceir dolen sain wrth y ddesg. Nid yw'r ddesg yn rhy uchel i ddefnyddwyr cadair olwyn. Mae staff croesawus yno bob amser, sy'n gallu darparu gwybodaeth a chymorth pellach os oes angen. Mae'r holl staff yn ddwyieithog yn y Gymraeg a’r Saesneg.

## Ardaloedd Arddangos yr Amgueddfa

Mae arddangosfeydd y llawr daear yn gwbl hygyrch. Mae carped heb fod yn drwchus neu lawr pren. Mae seddi ar gael ynghyd â dolen sain.

## Theatr

Mae stepiau yn y theatr ond mae ardal benodedig ar gyfer defnyddwyr cadeiriau olwyn a choetsys babanod. Dolen sain. Carped heb fod yn drwchus.

## Bwthyn Highgate a Gweithdy’r Crydd

Mae wedi cael ei ail-greu i'r cyfnod Fictoraidd pan oedd Lloyd George yn byw yno yn 1864-1880. Mae dolen sain ar gyfer y naratif yn y Gweithdy. Nid oes mynediad i gadeiriau olwyn a choetsys babanod i Highgate neu'r Gweithdy, ond mae lluniau ar gael yn Llyfryn yr Amgueddfa.

## Yr Ardd Fictoraidd

Mae'r Ardd Fictoraidd yn ardal braf i ymlacio ynddi. Mae meinciau a llwybr troed sy'n addas ar gyfer cadeiriau olwyn a choetsys babanod. Darperir canllaw wrth stepiau yn yr ardd, er nad yw defnyddio'r stepiau'n hanfodol.

## Dehongli

Mae dehongliadau ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg. Mae'r arddangosfa'n cynnwys nifer o arddulliau dehongli - paneli gyda thestun a delweddau, eitemau wedi'u harddangos mewn casys, ffilm, sain, Ystafell ysgol Fictoraidd wedi'i hail-greu a bwthyn Fictoraidd gyda'i ardd.

## Tir yr Amgueddfa

Mae ardaloedd gyda lawntiau gwyrdd a tharmac gyda byrddau picnic, ac mae mynediad drwy'r giatiau uchaf i fedd Lloyd George ger yr afon.

## Toiledau

Mae dau doiled yn yr Amgueddfa, un sy'n gwbl hygyrch gyda chanllaw, sinc a thapiau lefer a digon o le. Ceir hefyd doiledau cyhoeddus yn y pentref.

## Gwybodaeth Ychwanegol

Oriau Agor – Dydd Llun cyn y Pasg a dros y Pasg Bob Dydd 10.30 – 5, Mai Llun – Gwener 10.30 – 5, Mehefin Llun – Sadwrn 10.30 – 5, Gorffennaf – Medi Bob Dydd 10.30 – 5, Hydref Llun – Gwener 11 – 4. Ar agor ar adegau eraill drwy drefniant.

Ffi Mynediad - Oedolion £8.50, Plant £4.50 a Phobl dros 65 £7.50, Tocyn teulu £20 (2 oedolyn ac unrhyw nifer o blant). Consesiynau hefyd ar gyfer myfyrwyr ac aelodau Cymdeithas yr Amgueddfeydd. Mae gostyngiadau grŵp ar gael.

Gwasanaeth Addysg Ysgolion - cysylltwch â'n Swyddogion Addysg ar 01286 679091.

Ymchwil - Os oes arnoch angen mynediad i ymchwil neu'r gwasanaeth ymholiadau, cysylltwch â'r Amgueddfa. Darperir mynediad i'r casgliadau gan y Rheolwr Amgueddfeydd a'r Celfyddydau neu'r Curadur.

Gwefan www.gwynedd.llyw.cymru/amgueddfeydd Llawlyfr a thaflen yr Amgueddfa ar gael

Amgueddfa Achrededig (Safonau Cenedlaethol Amgueddfeydd)

Cymeradwywyd gan VAQAS (Cynllun Sicrwydd Ansawdd Atyniadau i Ymwelwyr, yn cael ei redeg gan Croeso Cymru)

"Certificate of Excellence" Tripadvisor

Mae'r holl wybodaeth ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg

Croesewir cŵn cymorth

Polisi Dim Ysmygu / Fepio

Cysylltwch â'r Amgueddfa ymlaen llaw os hoffech ffilmio neu dynnu lluniau ar wahân i ddefnydd personol.

Mae Camerâu Teledu Cylch Cyfyng yn weithredol ar gyfer eich diogelwch.

Mae Cyfeillion yr Amgueddfa yn cefnogi'r Amgueddfa ac yn trefnu darlithoedd rheolaidd. Cysylltwch â'r Amgueddfa am ragor o fanylion.

Hefyd yn y pentref, mae Tafarn y Plu a Chanolfan Ysgrifennu Genedlaethol Tŷ Newydd. Gweler "Things to do in Llanystumdwy" www.aboutbritain.com/towns/llanystumdwy.asp (gwefan annibynnol) sydd hefyd â map a rhagor o wybodaeth am y pentref a leolir ar yr A497 rhwng Pwllheli a Chricieth.

Manylion Cyswllt

Amgueddfa Lloyd George, Llanystumdwy, Cricieth, Gwynedd, LL52 OSH

Ffôn: 01766 522071 / 01286 679098

Archebu Lle i Ysgol: 01286 679091

E-bost: amgueddfalloydgeorge@gwynedd.llyw.cymru

Gwefan: www.gwynedd.llyw.cymru/amgueddfeydd
Facebook: @AmgueddfaLloydGeorgeMuseum
Trydar / Instagram: @AmgDLLGMuseum

Os hoffech ddarparu adborth ar unrhyw agwedd o'ch ymweliad neu'r wybodaeth hon, byddwn yn falch iawn o glywed gennych chi.

**Mwynhewch eich ymweliad!**

# Storiel

## GWASANAETH AMGUEDDFEYDD a CHELFYDDYDAU GWYNEDD
## BLAENGYNLLUN
## 2025-2030

### Gweledigaeth a Chyd-destun Strategol

Ers 1 Ebrill 2009 mae Gwasanaeth Amgueddfeydd yn rhan o Wasanaeth Treftadaeth a'r Celfyddydau (Amgueddfeydd, Orielau, Uned Celfyddydau Cymunedol, Celfyddydau Perfformio, Archifau), Adran Economi a Chymuned, Cyngor Gwynedd. Hyd yma mae'r blaengynllun wedi canolbwyntio ar y Gwasanaeth Amgueddfeydd ond y nod yn y pendraw yw ymgorffori a chreu un ar gyfer y Gwasanaeth Amgueddfeydd a'r Celfyddydau. Mi fydd y Cynllun Gweithredu yn cynnwys y weledigaeth yma.

Mae'r isod yn gosod y cyd-destun strategol i'r Gwasanaeth –

Yn 2025 fe gyhoeddodd Llywodraeth Cymru "Blaenoriaethau ar gyfer Diwylliant"

"Mae gan ddiwylliant, gan gynnwys ein celfyddydau, ein hamgylchedd hanesyddol, a'n sefydliadau diwylliannol, y pŵer i drawsnewid bywydau," Jack Sargeant AS Gweinidog Diwylliant.
Mae'r 3 blaenoriaeth sef –
BLAENORIAETH 1: Mae diwylliant yn dod â phobl ynghyd
BLAENORIAETH 2: Dathlu Cymru fel cenedl Diwylliant
BLAENORIAETH 3: Mae diwylliant yn gydnerth ac yn gynaliadwy

Mae hwn yn cymryd lle'r strategaethau blaenorol sef "Golau yn y Gwyll- Gweledigaeth ar gyfer Diwylliant yng Nghymru a Strategaeth Amgueddfeydd Cymru (Llywodraeth Cymru).

Mae **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015** yn parhau'n greiddiol ac yn canolbwyntio ar lesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Bydd yn helpu'r cyrff cyhoeddus sydd wedi'u rhestru yn y Ddeddf i feddwl am y tymor hir, gweithio'n well gyda phobl a chymunedau a chyda'i gilydd, ceisio atal problemau a dilyn dull gweithredu cyson. Y nod yw creu Cymru yr ydym i gyd eisiau byw ynddi, rŵan ac yn y dyfodol ac er mwyn gwneud yn siŵr ein bod i gyd yn gweithio tuag at yr un weledigaeth. Mae'r Ddeddf yn pennu saith o nodau llesiant sydd hefyd wedi eu mabwysiadau yng Nghynllun Gwynedd. Mae'r Gwasanaeth yn cyfrannu yn erbyn nodau'r Ddeddf er enghraifft wrth geisio am grantiau trwy Lywodraeth Cymru; Ffederasiwn Amgueddfeydd ac Orielau Cymru, Cyngor Celfyddydau Cymru a chyllidwyr eraill.

### Achredu Amgueddfeydd

Dyma safonau cenedlaethol ar gyfer amgueddfeydd sydd yn cael ei weinyddu gan Lywodraeth Cymru/Arts Council England

Dyma'r diffiniad o amgueddfa sydd ei angen ar gyfer Achredu -

"Mae amgueddfeydd yn fodd i bobl archwilio casgliadau er mwyn cael ysbrydoliaeth, dysg a mwynhad. Maent yn sefydliadau sy'n casglu, diogelu a rhoi ar gael arteffactau a sbesimenau, y maent yn dal dan ymddiried ar ran cymdeithas.'

Mae ein hamgueddfeydd wedi eu hachredu ac yn anelu i barhau gyda hyn.

**Cymdeithas Amgueddfyedd ( Museums Assocation)**

Sefydliad aelodaeth ddynamig sy'n ymgyrchu dros amgueddfeydd sydd â chymdeithas a gweithlu cynrychioliadol. Mae'n cynhyrchu Cod Moeseg y sector ac yn goruchwylio'r Pwyllgor Moeseg. Mae'r unig sefydliad i'r holl amgueddfeydd gydag ymrwymiad i bedair gwlad y DU. Mae'n annibynnol ac yn sefydliad heb elw. Ei chenhadaeth yw Ysbrydoli amgueddfeydd i newid bywydau gyda gweledigaeth i Amgueddfeydd fod yn gynhwysol, gweithredol a gynaliadwy yng nghanol eu cymunedau

**Ethics - Campaigns - Museums Association**

**Strategaeth Cyngor Celfyddydau Cymru 2024-2034**
"Mae'r celfyddydau yn rhan o fywyd beunyddiol pobl Cymru. Maent yn ein cysylltu â'n gilydd, yn rhan annatod o'n lles ac yn ein hysbrydoli am genedlaethau i ddod."
Mae'n cynnwys 3 prif gwerth sef uchelgais, parch a chyfrifoldeb a 6 egwyddor sef creadigrwydd, Cydraddoldeb ac ymgysylltu, y Gymraeg, cyfiawnder hinsawdd, datblygu talent a thrawsnewid.

Mae **Cyfuno**, rhaglen Llywodraeth Cymru, yn anelu i greu cyfleoedd i bobl gyfrannu mewn gweithgareddau celfyddydol, diwylliannol, hamdden a threftadaeth er mwyn trawsnewid hyder, dysgu sgiliau, cael profiad a chymwysterau, cefnogi dysgu a gwella llesiant corfforol a meddyliol.

Amlygir blaenoriaethau strategol Cyngor Gwynedd yn y ddogfen **Cynllun Cyngor Gwynedd 2023-28** gan gyd-fynd ag amcanion y Ddeddf Llesiant., Mae'r Cynllun yn gosod y prif nod o ***'Roi pobl Gwynedd yn ganolog i bopeth rydym yn ei wneud'.*** Pwrpas y Cynllun hwn yw gosod gweledigaeth a blaenoriaethau'r Cyngor ar gyfer y cyfnod rhwng Ebrill 2023 a diwedd Mawrth 2028. Mae'r Cynllun yn dangos pam ein bod am ganolbwyntio ein hegni a'n hadnoddau mewn rhai meysydd. Mae'r Cynllun yn cynnwys cyfres o brosiectau ar gyfer y pum mlynedd nesaf o dan saith maes blaenoriaeth sef Gwynedd Yfory, Gwynedd Lewyrchus, Gwynedd Glyd, Gwynedd Ofalgar; Gwynedd Gymraeg, Gwynedd Werdd a Gwynedd Effeithlon. Mae'r amgueddfeydd a'r celfyddydau yn cyfrannu at nifer o'r blaenoriaethau yma.

Cynllun Cyngor Gwynedd 2023-28

## GWASANAETH AMGUEDDFEYDD GWYNEDD

## DATGANIAD O WELEDIGAETH

"Nod Gwasanaeth Amgueddfeydd Gwynedd yw casglu, diogelu, gwarchod, arddangos a dehongli orielau/eitemau sy'n dehongli hanes a chymeriad unigryw Gwynedd ac i sicrhau bod y casgliadau yma ar gael i ysbrydoli, addysgu ac ar gyfer mwynhad pawb mewn modd diduedd a chynhwysol.

## CEFNDIR

### *Hanes a datblygiad amgueddfeydd yng Ngwynedd*

Mae amrywiaeth eang o amgueddfeydd cenedlaethol, awdurdod lleol ac annibynnol, gan gynnwys rhai o'r amgueddfeydd hynaf yng Nghymru, yn ardal bresennol Cyngor Gwynedd. Mae dechreuadau Gwasanaeth Amgueddfeydd Gwynedd ei hun yn dyddio o ad-drefnu llywodraeth leol ym 1974 pan drosglwyddwyd Carchar Biwmares (sydd erbyn hyn yn ardal Cyngor Sir Ynys Môn) i Wasanaeth Archifau Gwynedd. Gyda chefnogaeth yr Archifydd Sirol ar y pryd gwelwyd ehangu ar amgueddfeydd a redir gan y Cyngor (a rhai annibynnol) yn y sir yn arbennig yn ystod yr 1980au, gan ymateb i alw gan y cyhoedd a'u disgwyliadau. Roedd hon yn ffenomenon trwy Gymru gyfan. Mae'r gwasanaeth amgueddfeydd erbyn hyn yn rhedeg dwy amgueddfa yn uniongyrchol - Storiel ac Amgueddfa Lloyd George yn Llanystumdwy.

### *Staffio*

Mae un Rheolwr Amgueddfeydd a'r Celfyddydau, sydd yn rheoli'r Gwasanaeth Amgueddfeydd a'r Celfyddydau o fewn y sir gan gynnwys y Gwasanaeth Orielau a'r Uned Celfyddydau Cymunedol. Yn ogystal mae Pennaeth Cynorthwyol Economi a Chymuned sydd â chyfrifoldeb am y gwasanaethau yma yn ogystal ag Archifau, Llyfrgelloedd, Twristiaeth, Strategaeth a Datblygu. Rhennir dau swyddog addysg gyda'r Gwasanaeth Archifau (rhannu swydd - cyfateb i un swydd amser llawn) a gwasanaeth swyddog cadwraeth papur. Dangosir gweddill y staff dan y safleoedd unigol. Er eu bod yn cael eu rheoli ar wahân, mae cefnogaeth hefyd gan y Swyddog Celf Gweledol, a Swyddog Arddangosfeydd Celf y Gwasanaeth Orielau, yn gweithio o Storiel.

### *Amgueddfeydd y Cyngor*

Mae'r gwasanaeth yn rhedeg dwy Amgueddfa Achrededig - Storiel ym Mangor, ac Amgueddfa Lloyd George yn Llanystumdwy (gweler isod am ragor o fanylion). Ar hyn o bryd mae'r ddwy wedi eu hachredu'n llawn ers 2009 ac eithrio cyfnod prosiect CDL pan newidiwyd safle'r amgueddfa ym Mangor. Yn ychwanegol, mae Amgueddfa Ysbyty'r Chwarel yn Llanberis hefyd yn rhan o Economi a Chymuned ond mae'r gwaith gweinyddu o ddydd i ddydd yn cael ei wneud gan Wasanaeth Morwrol a Pharciau Gwledig y Cyngor. Nid yw hon wedi ei Hachredu.

### *Amgueddfeydd eraill yn y sir*

Creodd Gwasanaeth Amgueddfeydd Gwynedd lawer o gysylltiadau gydag amgueddfeydd eraill yn y sir yn arbennig trwy ddarparu cyngor curadurol sydd bellach yn cael ei adnabod fel mentora. Mae amrywiaeth eang o amgueddfeydd eraill yn y sir gan gynnwys dau eiddo gan yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol sy'n Amgueddfeydd Achrededig ac amgueddfa genedlaethol - yr Amgueddfa Lechi Cymru yn Llanberis.

Mae gan Wasanaeth Amgueddfeydd Gwynedd gysylltiadau hanesyddol cryf gan iddo gefnogi datblygiad nifer o amgueddfeydd morwrol a rheilffyrdd yn lleol (mae nifer o rain bellach wedi cael ei hachredu). Yn

ychwanegol mae Ymddiriedolwyr Sefydliad y Morwyr, Abermaw (Amgueddfa Achredig) sy'n cefnogi rhoi mynediad i Tŷ Gwyn, a'r dehongliad cysylltiedig ar ran Cyngor Gwynedd.

Mae'r Gwasanaeth Amgueddfeydd yn gweinyddu Ffederasiwn Amgueddfeydd Morwrol Gwynedd a Môn. Mae'n cynnwys Amgueddfa Forwrol Caergybi, Amgueddfa Forwrol Porthmadog, Amgueddfa Hanesyddol a Morwrol Llŷn, Sefydliad y Morwyr, Abermaw a Chanolfan Telford. Mae'r Ffederasiwn yn cyfarfod unwaith neu dwywaith y flwyddyn i drafod materion perthnasol fel anghenion hyfforddiant, marchnata ac ati. Mae'r Gwasanaeth Amgueddfeydd yn barod i fod yn fentor i'r amgueddfeydd yma ac eisoes yn gwneud hynny i Amgueddfa Forwrol Llŷn, Amgueddfa Forwrol Porthmadog a Sefydliad y Morwyr, Abermaw.

## GWASANAETH ORIELAU

### *DATGANIAD O WELEDIGAETH*

"Nod y Gwasanaeth Orielau yw hybu diddordeb, a sicrhau gwell dealltwriaeth a mwynhad o'r celfyddydau cain, crefft a dylunio "

Mae'r Gwasanaeth yn gyfrifol am drefnu arddangosfeydd yn Storiel ac Oriel Canolfan Maenofferen (llyfrgell) Blaenau Ffestiniog. Mae'r safleoedd yma yn cynnig cyfle i artistiaid a chrefftwyr lleol i arddangos eu gwaith gan gynnwys rhai sefydledig adnabyddus a rhai newydd neu ifanc. Rhoddir cyfle hefyd i grwpiau, mudiadau, clybiau, ysgolion a cholegau i arddangos eu gwaith. Maent hefyd yn gyfle i werthu cynnyrch a derbynnir comisiwn ar unrhyw werthiannau yn Storiel. Hefyd trefnir gweithdai celf/crefft ac ymweliadau gan ysgolion a cholegau. Mae'r safleoedd yn lleoliadau i arddangos gwaith gan artistiaid sy'n genedlaethol neu ryngwladol adnabyddus sy'n rhoi cyfle i drigolion Gwynedd fwynhau amrywiaeth o gelfyddydau cyffrous ar eu stepen drws. Cyflogir dau aelod o staff rhan amser gan y Gwasanaeth sef y Swyddog Celfyddydau Gweledol a'r Swyddog Arddangosfeydd a'u cyfrifoldeb nhw yw trefnu, rhaglennu, gosod a hyrwyddo'r arddangosfeydd

Mae gan y celfyddydau rhan bwysig i gyfrannu at economi Gwynedd. Drwy gefnogi artistiaid a chrefftwyr yr ardal cyfrennir at y diwylliant lleol, addysg, hyrwyddo'r iaith Gymraeg a darparu cyfleoedd hamdden i bobl leol ac ymwelwyr.

I gyflawni hyn mae'n rhaid: -

- Ceisio ffurfio rhaglen gytbwys sydd yn cwmpasu'r celfyddydau cain a chrefftau
- Sicrhau bod y cyhoedd oll yn cael yr un cyfle i gael mynediad a chyfranogi yn y celfyddydau
- Ceisio hyrwyddo gwybodaeth, gwell dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth y cyhoedd o gelfyddyd, crefft a dylunio
- Defnyddio orielau fel adnodd addysgol
- Cefnogi artistiaid a chrefftwyr ac yn arbennig rhoi cyfle i artistiaid a chrefftwyr ifanc
- Cynorthwyo i ddarparu awyrgylch cefnogol i artistiaid
- Rhoi'r celfyddydau ar agenda economaidd yr ardal a hyrwyddo cyfleoedd
- Ceisio cynnal digon o sail ariannol i hwyluso gwaith Storiel a gwella'r marchnata
- Mae gan Storiel raglen fywiog o arddangosfeydd celf yn bennaf ond yn achlysurol trefnir arddangosfa hanesyddol yn yr orielau celf. Rhoddir hyn fynediad at weithiau mewn casgliadau yn ogystal â chyfle i osod cyd-destun i'r gweithiau hyn. Mae'r rhaglen arddangosfeydd yn dangos gwaith celf gan artistiaid lleol a rhyngwladol. Gwelir gwaith celf gyfoes a hanesyddol, paentiadau, cerfluniau, ffotograffau a chyfryngau eraill. Gyda'r arddangosfeydd yn newid yn rheolaidd, mae'r orielau celf yn gyson yn cynnig ysbrydoliaeth. Mae'r rhaglenni fel arfer yn cynnig oddeutu 20 arddangosfa'r flwyddyn.
- Mae Storiel wedi derbyn buddsoddiad fel rhan o gynllun CELF yn ystod 2023-5 sef rhwydwaith o 9 oriel ledled Cymru sy'n darparu mynediad am ddim i gasgliad cenedlaethol Amgueddfa Cymru a Llyfrgell Genedlaethol Cymru. Cefnogir gan Lywodraeth Cymru mewn cydweithrediad gyda Chyngor Celfyddydau Cymru, Amgueddfa Cymru a Llyfrgell Genedlaethol Cymru. Mae amodau ynghlwm a'r cynllun sef trefnu benthyciadau cenedlaethol i o leiaf un arddangosfa'r flwyddyn a chynnydd blynyddol o 3% mewn ymweliadau dros 10 mlynedd
- Mae orielau Storiel yn cynnig cyfle i brynu a gwerthu celf. Derbynnir 30% a Threth ar Werth ar y comisiwn ar unrhyw werthiannau sy'n creu incwm i Storiel.
- Gan fod rhaglen yr orielau yn newid yn rheolaidd, mae'n denu ymwelwyr newydd ac yn annog

rhai i ail-ymweld yn gyson.  Y sialens i'r rhaglennu yw cyfuno'r tair elfen o greu incwm trwy werthiannau; cynnig cyfle i bobl leol fwynhau a chael eu hysbrydoli gan weithiau celf genedlaethol neu ryngwladol bwysig a rhoi llwyfan a datblygu artistiaid o fewn y gymuned neu ar ddechrau eu gyrfa.  Yn flynyddol rhoddir llwyfan i lawer arddangos eu gwaith.  Mae'r Arddangosfa Gelf Agored flynyddol yn Storiel yn boblogaidd ac wedi denu cannoedd o artistiaid lleol dros y blynyddoedd i gystadlu ac arddangos eu gwaith.

- Trefnir nifer o ddigwyddiadau a gweithdai yn rheolaidd ar gyfer teuluoedd, unigolion a grwpiau yn Storiel.  Er enghraifft dosbarthiadau meistr; gweithdai agored i bawb i gyd fynd ac arddangosfa. Hefyd ceir cyfle i gwrdd â'r artist mewn agoriadau neu os trefnir digwyddiad neu sgwrs gan artist.
- Mae'r elfen gref o gelf a chrefft yn siop Storiel hefyd ac yn aml mae cysylltiad rhwng cynnyrch y siop a rhaglen yr orielau ee llyfrau a chardiau post yn ymwneud a'r pwnc.
- Mae'r siop a'r orielau yn defnyddio cynllun "Ein Celf/Own Art " sy'n gynllun di-log i hyrwyddo a hwyluso prynu gweithiau celf a chrefft wreiddiol a chyfoes.
- O fewn casgliad amgueddfaol Cyngor Gwynedd yn Storiel mae gweithiau celf e.e. derbyniwyd casgliad gan y Cyngor Celfyddydau a gan CASW ac mae dros 100 o weithiau gan artistiaid amrywiol megis Kyffin Williams, Elfyn Lewis a William Selwyn.  Dangosir y gweithiau yma yn achlysurol fel rhan o raglenni'r orielau.
- Trefnir rhaglen o oddeutu 6 arddangosfa'r flwyddyn yn Oriel Canolfan Maenofferen ac mae'n cynnig cyfleoedd i artistiaid newydd a grwpiau cymunedol.  Rhedir yr oriel yma mewn partneriaeth a'r Gwasanaeth Llyfrgelloedd. Nid yw ond newydd ail agor ers cyfnod covid ac mae buddsoddiad yn y gofod fel paentio waliau a gosod goleuadau newydd wedi cymryd lle.

## Cynllun Celfyddydau Gwynedd

Gydag ein partneriaid celfyddydol rydym yn awyddus trwy Gynllun Celfyddydau Gwynedd i :

***"Cydweithio i gefnogi pobl Gwynedd i gael mynediad at, mwynhau a phrofi'r celfyddydau – a hynny er lles unigolion, cymdeithas, yr economi a chymuned."***

Mae blaenoriaethau strategol Cyngor Gwynedd i'w gweld yn y ddogfen **Cynllun Gwynedd** gan gyd-fynd ag amcanion y Ddeddf Llesiant, mae'r Cynllun yn gosod y prif nod o ***'Roi pobl Gwynedd yn ganolog i bopeth rydym yn ei wneud'.*** Un o amcanion llesiant Gwynedd â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu yw Hyrwyddo ein diwylliant, treftadaeth a'r celfyddydau.

Mae'r celfyddydau'n bwysig i Wynedd. Maent yn rhan bwysig a chreiddiol o'n hunaniaeth, o'n cymunedau a'n economi. Maent yn gwneud Gwynedd yn lleoliad unigryw i fyw ynddo ac i ymweld. Fel partneriaid, rydym eisiau diogelu a datblygu'r celfyddydau i bobl Gwynedd heddiw ac i'r dyfodol.

Mae Gwynedd yn gartref i fwrlwm celfyddydol – o gwmnïau cynhyrchu o'r radd flaenaf i unigolion creadigol a mentrus, o theatrau a chanolfannau celfyddydol, arloesol i ganolfannau cymunedol; o orielau celf safonol i weithgareddau celfyddydol wedi eu gwreiddio yn ein cymunedau.

Wrth i'r sector gyhoeddus wynebu cyfnod o doriadau ac o flaenoriaethu ei wasanaethau; un o brif amcanion y Cynllun hwn yw adnabod rôl a phwrpas y sector celfyddydol yng Ngwynedd yn ogystal â'i flaenoriaethau. Gall rhai o amcanion y Cynllun gael eu gwireddu heb adnoddau ychwanegol trwy newid ffyrdd o weithio; tra bo rhai blaenoriaethau'n ddibynnol ar gyllidebau. Darperir grantiau Cefnogi'r Celfyddydau ac ar hyn o bryd mae grantiau i'r sector diwylliant drwy gymorth grant Cronfa Diwyllesiant sydd wedi ei ariannu gan Lywodraeth y DU.

## Celfyddydau Cymunedol Gwynedd

Mae Celfyddydau Cymunedol Gwynedd yn cynnal cyfres o gynlluniau blynyddol sy'n cefnogi pobl Gwynedd i fwynhau a phrofi'r celfyddydau, a hynny er lles unigolion, cymdeithas, yr economi a chymuned. Bob blwyddyn mae Celfyddydau Cymunedol Gwynedd yn cynnal rhaglen o wahanol weithgareddau a phrosiectau ar draws y sir. O weithdai i arddangosfeydd, cyrsiau i grantiau a gwyliau i gynlluniau creadigol, rydym am i **bawb** fwynhau'r celfyddydau.

- Dyma ddetholiad o raglen 2024/5 -Sgwrs a Chân – cynllun comisiwn sy'n ceisio mynd i'r afael ag unigrwydd gyda Chanolfan Gerdd William Mathias. Maent yn parhau i redeg yn gyson yn y Bala, Porthmadog a Botwnnog gyda sesiynau'n bellach hefyd yn cael eu cynnal ym Mhorthi'r Dre, Caernarfon a Bethesda.
- Llwybrau Celf a Llwybrau Celf Bach - gweithgareddau a phrofiadau celf weledol i blant a phobl ifanc yng nghwmni artistiaid proffesiynol
- 'Babis yr Awen' gan Gylch Meithrin Y Bala - sesiwn synhwyraidd, canu a symud i fabanod a phlant ifanc
- Fa 'Ma Cwmni Fran Wen gyda'r nod o ddod a lleisiau bobl ifanc yn fyw gan ganolbwyntio y tro yma ym Methesda ( eisoes wedi bod mewn amryw o lefydd fel Bala a Nefyn.
- Wythnos Gofalwyr - darparu cyfleoedd celfyddydol i gefnogi gofalwyr ee crefft er lles
- Cefnogi hyfforddiant i artistiaid drwy fudiad artistiaid CARN, Caernarfon
- Oriel Ysbyty Gwynedd - Cynnal arddangosfeydd celfyddydol mewn ysbyty i wella profiad y claf ag ymwelwyr / codi ymwybyddiaeth a dathlu gwaith artistiaid lleol a chynlluniau cymunedol.
- Trefnwyd Cynhadledd Diwylliant gyda grant Llywodraeth y DU. Comisiynwyd Fran Wen i drefnu Cynhadledd Diwylliant gyntaf Gwynedd, ac fe'i cynhaliwyd yn Chwefror 2025 yn Nyth, Bangor. Roedd yn ddigwyddiad undydd gyda siaradwyr gwadd a hwyluswyr i gynnal trafodaethau am y canlynol: Llwyddiannau'r sector diwylliant yng Ngwynedd; Arfer da o Gymru, Prydain a thu hwnt i ysbrydoli'r sector yng Ngwynedd; Cyd-destun strategol Llywodraeth Cymru a chyllidwyr; Heriau a chyfleoedd ar gyfer y dyfodol a sut i gefnogi'r sector diwylliant a chefnogi cydweithredu; Nodi blaenoriaethau ar y cyd a allai lywio Cynllun neu Ddatganiad Diwylliannol ar gyfer Cyngor Gwynedd a'i bartneriaid yn y dyfodol. Anelir i gynnal un arall yn ystod 2025/6 gyda chefnogaeth grant Llywodraeth y DU.

### *Cydweithio*

Mae gwaith Celfyddydau Cymunedol Gwynedd yn waith partneriaethol sy'n cydweithio ag amrywiol gymunedau, asiantaethau, mudiadau, elusennau a chwmnïau artistig i ddarparu rhaglen o weithgarwch celfyddydau cymunedol i bobl Gwynedd. Mae llawer o ffocws yn cael ei roi ar geisio cyrraedd carfanau o'r gymuned sydd yn wynebu heriau i gyfranogiad a chynyddu mynediad i rai sydd ddim yn arferol yn gallu cymryd rhan. Mae'r gwaith partneriaeth yma yn ymwneud â phartneriaid mewnol yng Nghyngor Gwynedd, drwy gydweithio â'r Gwasanaethau Cymdeithasol er enghraifft yn ogystal â rhai allanol er enghraifft gweithio â'r Gwasanaeth Cynnal Gofalwyr.

***Cyfryngau Celfyddydol***

Mae ystod y cyfryngau celfyddydol yn helaeth, mae cynlluniau'n cynnwys gweithgareddau celf weledol a cherddoriaeth yn bennaf ond 'rydym wedi darparu cynlluniau llenyddiaeth, drama a dawns yn ogystal. Mae rhai prosiectau hefyd yn rhai aml-gyfryngol ac yn cael eu dyfeisio yn ôl dymuniad y grwpiau targed amrywiol. Byddwn yn dewis y cyfrwng mwyaf addas ar gyfer y cyfranogwyr 'dan sylw.

***Iechyd a Lles***

Mae canran uchel o'n gweithgareddau yn rhai sy'n ceisio gwella iechyd a lles pobl Gwynedd drwy'r celfyddydau. Defnyddio'r Pum Ffordd at Les fel fframwaith i sawl un o'n cynlluniau er enghraifft.. Mae partneriaeth mewn lle yn peilota prosiect Celfyddyd ar Bresgripsiwn Y Stiwdio Lles yn ystod 2025 gyda Chwmni Fran Wen, Meddygfa Bodnant Bangor ac Adran llesiant Myfyrwyr Prifysgol Bangor. Cefnogir gyda grant gan Gyngor Celfyddydau Cymru trwy eu Rhaglen Loteri Celfyddydau ar gyfer Iechyd a Lles.

***Cyfathrebu a Rhwydweithio***

'Rydym yn gweithio i godi ymwybyddiaeth o effaith y celfyddydau cymunedol ar ein cyfranogwyr ac yn rhannu arferion da, drwy rannu eitemau ar y we a chynnal seminarau gwybodaeth. Mae cyfleoedd, newyddion a gwybodaeth am y celfyddydau yn cael ei rannu gennym drwy wefan a safleoedd cyfryngau cymdeithasol Gwynedd Creadigol er diddordeb y gymuned artistig a'r cyhoedd.

***Addysgol***

Mae amryw o'n cynlluniau'n rhai addysgol, sy'n cynnig profiadau a chyfleoedd i ddysgu gan ddefnyddio'r celfyddydau, weithiau yn rhan o amserlen ysgol neu y tu hwnt i'r ystafell ddosbarth. Mae elfennau addysgol yn cael eu cynnwys yn nifer o'n gweithgareddau i oedolion hefyd ac yn mynd i'r afael â '*dal i ddysgu – y pum ffordd at les*'.

***Staffio***

Mae gan Gelfyddydau Cymunedol dwy Swyddog Datblygu Celfyddydau Cymunedol sy'n gweithio pedwar diwrnod yr wythnos. Mae'r swyddogion yma'n gyfrifol am ddyfeisio a chynnal rhaglen flynyddol o weithgarwch. Mae'r gwasanaeth yn ddibynnol ar lu o artistiaid a mudiadau celfyddydol i arwain y mwyafrif o'r gweithgarwch ar sail lawrydd.

***Rhanbarthol***

'Rydym yn ymdrechu i weithio'n rhanbarthol ar rai cynlluniau er mwyn gweithio'n fwy effeithlon a chynnig darpariaeth gyfartal ar hyd gogledd Cymru.

***Hyfforddiant***

'Rydym yn ceisio cynnal un neu ddau o sesiynau hyfforddiant i weithwyr y sector bob blwyddyn er mwyn cynnig cyfleoedd i ddatblygiad proffesiynol parhaus. Byddwn yn dewis pynciau perthnasol mewn ymateb i alw a datblygiadau yn y maes.

***Ariannu***

Mae Celfyddydau Cymunedol Gwynedd yn darparu grantiau Celfyddydau Cymunedol hyd at £500 i grwpiau gwirfoddol a chymunedol i gynnal cynlluniau yn eu cymunedau. 'Rydym hefyd yn rhan o gynllun cenedlaethol Noson Allan sy'n cefnogi cymunedau i lwyfannu perfformiadau byw proffesiynol yn eu

cymuned. Yn ogystal ‘rydym yn cynorthwyo gyda’r gwaith o  ddyrannu a monitro grantiau Cefnogi’r Celfyddydau. Mae gennym hefyd gynllun Cronfa Sbarduno I gefnogi elfen fwy arbrofol gyda nifer o artistiaid yn cael ei gefnogi ganddo. Mae’r rhain yn ddibynnol ar gyllid ar gael ar y pryd. Hefyd rhoddir mewnbwn i grantiau Diwyllesiant sydd wedi ei ariannu gan Lywodraeth y DU.

Mae’r Gwasanaeth hefyd yn cefnogi Gwynedd Creadigol sydd yn fforwm i’r celfyddydau sydd yn cynnwys gwefan a chyfle i rannu gwybodaeth. Yn y broses o edrych ar y ffordd ymlaen gyda’r fforwm.

## Storiel

Gweledigaeth  Storiel yw :-

"*Cyfoethogi bywyd pobl Gwynedd trwy hyrwyddo dealltwriaeth o'u hetifeddiaeth a'u diwylliant unigryw, er mwyn ysbrydoli a chreu balchder yn yr ardal ac awydd i fyw neu aros ynddi, dychwelyd iddi neu ymweld â hi.*"

***Datganiad o Genhadaeth***
'Nod STORIEL yw cyfrannu tuag at ddeall hanes a diwylliant Gwynedd a'i phobl trwy gasglu a gofalu am ei chasgliadau a chynnig mynediad atynt fel bod pawb yn medru rhannu ei hetifeddiaeth gyfoethog.'

Mae Gwynedd yn ardal ddaearyddol fawr yn cwmpasu dros 250,000 hectar ac yn gartref i gymuned wasgaredig o oddeutu 122,000 o drigolion. Mae'n gartref i gymunedau dwyieithog mwyaf y DU ac mae ganddi'r ganran uchaf o siaradwyr Cymraeg iaith gyntaf. Storiel yw'r unig sefydliad sydd a'r dasg o ddarparu darlun cyffredinol a chofnod o dreftadaeth a diwylliant y rhanbarth i'r Sir gyfan. Mae pob cymuned yng Ngwynedd yn meddu ar atgofion, eitemau, storïau a ffotograffau nad ydynt yn cael eu cofnodi'n systematig nac yn cael eu casglu mewn modd strategol, cydlynol sy'n adrodd stori Gwynedd. Trwy arddangosfeydd a gweithgareddau byddwn yn cyflwyno rhai o straeon Gwynedd.

***Hanes***
Mae gwreiddiau'r Amgueddfa yn dyddio'n ôl i 1884 pan sefydlwyd hi fel Amgueddfa Hynafiaethau Cymru. Dyma'r amgueddfa hynaf yng ngogledd Cymru. Roedd yn cael ei rhedeg gan Brifysgol Cymru, Bangor hyd 1990. Achubwyd yr amgueddfa rhag gorfod cau trwy ei throsglwyddo i reolaeth Cyngor Gwynedd ym 1991 (gan ei hail-enwi yn Amgueddfa ac Oriel Gelf Bangor). Roedd yr adeilad a'r rhan fwyaf o'r casgliad yn parhau ym meddiant y Brifysgol. Symudwyd casgliadau'r Cyngor Sir i'r amgueddfa pryd hynny gan ddarparu mynediad a gofalu amdanynt yno.  Ers 1996, gyda'r Cyngor yn ei rhedeg, fe'i datblygwyd fel  amgueddfa'r sir ac fe'i hail-enwyd yn Amgueddfa ac Oriel Gelf Gwynedd, Bangor i adlewyrchu ei chylch gorchwyl.  Ers symud lleoliad o'r Canondy i hen Blas yr Esgob, fe ailenwyd yr amgueddfa ac oriel fel Storiel er mwyn adlewyrchu ei rôl fel amgueddfa, oriel ac i adrodd stori bobl Gwynedd. Mae'r adeilad yn eiddo i'r Cyngor. Mae'r casgliadau yn parhau i gael eu casglu gan y Cyngor ac maent yn cynnwys benthyciad gan y Brifysgol. Bellach fe'i cyllidir ar y cyd  gan Gyngor Gwynedd a Phrifysgol Bangor.

Mae Storiel yn Amgueddfa Achrededig gyda safle a gwasanaeth newydd a agorodd yn 2016 wedi buddsoddiad yn sylweddol  gwerth £2.6m gyda chefnogaeth Cronfa Dreftadaeth y Loteri, Cyngor Celfyddydau Cymru, Llywodraeth Cymru, Prifysgol Bangor, Cyngor Gwynedd , Cyngor Dinas Bangor, Ashley Family Foundation, Garfield Weston Foundation a'r The Woolfson Foundation.

Mae Plas yr Esgob ym Mangor yn adeilad hanesyddol sy'n cael ei chydnabod fel yr adeilad domestic mwyaf â ffrâm o bren hynaf yng Nghymru a'r unig Blas yr Esgob canoloesol sydd wedi goroesi yng Nghymru.

Pan ddyfeisiwyd y prosiect yn 2012 - 2014 yn dilyn cyfnod o ansicrwydd i Amgueddfa ac Oriel Gwynedd y prif bwrpas oedd:

- Gwella dealltwriaeth o'r dreftadaeth adeiledig ym Mangor drwy ymgymryd â gwaith ailwampio a chadwraeth ym Mhlas yr Esgob fydd yn gweld creu amgueddfa ac oriel ddeinamig, groesawgar ac agored sy'n hygyrch i bawb.

- Gwella mynediad ffisegol a rhithwir at gasgliadau Amgueddfa ac Oriel Gwynedd yn yr amgueddfa arfaethedig ac mewn lleoliadau ledled y sir drwy ail-arddangos a dehongli'r casgliadau helaeth a datblygu themâu a straeon perthnasol i gyd-fynd â hwy.

- Gwella mynediad i'r cyhoedd a darparu mynediad ffisegol, digidol a deallusol at gasgliadau Prifysgol Bangor drwy gadw'r casgliadau'n well, a'u gosod a'u dehongli'n well. Wedi'u casglu ers 1884, gan fwyaf fel casgliadau dysgu, ceir casgliadau sylweddol o gelf, cerameg, offerynnau cerdd traddodiadol Cymreig, offerynnau cerdd ethnograffig, hanes natur, daeareg, botaneg a gwyddorau morol sydd o arwyddocâd rhanbarthol a chenedlaethol (a rhyngwladol hefyd mewn rhai achosion).

- Cynnwys grwpiau cymunedol ac unigolion i gyd-ddylunio'r dehongliad o ddiwylliant a threftadaeth Gwynedd gan ddefnyddio platfformau digidol a chyfryngau newydd ynghyd â dulliau cyfathrebu traddodiadol. Datblygu Fforwm Treftadaeth Gwynedd a datblygu rhwydwaith gwirfoddolwyr cynaliadwy i sicrhau ymagwedd gysylltiedig â chynaliadwy at dreftadaeth Gwynedd, o ran ei chadw, dysgu amdani a chyfrannu ati.

Mae Storiel bellach wedi ei sefydlu fel amgueddfa ac oriel gelf lwyddiannus gyda'i chanolfan wedi ei lleoli ym Mangor gyda chyfres o loerennau wedi eu lleoli drwy Wynedd yn Llanberis, Llanbedrog, Blaenau Ffestiniog, Dolgellau a Thywyn.

Bu i Werthusiad adnabod bod y prosiect unai wedi cyrraedd neu guro ei thargedau a deilliannau gan weld 592% o gynnydd yn y nifer ymwelwyr a 36% o gynnydd yn yr oriau agor, 139 o wirfoddolwyr yn darparu 5,500 o oriau.


Er bod Storiel yn parhau i wireddu llawer o ddeilliannau'r prosiect mae angen strategaeth glir a chynllun gweithredu i adfywio amcanion gwreiddiol y prosiect er mwyn sicrhau cynaladwyedd a llwyddiant Storiel i'r dyfodol.

***Rheolaethol a Llywodraethol***

Mae Storiel yn cael ei rheoli gan Gyngor Gwynedd  mewn partneriaeth a Phrifysgol Bangor.


Arwyddwyd cytundeb ffurfiol rhwng y ddau barti yn 2013 er mwyn cefnogi Storiel a'i gweithgareddau. Bu i'r cytundeb yma ffurfioli'r  strwythur
llywodraethol i gynnwys Bwrdd ar y cyd gyda chyfrifoldebau am gyfeiriad strategol a gwneud penderfyniadau.

Dyma'r strwythur presennol -




Pan fydd y weledigaeth o ymestyn Storiel i gynnwys y gwasanaethau Amgueddfeydd a'r Celfyddydau fe adolygir y strwythur hwn yn ystod y 5 mlynedd nesaf fel rhan o'r rhaglen waith.

## Strwythur staffio'r Gwasanaeth Amgueddfeydd a'r Celfyddydau




**Swyddog Datblygu Storiel ( dros dro gyda grant)**
**Blaen ty**
**Cynnwys staff achlysurol a thymhorol**
Uwch gymhorthydd safle
Cymhorthyddion safle
Cymhorthydd Amgueddfa

## Strwythur Gwleidyddol Cyngor Gwynedd 2025

[Strwythur gwleidyddol]

***Ymddiriedolaeth Datblygu sydd bellach am gael ei galw'n Sefydliad Cefnogi Storiel***

Ar hyn o bryd rydym yn parhau yn y broses o'i ac mi fydd yn eistedd ar wahân i'r Cyfeillion i alluogi Storiel ymgeisio am arian trwy elusen gofrestredig. Rydym hefyd yn ymchwilio i gael Cynllun Aelodaeth newydd i Storiel. Mae gennym ymddiriedolwyr mewn lle a chais drafft i gael cofrestru gyda'r Comisiwn Elusennau. Yn dilyn Cyngor pellach gan ymgynghorydd drwy gefnogaeth AIM anelir i gofrestru fel cwmni elusennol a gyda "Companies House." Nod yw ei gwblhau yn ystod 2025.

Amcan Sefydliad Cefnogi Storiel yw:

*"Hyrwyddo'r Celfyddydau, Diwylliant, Treftadaeth ac Addysg er budd y cyhoedd yn gyffredinol, yn benodol ond nid yn gyfan gwbl drwy hyrwyddo gwerthfawrogiad a dealltwriaeth o hanes, Treftadaeth, Diwylliant a chelfyddydau gweledol Gwynedd, drwy gasgliadau, dehongliadau, arddangosfeydd a gweithgareddau Amgueddfa ac Oriel Gelf Storiel a'i lloerennau"*

***Cyfeillion Storiel***

Mae Cyfeillion Storiel wedi bod yn greiddiol i barhad a llwyddiant Storiel. Mae ganddynt rôl bwysig wrth gefnogi gweithgareddau Storiel a phrosiectau llai ac wedi cefnogi a chyfrannu at brosiectau a chynlluniau grantiau fel ar gyfer gofal casgliadau, prynu casgliadau, addasiadau a gwelliannau, digwyddiadau a gweithgareddau cymunedol. Maent hefyd yn trefnu eu darlithoedd, digwyddiadau a theithiau eu hunain. Mae cylchlythyr byr tair gwaith y flwyddyn. Rydym wedi cyflwyno ceisiadau grant trwy'r Cyfeillion fel rhan o'r gwaith codi arian. Rydym yn parhau i drafod gyda'r Cyfeillion i adnabod y ffordd orau gallent gefnogi Storiel ac mae angen denu rhagor i ymuno gyda hwy.

Amcanion a phwerau Cyfeillion Storiel, sydd yn elusen annibynnol yw:

*'I addysgu'r cyhoedd drwy hyrwyddo, cefnogi, rhoi cymorth a gwella'r amgueddfa ac oriel a adnabyddir fel Storiel drwy weithgareddau grŵp o gyfeillion"*

Mae'r ddwy elusen yn annibynnol o Gyngor Gwynedd a Phrifysgol Bangor, ond maent yn gweithio'n agos i gefnogi nod ac amcanion Storiel.

***Staffio***

Cafodd strwythur staffio Storiel ei adolygu ar ddiwedd 2013-2016 a chyfnod y prosiect er mwyn adlewyrchu ac asesu'r incwm oedd ar gael i redeg y gwasanaeth. Rhoddwyd ffocws ar strwythur gyda'r swyddogaethau dilynol :

- Rheoli a Gwirfoddoli
- Gofal casgliadau
- Dysgu ffurfiol ac anffurfiol
- Arddangosfeydd a digwyddiadau

I adlewyrchu'r rolau uchod mabwysiadwyd yr isod ond dylid nodi nad oes y run o'r rolau gyda 100% o'u hamser yn erbyn Storiel ac mae nifer o'r gweithgareddau yn ddibynnol ar arian ychwanegol ee drwy grantiau llwyddiannus.

- Swyddog Datblygu Amgueddfeydd ( yn flaenorol Cydlynydd Amgueddfeydd a Gwirfoddolwyr) ar y cyd ac Amgueddfa Lloyd George.

- Curadur  sy'n rhannu amser rhwng Storiel a'r Brifysgol  ar sail secondiad rhan-amser mewn lle gyda'r Brifysgol. ( yn flaenorol  Swyddog Casgliadau Amgueddfaol Prifysgol Bangor a Storiel
- Swyddog Dysgu ac Ymgysylltu llawn amser dros dro gyda grant Llywodraeth DU
- Swyddog Datblygu Storiel llawn amser dros dro gydag arian Llywodraeth y DU
- Cefnogaeth arddangosfeydd a thechnegol drwy Swyddog Arddangosfeydd rhan amser
- Derbynnydd a cymhorthyddion safle rhan amser ac achlysurol.
- Rhedir y caffi yn fewnol gyda staff blaen tŷ yn darparu lluniaeth ysgafn yn unig ar hyn o bryd
- Swyddog Celf Gweledol yn rhaglennu arddangosfeydd celf o dan gyllideb y Gwasanaeth Orielau.
- Rheolwr Amgueddfeydd a'r Celfyddydau cyllideb tu allan i Storiel

Ar hyn o bryd mae adolygiad parhaus yn cymryd lle o'r staffio er mwyn adnabod y drefn orau o fewn y gyllideb ac mae'n rhan o'n Cynllun Gweithredu Pwynt 2,3 a 5

***Gwirfoddolwyr***
Mae gwaith Storiel o weithio gyda gwirfoddolwyr yn weddol newydd i Gyngor Gwynedd. Yn ystod cyfnod y prosiect CDL bu i  oddeutu 139 o wirfoddolwyr rhoi ei hamser i Storiel yn ogystal â Phrifysgol Bangor gyda tair rôl wirfoddol  sef  Profiad Ymwelwyr, Cynhorthwydd Casgliadau, a Cynhorthwydd Dysgu.  Ond ers cyfnod y prosiect ddod i ben mae'r capasiti i gefnogi gwirfoddolwyr wedi profi yn heriol gan fod cymaint o alw ar y gwasanaeth a rheoli'r adeilad a gostyngiad yn y lefelau staffio.

Mae 1-2  o wirfoddolwyr rheolaidd gennym ond ar raddfa llawer lai i gefnogi'r Curadur. Mae angen ail asesu sut i barhau  a datblygu rhagor o capasiti i ddatblygu a chefnogi hyn ymhellach. Rhan o Gynllun Gweithredu.

***Casgliadau Amgueddfaol***.

Mae Casgliad y Cyngor Sir yn dyddio yn ôl i'r 1950au pan gasglwyd arteffactau gan Wasanaeth Archifau Gwynedd ac yna'r Gwasanaeth Amgueddfeydd ers 1986. Mae'r rhan fwyaf o'r Casgliad Sirol wedi ei gatalogio ac yn canolbwyntio ar hanes cymdeithasol Arfon, Dwyfor a Meirionnydd a'r Gwynedd presennol. Mae'n cynnwys ystod eang gan gynnwys gwisgoedd, offer crefftau, medalau, eitemau o'r cartref, eitemau crefyddol. Mae'r gwaith o ddogfennu'r casgliad ar y gweill, fel yr amlinellir gan raglen waith y Gwasanaeth Amgueddfeydd. Mae'r gwaith o ychwanegu at Gasgliadau'r Sir yn parhau yn weithredol. Hefyd mae casgliadau ar fenthyg gan Brifysgol Bangor. Mae cytundeb gydag adran rheoli datblygu Heneb (Ymddiriedolaeth Archeolegol Gwynedd yn flaenorol ) sy'n sicrhau y bydd deunydd o waith maes archeolegol yn y sir yn dod yn rhan o Gasgliad y Sir.

Mae'r eitemau a gasglwyd cyn 1990 gan Amgueddfa Hynafiaethau Cymru (75 % o'r cyfanswm) yn parhau yn eiddo i'r Brifysgol ac ar fenthyciad i Storiel. Mae casgliad y Brifysgol yn cynnwys deunydd archeolegol, dodrefn, argraffiadau topograffaidd, gwisgoedd a defnyddiau yn ogystal ag eitemau hanes cymdeithasol arwyddocaol. Mae'r rhan fwyaf o gasgliad y Brifysgol wedi ei restru a'i gatalogio er bod rhai bylchau yn y wybodaeth oherwydd anghysondeb rhwng y cofnodion dogfennu.  Mae gwaith dogfennu diweddar, gan gynnwys gwaith lleoli a rhifo yn parhau i ymdrin â'r anghysondebau hyn. Mae casgliad y Brifysgol yn statig.  Mae'r casgliadau a roddwyd ar fenthyg i'r amgueddfa tra roedd yn cael ei gweinyddu gan y Brifysgol  yn dyddio o gyn 1990, gyda  llawer yn dyddio o'r 1930au a'r 1940au.

Rydym hefyd yn gweithio mewn partneriaeth i roi gofal a mynediad i gasgliadau eang y Brifysgol sydd wedi eu lleoli mewn adrannau ac adeiladau amrywiol y Brifysgol .  Mae hyn yn cael ei wireddu trwy rôl Curadur gyda chefnogaeth gan Reolwr Amgueddfeydd a'r Celfyddydau. Mae'r casgliadau yn cynnwys Zooleg, Geoleg, Pren wedi ei ddifrodi, Herbariwm, Celf, Cerameg a chasgliadau Cerddoriaeth Crossley Holland.  Rydym  wedi cyflwyno cais  ar gyfer achrediad gan y Brifysgol.

Mae Llawlyfr Gweithdrefnau Dogfennu mewn lle, sy'n cadw at y safonau SPECTRUM ac mae amserlen gwaith yn y Cynllun Dogfennu ar gyfer pob amgueddfa. Mae gofal am y casgliadau yn ei le gyda system fonitro a rheoli amgylcheddol, diogelwch a goruchwylio, cynnal a chadw'r adeilad, cadw tŷ a rhaglen o archwilio casgliadau a gwelliannau wedi eu cynllunio i'w gweithredu. Mae'r rhain yn cynnwys archwiliadau o'r cyfleusterau a mynediad, diweddaru'r rhaglen addysg ac arddangosfeydd a dogfennau polisi eraill. Mae dolen fonitro MEACO ar rwydwaith yn ei lle rhwng Storiel ac Amgueddfa Lloyd George er mwyn sicrhau monitro a rheolaeth amgylcheddol. Mae gan Storiel ac Amgueddfa Lloyd George larymau lladron a thân a CCTV gyda monitro oddi ar y safle ar gael. Mae hyn yn rhoi mwy o ddiogelwch i'r staff, yr adeilad a'r casgliadau a bydd yn caniatáu i'r Amgueddfa gyrraedd y safonau a'r amodau sy'n ofynnol gan nifer o sefydliadau eraill cyn rhoi benthyg casgliadau. Mae'r storfa allanol sydd ger Storiel wedi ei adnabod fel un sydd angen buddsoddiad ynddi neu adnabod ffordd arall ymlaen ac adlewyrchir hyn yn ein Cynllun Gweithredu.

Mae cyfran helaeth o'r casgliadau wedi eu digideiddio ac maent ar gael i'r cyhoedd eu chwilio trwy gronfa ddata Axiell Collection trwy ddolen o wefan yr amgueddfa. Mae gwaith sganio a ffotograffiaeth i wella gwybodaeth am yr eitemau a gwella mynediad atynt wedi cymryd lle. Rydym yn gweithio mewn partneriaeth a sefydliadau eraill ee ArtUK i wella mynediad rhithwir at y casgliadau. Dyma faes rydym yn awyddus ei ddatblygu ymhellach

**Buddsoddiad CELF**

Mae Storiel wedi derbyn buddsoddiad fel rhan o gynllun CELF yn ystod 2023-5. CELF yw rhwydwaith o 9 oriel ledled Cymru sy'n darparu mynediad am ddim i gasgliad cenedlaethol Amgueddfa Cymru a Llyfrgell Genedlaethol Cymru gan ddod â chelf gyfoes yn nes at gymunedau a chefnogi artistiaid. Cefnogir hyn gan Lywodraeth Cymru fel rhan o'u Rhaglen Lywodraethu ac yn eu Cytundeb Cydweithio â Phlaid Cymru. Mae hefyd yn eu Blaenoriaethau Diwylliant 2025. Datblygir hyn drwy gydweithio rhwng Cyngor Celfyddydau Cymru, Amgueddfa Cymru a Llyfrgell Genedlaethol Cymru.
Yn ystod 2023-2025 buddsoddwyd gwerth dros £350,000 mewn gwaith cyfalaf i uwchraddio safonau diogelwch ac amgylcheddol Storiel gan ehangu ei gofodau arddangos sydd yn cyrraedd gofynion GIS. Bu hefyd cyfle i gael comisiynau ar gyfer artistiaid, datblygu cynulleidfa a marchnata. Mae amodau ynghlwm a'r cynllun sef trefnu benthyciadau cenedlaethol i o leiaf un arddangosfa'r flwyddyn a chynnydd blynyddol o 3% mewn ymweliadau dros 10 mlynedd.

***Gwasanaethau***

***Amgueddfa***
Trwy arian y Loteri, rydym wedi gallu ail-ddehongli ac arddangos yr arteffactau i gynrychioli Stori Gwynedd. Mae tri phrif oriel amgueddfaol sef Cyflwyno'r Casgliadau, Bywyd a Gwaith a Chysylltiadau Gwynedd. Yn ogystal fel rhan o weledigaeth Storiel i ddehongli stori Gwynedd mae lloerennau ar draws y sir. Mae casys arddangos o safon yn dderbynfa Storiel sydd yn cael ei raglennu a'i newid pob chwe mis. Mae un yn canolbwyntio ar gasgliadau'r Brifysgol, a'r llall ar gyfer arddangosfeydd wedi ei guradu gan y Curadur ac o bryd i'w gilydd gan wirfoddolwyr, grwpiau allanol a chymunedol.

***Oriel***
Mae gan y tair oriel gelf raglen fywiog o arddangosfeydd celf gydag arddangosfeydd hanesyddol/hanesyddol a chelf yn achlysurol. Mae yna hefyd ofod cymunedol ar gyfer arddangosfeydd cymunedol i arddangos prosiectau hanesyddol cymunedol, prosiectau celf cymunedol a rhoi ffocws ar waith crefft unigryw o'r ardal. Yn wreiddiol roedd dwy o'r orielau celf yn cyrraedd gofynion GIS o ran

diogelwch ac amgylcheddol fel y gellir benthyg casgliadau ac arddangosfeydd gyda gofynion uwch. Mae buddsoddiad CELF wedi uchafu y cyfleodd yma ( gweler uchod t16) gydag oriel ychwanegol yn cyrraedd y gofynion.

***Siop***

Mae yna Siop yn Storiel sydd yn gwerthu gwaith arlunwyr a chrefftwyr lleol, anrhegion, cardiau cyfarch, deunydd ysgrifennu, llyfrau a nwyddau i blant. Mae hon yn gyfle arbennig i gefnogi'r economi leol, artistiaid a chrefftwyr Cymreig a thu allan gan roi llwyfan i'w gwaith. Hefyd mae'n cyfrannu at y profiad ymwelwyr ac at y targedau incwm.

***Caffi***

Bu i Gaffi Seibiant a oedd yn cael ei redeg ar sail masnachfraint ddod i ben yn 2018. Yna cafodd ei redeg fel Caffi Storiel ar sail peilot yn fewnol. Mae wedi bod yn her i hyn fod yn gynaliadwy enwedig gyn sgil Covid a gofynion y Cyngor o ran Caffael ayyb, Ar hyn o bryd cynigir lluniaeth ysgafn gan staff blaen tŷ yn unig. . Rydym wedi adolygu'r sefyllfa a bellach yn y broses o fynd i dendr ac anelir i gael datrysiad erbyn Medi 2025.

**Ymwelwyr**

Nid oes pwynt gwybodaeth swyddogol i dwristiaeth gennym bellach ond mae gennym daflenni a staff gwybodus sydd yn gallu cyfeirio ymwelwyr at atyniadau a gwasanaethau yn yr ardal.

***Gwasanaeth Addysg***

Darperir gwasanaeth addysg trwy'r Swyddogion Addysg Gwasanaeth Archifau Gwynedd a Swyddog Ymgysylltu a Dysgu dros dro Storiel ( gydag arian grant). Maent yn hyrwyddo defnyddio casgliad yr amgueddfa ac yn trefnu ymweliadau a gweithdai gan ysgolion, colegau, grwpiau a theuluoedd. Trefnir gweithdai, gweithgareddau, dyddiau agored, blychau benthyca, darlithoedd hefyd yn yr amgueddfa fel rhan o waith ymgysylltu Storiel sydd yn agored i gynulleidfaoedd ehangach, fel teuluoedd a grwpiau cymunedol. Mae adrannau'r brifysgol a Choleg Menai yn defnyddio Storiel e.e. cwrs sylfaen celf. Mae'r amgueddfa yn gartref i nifer o ddarlithoedd cyhoeddus yn flynyddol. Mae'r Curadur yn darparu gwasanaeth adnabod. Rhoddir cyfleoedd profiad gwaith a gwirfoddoli i unigolion, oedolion, grwpiau, myfyrwyr Prifysgol a phlant ysgol pan fydd hynny'n bosibl. Mae angen adolygu ein strategaeth dysgu ar gyfer datblygu ein gweledigaeth ar gyfer y Gwasanaeth.

*Oriau agor*

Dydd Mawrth i Ddydd Sadwrn 11.00 hyd 5.00pm
(ar gau Ddydd Sul a Dydd Llun a gwyliau cyhoeddus a dros gyfnod y Nadolig)
Rydym yn edrych ar yr oriau yn rheolaidd i weld os oes angen addasu e.e. ymestyn neu leihau'r oriau ; treialu agor ar rhai gwyliau cyhoeddus a dyddiau Sul. Mae mynediad yn parhau i fod am ddim, ond byddwn yn datblygu dulliau effeithiol o annog ymwelwyr i roi cyfraniadau o'u gwirfodd fwy fwy yn y dyfodol.

***Mynediad am ddim***

Cyn symud i'n safle newydd, roedd niferoedd yr ymwelwyr tua 15,000 ac yn sefydlog.
Ers agor yn ein lleoliad, rydym wedi denu llawer mwy. Yn 2016/7 denwyd dros 80,000 ac erbyn hyn mae oddeutu 50,000 o ymwelwyr y flwyddyn yn ymweld a defnyddio Storiel. Yn sgil covid bu newid yn y niferoedd a bellach rydym yn denu oddeutu 30,000 ac yn anelu i gynyddu'r niferoedd dros y blynyddoedd nesaf yn enwedig gan fod targed yn sgil prosiect CELF i godi niferoedd 3% yn flynyddol dros y 10 blynedd nesaf.

***Yr adeilad***
Cartrefir yr Amgueddfa yn yr Hen Balas yr Esgob, sydd hefyd yn cael ei adnabod fel Neuadd y Dref, Bangor. Mae'n adeilad rhestredig Gradd II sydd yn dyddio o tua 1500. Yn sgil y prosiect CDL, mae'r adeilad a'r gofod tu allan wedi cael ei wella ac adnewyddu i sicrhau gofod Amgueddfaol ac orielau hygyrch, agored a chroesawgar sydd yn cydymffurfio â deddfwriaeth DDA. Yn ogystal â'r Orielau amgueddfaol a chelf, mae hefyd derbynfa, siop, caffi, storfa amgueddfaol, gofod a chasys cymunedol ac ystafelloedd dysgu sydd hefyd yn gallu cael eu llogi fel ystafelloedd cynhadledd i grwpiau cymunedol. Y tu allan, mae hen lawnt fowlio sef Lawnt Storiel yn gallu cael ei llogi i grwpiau cymunedol ac mae gofod eistedd braf lle mae gwlâu o blanhigion sydd yn berthnasol i'r ardal a chyfnodau hanesyddol yr adeilad.

Mae manylion pellach ar gyfer defnyddwyr yn ein Datganiad Mynediad ar gais a bydd ar ein gwefan newydd pan yn ei le.

***Storfa estynedig***
Defnyddir adeilad cyfagos ym meddiant y Cyngor ar gyfer storio casgliadau. Bellach mae angen buddsoddiad ynddo ac mi fydd angen ymgeisio am grant a chydweithio gydag ein Hadran Eiddo i anelu am hyn. Mae monitro amgylcheddol, larymau tân a diogelwch yn eu lle trwy ddolen radio gyda phrif adeilad Storiel a CCTV yn ei le. Yn y storfa hon y mae cartref Casgliad Sirol Gwynedd, gan gynnwys y casgliadau celf ac archaeoleg yn ogystal â llawer o'r casgliad dodrefn. Mae astudiaeth dichonolrwydd a chynllun busnes wedi ei ddatblygu gydag arian grant i edrych ar y cyfle i rannu gofod storio gyda'r Brifysgol ac o bosib partneriaid eraill fel Amgueddfa Cymru, Cadw, Ymddiriedolaeth Genedlaethol, Oriel Môn. Angen cadarnhau'r ffordd ymlaen ac adnabod cyllid.

***Diweddariad 2020-2025***

Mae'r sefyllfa ariannol yn parhau'n heriol gyda thargedau incwm uchel gan Storiel ac mae'n ddibynnol ar y bartneriaeth gyda'r brifysgol sydd hefyd yn gwynebu heriau cyllidol. Mae Cynllun Busnes hyfyw yn angenrheidiol ac mae angen adnabod ffordd ymlaen gyda'r caffi er mwyn denu incwm neu o leiaf lleihau'r diffyg sydd yn y gyllideb ar hyn o bryd. Ers covid mae'r ffigyrau yn parhau i godi ond mae effaith ar y llogi yn parhau gyda llawer llai yn ei defnyddio. Bydd rhaid cau'r orielau hanes am gyfnod oherwydd iddynt fod yn ddiffygiol a bu rhaid cau'r gofod llogi am gyfnod er mwyn storio creiriau Amgueddfa Lloyd George am gyfnod. Yn ogystal caewyd y safle am gyfnodau tra roedd gwaith cyfalaf CELF yn cymryd lle felly cafodd hyn oll effaith ar y ffigyrau yn ystod y cyfnod yma. Mae angen sylw hefyd i godi proffil y safle.

Ar y llaw arall mae Storiel wedi bod yn ffodus iawn o sawl buddsoddiad sef Trawsffurfio Trefi i weddnewid y gofodau tu allan a chodi proffil y safle ; Camau at Cynaladweydd ar gyfer y caffi ac rydym yn y broses o fynd i dendr; Storiel yn cael ei dewis i fod yn rhan o cynllun CELF a chael uwchraddio safon y gofodau mewnol a chomisiynau datblygu cynulleidfa a marchnata sydd am osod sylfaen da ar gyfer y dyfodol. Hefyd mae grant SPF Llywodraeth y DU wedi cefnogi Swydd Swyddog Ymgysylltu a Dysgu a phecyn o weithgareddau yn ogystal ag arian grant Cyfuno yn parhau i gefnogi gweithgareddau i rai o angen.

## Amgueddfa Lloyd George, Llanystumdwy

***Datganiad o Genhadaeth***.
'Dehongli bywyd a chyfnod David Lloyd George 1863-1945 trwy gasglu, gofalu ac arddangos eitemau yn ymwneud ag ef, a datblygu'r Amgueddfa a Highgate fel canolfan deilwng i goffau un o brif wleidyddion yr ugeinfed ganrif ac fel canolbwynt ar gyfer gwybodaeth ac ymchwil a fydd yn hyrwyddo ymwybyddiaeth trwy'r byd o'r hyn a gyflawnodd.'

***Hanes.***
Sefydlwyd yr Amgueddfa ym 1948 ac fe'i rhedwyd gan Ymddiriedolwyr hyd nes iddi gael ei throsglwyddo i'r Cyngor (Y cyngor yn awr sy'n ymddiriedolwyr i'r amgueddfa). Mae'n dathlu bywyd David Lloyd George (1863-1945) ac mae'n un o ddim ond dwy amgueddfa yn y DU i gyn prif weinidog. Yn ychwanegol at yr amgueddfa, mae ei gartref yn ystod ei blentyndod, Highgate, sy'n adeilad rhestredig Graddfa II, wedi cael ei adfer a'i ddehongli fel yr oedd yn yr 1860au, gyda gweithdy'r crydd. Mae'r ardd Fictoraidd yn un o nodweddion yr amgueddfa.

***Statws Amgueddfa Lloyd George***

Mae Amgueddfa Lloyd George yn elusen (rhif cofrestredig 504296). Enw swyddogol yr elusen yw "Amgueddfa Lloyd George Museum" a Chyngor Gwynedd yw ymddiriedolwr yr elusen. Mae'r elusen yn cael ei llywodraethu gan Weithred Ymddiriedolaeth ddyddiedig 5 Mehefin 1948, sydd wedi ei addasu gan Gynllun ("Scheme") a wnaed gan y Comisiynwyr Elusennau ar 8 Tachwedd 1989.

Mae'r Cynllun dyddiedig 8 Tachwedd 1989 yn cynnwys yr amodau canlynol:

- Mae'r tir a'r adeiladau sydd ym meddiant yr elusen i'w defnyddio at ddibenion amgueddfa i arddangos i'r cyhoedd gasgliad o wrthrychau a phethau eraill o ddiddordeb addysgiadol a hanesyddol sy'n gysylltiedig â bywyd a gwaith y diweddar David, Iarll Lloyd George o Ddwyfor, er mwyn hyrwyddo addysg.
- O fewn y terfynau a nodir gan y Cynllun, gall yr ymddiriedolwr o bryd i'w gilydd wneud neu newid rheolau ar gyfer rheoli'r Amgueddfa.
- Dylai'r ymddiriedolwr yswirio'r adeiladau a'r cynnwys sy'n perthyn i'r elusen i'w llawn werth rhag tân a pheryglon arferol eraill a dylent godi yswiriant priodol parthed atebolrwydd cyhoeddus ac atebolrwydd cyflogwr.
- Dylai'r ymddiriedolwr ddefnyddio incwm blynyddol clir yr elusen i hyrwyddo dibenion yr elusen.

***Cyfeillion***
Mae'r Gymdeithas Cyfeillion yn cynnig cefnogaeth a chymorth. Gwahoddir y Rheolwr Amgueddfeydd a Chelfyddydau yn rheolaidd i gyfarfodydd eu pwyllgor ac mae ganddynt berthynas waith clos. Maent yn cyfrannu'n ariannol yn aml tuag at brosiectau, yn trefnu darlithoedd a digwyddiadau yn yr amgueddfa neu mewn lleoliadau lleol ac yn hyrwyddo'r amgueddfa. Bu iddynt gefnogi'r amgueddfa yn ystod 2019 drwy ariannu cydlynwyr i drefnu gweithgareddau arbrofol i adnabod ffrydiau incwm ac i godi proffil yr amgueddfa e.e. ail greu drws Rhif 10, arbrofwyd gyda theithiau tywys yn yr ardal ar thema Lloyd George.

***Staffio***
O fewn cyllideb yr amgueddfa mae -

- Uwch Gymhorthyddion rhan amser ac achlysurol
- Cymhorthyddion tymhorol i gyfarch y cyhoedd
- Mewn cyllidebau eraill mae cefnogaeth y Rheolwr Amgueddfeydd a'r Celfyddydau, Swyddog Datblygu Amgueddfeydd  a mynediad at staff Storiel fel y Curadura Swyddogion Addysg Archifau ac Amgueddfeydd.

***Casgliadau***
Mae'r casgliad yn cynnwys casgenni rhyddid, medalau, memorabilia, peintiadau, gwisgoedd ac archifau yn ymwneud â Lloyd George.  Ymysg yr uchafbwyntiau mae cytundeb heddwch Rhyfel Byd Cyntaf copi drafft Lloyd George  a "coron Lloyd George" sef y pensiwn cyntaf. Mae Highgate a gweithdy'r crydd wedi cael eu hail greu ac yn cynnwys rhai benthyciadau gan Amgueddfa Cymru.

Mae'r gwaith o ddogfennu'r casgliad yn cydymffurfio â'r Safon Achredu gyda'r ôl-groniad dogfennu yn cael ei drin fel rhan o'r rhaglen waith a gynllunnir. Mae'r amgylchedd yn Amgueddfa Lloyd George yn cael ei fonitro gan ddefnyddio dolen o bell gyda Storiel, Bangor.

***Siop***
Mae siop yr amgueddfa yn gwerthu amrywiaeth o lyfrau, cofroddion a theganau yn ymwneud yn bennaf â bywyd a chyfnod Lloyd George. Mae hon yn ffynhonnell ariannol bwysig i'r amgueddfa.

***Gwasanaethau***
Mae'r arddangosfeydd wedi cael eu hadnewyddu o dro i dro ar gyllideb gyfyngedig iawn wrth i adnoddau ddod ar gael. Mae angen adolygiad a chynlluniau ar gyfer gwella'r dehongli yn arbennig ar gyfer rhannu themâu o'r cyfnod a chyfraniad Lloyd George ac ymgysylltu fwyfwy gyda chymunedau gan geisio codi proffil yr amgueddfa.

Ym 1990 adeiladwyd estyniad sy'n gartref i theatr glywedol. Mae'r ffilm a ddangosir yn y theatr yn boblogaidd iawn gan y cyhoedd.  Defnyddir y theatr hefyd gan grwpiau cymunedol. Mae'r amgueddfa hefyd yn cynnwys llyfrgell a dylid ei datblygu ymhellach a'i hyrwyddo. Mae angen buddsoddi rhagor yma er mwyn cwblhau'r gwaith o osod silffoedd newydd yn sgil derbyn nifer sylweddol o ychwanegiadau i'r casgliad llyfrgell. Mae hon gyda mynediad cyfyngedig ar hyn o bryd hyd nes gellir cwblhau'r gwaith.

Yn ystod 2024-5 bu buddsoddiad gwerth £280,000 sgil grant gwerth £250,000 gan Gronfa Ffyniant Gyffredin Llywodraeth y DU, Cyngor Gwynedd a Chronfa Iarlles Lloyd George.
Fel rhan o'r prosiect, comisiynwyd y dylunwyr amgueddfeydd Mather & Co i foderneiddio'r arddangosfeydd ac integreiddio'r arteffactau â'r stori. Y gobaith yw y bydd yr Amgueddfa ar ei newydd wedd yn caniatáu i ymwelwyr gael dealltwriaeth fwy cynhwysfawr o Lloyd George a chyd-destun ei oes. Bydd yr ymagwedd thematig at y straeon a'r gwrthrychau a gyflwynir yn caniatáu golwg newydd ar fywyd Lloyd George, gan edrych ar agweddau cadarnhaol a negyddol ei gymeriad a'i benderfyniadau a'u gwaddol.

Mae pedair ardal thematig i'r Amgueddfa:

- Mae **'Y Gwleidydd'** yn dilyn stori gronolegol sy'n cyflwyno adegau allweddol o yrfa gynnar Lloyd George yn y Senedd, ei rolau arwyddocaol yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf, a chyfnodau olaf ei fywyd gwleidyddol.
- Mae **'Y Bobl'** yn edrych ar sut mae'r wasg yn portreadu ffigurau gwleidyddol a'u penderfyniadau, gan lunio barn y cyhoedd.

- Mae **'Y Dyn'** yn dod i'r amlwg drwy ddwy is-thema ar draws gwahanol adrannau o'r Amgueddfa: Bywyd Cynnar a Bywyd Teuluol.
- Mae **'Y Gwaddol'** yn edrych ar effaith gweithredoedd a phenderfyniadau gwleidyddol Lloyd George, ochr yn ochr â'r gydnabyddiaeth ryngwladol a gafodd.

Adferwyd bwthyn Highgate yn niwedd yr 1990au gyda Grant Cronfa Dreftadaeth y Loteri ac mae'n ail greu cartref Lloyd George yn ei blentyndod gyda gweithdy'r crydd. Hefyd yn 2004/5 fe ddatblygwyd yr ardd fel rhan o raglen deledu Clwb Garddio S4C ac yna gydag arian gan y cyngor fe'i gwnaed yn fwy hygyrch trwy sicrhau bod y llwybrau yn cynnig mynediad i bawb.

***Gwasanaeth Addysg***
Mae rhaglen o weithgareddau addysgol wedi hen sefydlu sy'n boblogaidd iawn yn seiliedig yn bennaf o amgylch Highgate, ac ystafell ddosbarth Fictoraidd â ail grëwyd ym mhrif adeilad yr amgueddfa. Mae lleoliad daearyddol yr amgueddfa yn y sir yn ei gwneud yn hygyrch i lawer o ysgolion. Yn aml mae'r gweithgareddau'n cyfuno cynnwys hanesyddol yr amgueddfa gyda chelf, crefft, cerddoriaeth, barddoniaeth a llenyddiaeth. Mae gan yr amgueddfa hefyd berthynas waith da gydag ysgol Llanystumdwy a hefyd Chanolfan Ysgrifennu Cenedlaethol Tŷ Newydd sydd gerllaw yn ogystal ag "Yr Ysgwrn" (Amgueddfa a chartref Hedd Wynn, Trawsfynydd ) a redir gan y Parc Cenedlaethol. Rhagwelir yma hefyd yr angen am strategaeth dysgu ar gyfer yr amgueddfa.

***Oriau agor***
Pasg 10.30am - 5pm, Mai Llun-Gwen 10.30am -5pm, Mehefin Llun - Sad 10.30am -5pm, Gorff - Medi bob dydd 10.30am -5pm, Hydref Llun-Gwen 11am -4pm. Ar agor ar benwythnosau Gŵyl y Banc, amseroedd eraill trwy apwyntiad.
Mae tâl mynediad sy'n rhan hanfodol o'r incwm sydd ei angen i gynnal yr amgueddfa.

Mae niferoedd yr ymwelwyr yn amrywio ac ar gyfartaledd yn denu tua 4,000 y flwyddyn. Mae hyn yn is nac oedd cyn cyfnod covid ond hefyd bu'r amgueddfa ar gau yn sgil difrod llifogydd ac wedyn cau ar gyfer buddsoddiad i'r arddangosfa newydd.

***Yr adeiladau***
Dyluniwyd yr adeilad gwreiddiol gan Clough Williams Ellis ac mae'n dyddio o 1960 ac fe adeiladwyd tri estyniad mwy diweddar. Adferwyd Highgate, sy'n dyddio o'r 19eg ganrif ac sy'n rhestredig yn y 1980'a'u ac yna bu rhagor o waith adfer a dehongli yn niwedd yr 1990au gyda grant Cronfa Dreftadaeth y Loteri.

Mae manylion pellach ar gyfer defnyddywr yn ein Datganiad Mynediad ac mi fydd ar ein gwefan newydd.

***Diweddariad***
Er i Gyngor Gwynedd benderfynu yn dilyn ymgynghoriadau Her Gwynedd parthed toriadau, na fyddai'n rhedeg yr amgueddfa wedi 2017, bu newid cyfeiriad yn sgil derbyn cymhorthdal gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri i edrych ar Werthuso Opsiynau ar gyfer dyfodol yr Amgueddfa.
Derbyniwyd arian gan Lywodraeth Prydain, drwy Lywodraeth Cymru am 3 blynedd a, chytunwyd y byddai'r Cyngor yn parhau i redeg yr Amgueddfa hyd 2020, gyda'r nod pryd hynny o'i throsglwyddo i grŵp arall. Yn sgil edrych ar yr opsiynau fe wyrdrowyd y penderfyniad gan ail osod cyllideb i'r Amgueddfa gan edrych ar gadarnhau'r trefniadau rhwng yr Amgueddfa a'r Cyngor gan gydnabod rôl y Cyngor fel Elusen yr Amgueddfa a'r Cabinet fel ei ymddiriedolwyr. Mae cytundebau bellach yn eu lle yn cynnwys MOU.

Yn amlwg cafodd covcid effaith ar nifer yr ymweliadau yn y cyfnod yma ac yna bu difrod dŵr i'r adeilad yn 2022 er ddim i'r casgliadau. Llwyddwyd i gael gwaith cynnal a chadw, paentio, cegin a charped newydd yn sgil hyn.Yna yn 2024/5 mae buddsoddiad SPF wedi ei arwain at arddangosfeydd newydd yn ail agor Pasg 2025 gyda chyfnod mwy positif o'i blaen.

## *Mynediad - Datblygu Cynulleidfa a Marchnata'r Amgueddfeydd*

Mae'r ddwy amgueddfa gyda Chynllun Gweithredu sy'n cynnwys camau o ran mynediad, marchnata a datblygu cynulleidfa. Mae gan y ddau ddatganiad o bolisi mynediad. Mae marchnata yn heriol oherwydd diffyg adnoddau a chapasiti. Yn wreiddiol roedd cyllideb ganolog ar gyfer marchnata mewn adran flaenorol ond yna cafodd ei rhannu rhwng gwasanaethau yn ôl y ganran o'u cyllideb. Bellach mae gan Amgueddfa Lloyd George £160 a Storiel £1770 o gyllideb. Mae'r amgueddfeydd yn awr yn canolbwyntio ar gyfryngau cymdeithasol fel, facebook ac instagram, gwefannau a rhyddhau datganiadau cyson i'r wasg i'w hyrwyddo. Cyhoeddir taflenni a rhaglenni arddangosfeydd fel mae cyllid yn ei ganiatáu. Cydweithir yn agos a gwasanaeth twristiaeth y Cyngor.

Mae'r comisiynau a gefnogwyd gan grant CELF ar gyfer cynllun datblygu cynulleidfa a marchnata am osod sylfaen da i Storiel. Hefyd mae SPF wedi cefnogi swydd Swyddog Datblygu Amgueddfa sydd yn cynnwys rôl marchnata i wireddu rhai o'r amcanion. Anelir i ddefnyddio grant SPF 2025/6 i ganolbwyntio hefyd ar gyfleodd yn Amgueddfa Lloyd George a gosod ffordd ymlaen iddi.

Mae'r ddwy amgueddfa wedi eu cymeradwyo tan cynllun VAQAS. O fod yn wasanaeth Cyngor mae hynny yn cyfyngu ar farchnata a hyrwyddo ar y we. O weithio gyda'r Gwasanaeth Technoleg Gwybodaeth anelir at wella'r sefyllfa hon ac anelir I gael gwerfannau Newydd I'r ddwy yn ystod 2025/5

Rydym wedi adnabod bod angen cynllun Datblygu Cynulleidfa a Marchnata gyda rhalgen waith ac mi fydd hyn yn cael ei adlewyrchu yn ein Cynllun Gwaith Pwynt 2.

**Er gwybodaeth dyma fanylion ychwanegol am Gynllun Datblygu Cynulleidfa Storiel gan Tabitha Milne and Rhian Hughes 2025**

Mae'r adroddiad yn cyflwyno trosolwg ac analysis o'n gwaith gyda Storiel, Bangor sydd yn cynnig mynediad hanfodol i dreftadaeth, hanes a phrofiadau creadigol ac artistig i bobl Gwynedd. Eu rôl oedd i archwilio perthnasoedd Storiel â'r gynulleidfa yn sgil cael eu dewis i fod yn rhan o CELF.

Mae aelodaeth o'r rhwydwaith hwn, a'r gwaith ymchwil a datblygu sy'n deillio ohono, yn cynnig cyfle unigryw i Storiel i ddyfnhau a chynyddu ei chynnig i bobl a chymunedau Gwynedd. Mae'n ei galluogi i gyflwyno arddangosfeydd / gweithiau celf o'r casgliad cenedlaethol a'u dod i'r ardal leol ar gyfer eun hymwelwyr. Mae hyn hefyd yn creu cyfleoedd i dynnu cymariaethau cyffrous rhwng casgliadau presennol wrth arddangos talent greadigol cyfoethog a hanes diwylliannol Gwynedd ochr yn ochr â'r arddangosfeydd/casgliadau gwadd yma.
Diben allweddol rhwydwaith CELF yw cynyddu'r gynulleidfa sy'n mynychu celf gyfoes ledled Cymru o 3% bob blwyddyn, gan gyflawni cynnydd o 30% yn ystod 10 mlynedd gyntaf y prosiect. Mae'r dymuniad hwn yn cyd-fynd yn uniongyrchol â'i angen i Storiel adfer nifer yr ymwelwyr sydd wedi gweld dirywiad sydyn ar ôl Covid. Mae'n cynnig llwyfan i adfywio diddordeb a chymryd rhan yn eich gwaith ymhlith

cynulleidfaoedd a chymunedau lleol ledled Gwynedd. Mae hyn yn cefnogi rôl allweddol Storiel yn cyfrannu at flaenoriaethau strategol Cyngor Gwynedd, yn benodol;

● Gwynedd yfory - darparu profiadau creadigol ac addysgol ar gyfer plant a phobl ifanc Gwynedd. Cynnig gweithgareddau celf a diwylliannol ymarferol, wrth gyflwyno etifeddiaeth a hunaniaeth ddiwylliannol Gwynedd mewn ffyrdd newydd ac ystyrlon sy'n eu cysylltu â'r lle maent yn dod

● Gwynedd Gofalgar - yn gweithredu fel canolbwynt diwylliannol bywiog ar gyfer pobl Gwynedd - yn enwedig y rheini sydd mewn perygl o gaethiwed cymdeithasol a diffyg. Yn cynnig lle cyfeillgar i gyfarfod a phrofiadau sy'n cyfoethogi iechyd a lles trwy gysylltiadau â chreadigrwydd, celf ac etifeddiaeth.

● Gwynedd Ffyniannus - yn chwarae rôl yn adfywio canol dinas Bangor, gan wneud Gwynedd yn lle deniadol i fyw ac i weithio, gan gefnogi economi leol y celfyddydau, creu a thwristiaeth. I ddeall sut i gynnal, adnewyddu ac amrywio cynulleidfaoedd ar gyfer Storiel, roedd angen i ni ddeall yn gyntaf pwy yw eich cynulleidfa ar hyn o bryd, a pha mor barod ydych chi fel mudiad i gymryd ar y galwadau o ddatblygiad cynulleidfa.

"Mae ein proses yn sefydlu dealltwriaeth o sut mae cynulleidfaoedd yn teimlo am Storiel, beth maen nhw'n credu ei fod yn ei gynnig iddynt a Gwynedd, eu cymhellion ar gyfer ymweld, a sut mae'r rhain yn cyd-fynd â'ch credau eich hun, teimlad o bwrpas, a phersbectifau. Byddai cael gafael ar y canfyddiadau sylfaenol hyn yn seiliau ar gyfer adeiladu strategaeth datblygu cynulleidfa y gellir ei gweithredu ac sy'n realistig ar gyfer Storiel."

Dyma ddetholiad o'r hyn fydd yn y cynllun gwaith -

- Dylech sicrhau bod gan bob arddangosfa ei nodau datblygu cynulleidfa ei hun.
- Datblygu cynllun cyfathrebu a marchnata parhaus
- Cyflawni proses naratif brand
- Arwain arolygu gwefan a dechrau'r broses fwrw ymlaen ar gyfer gwefan Newydd
- Sefydlu a gweithredu cynllun ar gyfer hyfforddiant staff yn canolbwyntio ar gynnwys, cyfathrebu a chynnig straeon ar y cyfryngau cymdeithasol.

**Ysbyty'r Chwarel, Llanberis, Parc Padarn, Llanberis**

Mae Ysbyty'r Chwarel wedi newid adran sawl gwaith yn y cyngor dros y blynyddoedd. Ar un cyfnod yn yr 1990au roedd yn Amgueddfa Gofrestredig gan fod y Gwasanaeth Amgueddfeydd wedi bod yn ymwneud â'i datblygiad. Daeth hyn i ben yn 2001 ar gais y Cyngor gan na allai'r Gwasanaeth Amgueddfeydd sicrhau bod y safonau yn cael eu cynnal. Mae'n cael ei rheoli gan Wasanaeth Morwrol a Pharciau Gwledig y Cyngor ac maent bellach yn ôl o fewn yr un Gwasanaeth sef Economi a Chymuned.

Adeiladwyd Ysbyty'r Chwarel ym 1860 i wasanaethu'r dynion oedd yn gweithio yn Chwarel Lechi Dinorwig, Llanberis. Roedd damweiniau a salwch yn gysylltiedig â'r gwaith yn gyffredin ac roedd ysbyty mor agos at y chwarel yn diwallu angen gwirioneddol. Roedd yn cael ei gynnal trwy gyfraniadau'r gweithwyr at y "Clwb Salwch" oedd yn rhoi gofal meddygol am ddim a chymorth ariannol. Fe'i caewyd yn yr 1960au ac fe gymerodd Cyngor Gwynedd y lle a'i ailagor ym 1979 fel canolfan i ymwelwyr ar gyfer Parc Gwledig Parc Padarn. Daeth yn Amgueddfa Gofrestredig pan oedd yn rhan o'r Adran Ddiwylliant a Hamdden yn yr 1990au. Mae'n ail greu bywyd yn yr ysbyty ac mae'r rhan fwyaf o'i harteffactau yn cael eu harddangos (tua 300 o eitemau). Yn ystod 2008 derbyniodd Ysbyty'r Chwarel arian gan y Cynulliad Cenedlaethol tuag at rai gwelliannau e.e. ffenestri newydd, peintio, gwresogi. Mae gwelliannau o ran diogelwch hefyd wedi eu cwblhau. Mae'r ysbyty hefyd yn darparu swyddfeydd ar gyfer wardeiniaid y Parc a fflat i'r warden ar y llawr cyntaf. Symudwyd cegin y warden er mwyn i fwy o'r ysbyty fod yn hygyrch.

Fel rhan o gynllun "Ein Treftadaeth" ail ddehonglwyd y safle yn llwyr erbyn 2014. Nid yw wedi ei Hachredu. Mae'r Gwasanaeth Amgueddfeydd ar gael i gynghori ar unrhyw faterion amgueddfaol sydd yn codi ac mae trafodaethau'n parhau gydag Amgueddfa Cymru i drafod dyfodol safle Parc Padarn a'r amgueddfeydd ar y safle i'r dyfodol.

## Diweddariad ar Gynlluniau Gweithredu a'r Camau Nesaf

### Storiel

Yng nghynllun **2017-2021** ymgorfforwyd yr hyn a ragwelwyd byddai eu hangen i'w cyflawni wedi agor Storiel a chwblhau'r prosiect CDL. Yn y cyfnod yma ail aseswyd y cynllun busnes a'r math o swyddi oedd eu hangen yn ogystal â'r targedau incwm. Parhawyd hefyd i gydweithio gyda'r Brifysgol a sicrhawyd cyllid nid yn unig fel cyfraniad at gyllideb Storiel ond hefyd at y Swyddog Casgliadau. Llwyddwyd i barhau gyda rhai o'r swyddi a grëwyd gyda chyllid CDL fel Cydlynydd Amgueddfeydd a Gwirfoddolwyr, Swyddog Casgliadau a hefyd Swyddog Dysgu rhan amser dros dro.

Yng Nghynllun **2020-2025** roedd parhad o'r gwaith yma ond fe ddaeth covid yn ei ganol yn ogystal ag angen cyfarch damwain gyda rhai o'r casys yn yr oriel gan orfodi cau'r orielau hanes am gyfnod. Bu newid o ran trefniadau fel gyda'r caffi a nodwyd eisoes. Yn ogystal aeth y Rheolwr Gwasanaeth ar gyfnod estynedig o salwch ( blwyddyn).

Nodwyd yn y cynllun diwethaf –

" O 2020 rhagwelir newid yn y strwythur eto, addasu targedau codi arian, dod i benderfyniad am y caffi ac edrych ar gyfle i wella'r storfa. Yn ogystal anelir i wireddu uchelgais o ddatblygu Storiel fel prif ffocws treftadaeth a chelfyddydau Gwynedd" .

Bellach mae'r cynllun busnes yn parhau i esblygu a strwythur newydd yn ei le er yn parhau'n arbrofol gyda chefnogaeth grant. Mae'r berthynas gyda'r brifysgol yn parhau sydd yn cynnwys cyfraniad at gyllideb Storiel. O ran y Swyddog Casgliadau mae bellach gyda theitl swydd newydd fel Curadur ac yn rhan o secondiad rhan amser i'r brifysgol. Mae'r caffi yn mynd i dendr a dewiswyd Storiel i fod yn rhan o'r cynllun CELF a llwyddodd gyda nifer o grantiau eraill. Mae'r ffigyrau hefyd ar gynnydd. Mae cynllun hefyd ar y gweill i edrych ar rannu gofod storfa.

Mae'r heriau yn parhau gyda'r gyllideb. Mae hyn yn bennaf gan nad yw wedi cyrraedd ei thargedau incwm a chodi arian uchelgeisiol. Hefyd mae rhedeg y caffi yn fewnol yn aneffeithiol Mae'r Cynllun Busnes yn edrych ar benawdau penodol ar sut i wella perfformiad a buddsoddi yn lle sydd angen gwneud hynny. Mae'r ymateb i'r arddangosfeydd, caffi, siop a'r gweithgareddau yn parhau i fod yn bositif. Mae angen cydbwysedd rhwng ethos Storiel i ddarparu mynediad a chodi incwm yn hynod o bwysig dros y blynyddoedd nesaf.

Ar hyn o bryd rydym yn gweithio gydag ein timau a'n cymunedau yn ail edrych ar ein pwrpas, y galw am ein gwasanaethau a'r rhwystrau a'r cyfleoedd sydd wrth anelu'i sicrhau ein bod yn gosod pobl Gwynedd yn ganolog o bopeth rydym yn ei wneud. Rydym ar fin cwblhau comisiwn ar gyfer Datblygu Cynulleidfa a Marchnata sydd am osod sylfaen da a rhaglen waith penodol i'r camau nesaf. Hefyd yn ystod 2025 - 2030 byddem yn ail edrych ar ein gweledigaeth ar gyfer Storiel sydd am gynnwys briff ehangach ar gyfer treftadaeth a'r celfyddydau.

Mae Storiel hefyd yn derbyn cefnogaeth gan staff a chyllidebau Gwasanaeth Amgueddfeydd ac Orielau yn enwedig o ran arweiniad rheolaethol a strategol a threfnu rhaglen arddangosfeydd a gweithgareddau celfyddydol. Yn ogystal mae 2 swyddog o fewn Uned Celfyddydau Cymunedol yn trefnu rhaglen o weithgareddau a phrosiectau celfyddydau cymunedol ac yn aml mae Storiel yn cael ei chynnwys ynddynt ee man ar gyfer arddangos arddangosfeydd Llwybrau Celf; gofod ar gyfer prosiectau ar gyfer bobl ifanc ayyb. Y nod yw bod hyn oll yn dod o dan faner Storiel fwy fwy dros y blynyddoedd nesaf.

## Amgueddfa Lloyd George

Bu  Gyngor Gwynedd  benderfynu yn dilyn ymgynghoriadau Her Gwynedd parthed toriadau, na fyddai'n rhedeg yr Amgueddfa wedi 2017 a'i throsglwyddo i eraill wneud hynny,   Ers y penderfyniad yma bu newid cyfeiriad.

Derbyniwyd cymhorthdal gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri i edrych ar Werthuso Opsiynau ar gyfer dyfodol yr Amgueddfa a grant gan Ffederasiwn Amgueddfeydd ac oriel Cymru I gefnogi hyn. Hefyd fe dderbyniwyd arian gan Lywodraeth Prydain, drwy Lywodraeth Cymru am 3 blynedd a chytunwyd y byddai'r Cyngor yn parhau i redeg yr Amgueddfa hyd 2020, gyda'r nod pryd hynny o'i throsglwyddo i grŵp arall.

Cymeradwywyd arian pontio un tro gan y Cabinet er mwyn gallu dod i benderfyniad yn ystod 2020. Fe gyflwynwyd adroddiad ar yr opsiynau i'r Cabinet fel ymddiriedolwyr ac yn sgil edrych ar yr opsiynau fe wyrdrowyd y penderfyniad gan ail osod cyllideb i'r Amgueddfa gan edrych ar gadarnhau'r trefniadau rhwng yr Amgueddfa a'r Cyngor gan gydnabod rôl y Cyngor fel Elusen yr Amgueddfa a'r Cabinet fel ei ymddiriedolwyr. Mae cytundebau bellach yn eu lle yn cynnwys MOU, trefniadau mewn lle o ran rôl y Cyngor ( Cabinet) fel ymddiriedolwyr ac mae perthynas gyda'r Cyfeillion yn parhau. Llwyddwyd hefyd i gael cefnogaeth ar gyfer buddsoddiad SPF Llywodraeth y DU gan arwain at arddangosfeydd newydd a agorodd  Pasg 2025 gyda chyfnod mwy positif o'i blaen.

## Amcanion 2025-2030

Mae'r amcanion dros y cyfnod yma yn ymwneud â:

- Gwireddu Ffordd Gwynedd a Chynllun Strategol y Cyngor gan roi  pobl Gwynedd yn ganolog i bopeth rydym yn ei wneud
- Rhedeg a gofalu am yr amgueddfeydd a'u casgliadau yn ôl y safonau Achredu
- Dehongli a sicrhau bod y casgliadau yn hygyrch trwy arddangosfeydd, cyfleoedd addysgol, partneriaethau a thrwy ddulliau eraill
- Siapio a chynnal rhwydwaith cydweithredol o amgueddfeydd a chanolfannau treftadaeth/diwylliannol/celfyddydol ar sail model 'prif ganolfan a lloerennau
- Datblygu gweledigaeth Storiel fel  Gwasanaeth Amgueddfeydd a'r Celfyddydau  gan ddarparu cyfleusterau a gwasanaethau sy'n ymwneud â'r celfyddydau, addysg, iechyd a lles gan arwain at weledigaeth o Storiel fel ffocws treftadaeth a chelfyddydol gan gynnwys celfyddydau cymunedol i'r sir  ac elfennau fel  safle Treftadaeth y Byd
- Edrych ar weledigaethau a datganiadau cenhadaeth  Storiel ac Amgueddfa Lloyd George fel eu bod yn gyfredol a phriodol
- Blaengynllun nesaf yn adeiladau ar y weledigaeth newydd gan gynnwys yr elfennau treftadaeth a chelfyddydol
- Ymateb i'r rhaglen waith o ran y Cynllun Datblygu Cynulleidfa a Marchnata newydd i Storiel
- Y Gwasanaeth Orielau yn parhau i drefnu arddangosfeydd a gweithgareddau celf yn Storiel ac yn dod dan " faner" Storiel
- Parhau o dan gynllun CELF a'r cyfleoedd sydd yn deillio ohoni
- Y Celfyddydau Cymunedol yn parhau i drefnu rhaglen  ar gyfer cymunedau Gwynedd ac adnabod sut fydd yn dod dan faner Storiel a phlethu gyda'r gwaith yno
- Parhau  i gydweithio gyda Phrifysgol Bangor (ac eraill os yn briodol) i hyrwyddo mynediad at y casgliadau o dan faner "Casgliadau Bangor" a chefnogi'r gwaith gyda'r Curadur

- Adnabod ffordd ymlaen gyda storfa amgueddfaol gan gynnwys gyda phartneriaid eraill os yn bosibl
- Datblygu dyfodol cynaliadwy i Storiel
- Mynd i dendr gyda Chaffi Storiel yn 2025
- Cofrestru Sefydliad Cefnogi Storiel
- Parhau i edrych ar gynllun busnes ar gyfer Amgueddfa Lloyd George a chymryd camau at ei wireddu
- Gwireddu cynlluniai SPF cam 2 yn Amgueddfa Lloyd George o ran edrych ar y gofodau/marchnata a datblygu cynulleidfa a threfnu gweithgareddau gyda chyfleodd trwy grantiau SPF Llywodraeth y DU
- Parhau i gydweithio yn agos gydag ein Cyfeillion
- Parhau i fentora a darparu cefnogaeth broffesiynol i amgueddfeydd yng Ngwynedd
- Ail edrych ar y i Fforwm Treftadaeth Gwynedd/a/neu addasu i i fodel newydd yn sgil Cynhadledd Diwylliant
- Ymgorffori Deddf Llesiant i'n cynlluniau a chyfrannu at Gynlluniau'r Cyngor gan gynnwys Ffordd Gwynedd
- Adnabod cyfleoedd gyda Llywodraeth Cymru ac ymateb i Blaenoriaethau Diwylliant
- Adnabod cyfleoedd gyda Chyngor Celfyddydau Cymru
- Gweithio mewn partneriaethau â chyrff lleol a chenedlaethol i gyfrannu at fwynhad a dealltwriaeth o etifeddiaeth a diwylliant Gwynedd a'i phobl
- Cyfrannu at lwyddiant Partneriaeth Cyfuno Gwynedd i drechu tlodi trwy ddiwylliant a threftadaeth
- Cyfrannu at lwyddiant dynodiad Safle Treftadaeth y Byd Llechi Cymru
- Rhoi llais a rôl i gymunedau mewn treftadaeth a diwylliant er mwyn dylanwadu ar y dyfodol yn ogystal ag adlewyrchu'r gorffennol
- Uchafu potensial twristiaeth a'r buddiannau economaidd ehangach.
- Datblygu sgiliau i arwain a gweithio drwy gyfnod o newid
- Ymateb i strategaeth a gofynion fel rhai'r Llywodraeth Cymru fel argyfwng hinsawdd, cefnogi iechyd a lles, cydraddoldeb a Chynllun Gweithredu Cymru Gwrth -Hiliol

## Cyllidebau a Chynllun Gwario 2025/6

Mae'r Cynllun Gwario yn seiliedig ar gyllidebau'r amgueddfeydd a osodwyd ar gyfer 2025/26

**<u>Storiel</u>**

| | |
|---|---|
| **Gwariant** | |
| Cyflogau | £112,320 |
| Adeiladau | £56,440 |
| Yn cynnwys Eiddo (ddim tan ein rheolaeth ) | £10,690 |
| Gwasanaethau a chyflenwadau (sy'n cynnwys £4,300 Gofal Casgliadau a £1,790 ar gyfer Arddangosfeydd a £1770 ar gyfer Hysbysebu), pryniant Siop, teithio ayyb | £40,395 |
| **Incwm** | £141,710 (yn cynnwys cyfraniad gan Prifysgol Bangor) |
| **Gwariant Net** | £ 67,545 |

**<u>Amgueddfa Lloyd George</u>**

| | |
|---|---|
| **Gwariant** | |
| **Gweithwyr – Staff Costs** | £52,930 |
| **Adeiladau – Buildings** | £17,860 |
| Yn cynnwys Eiddo ( ddim tan ein rheolaeth) | £4950 |
| **Cyflenwadau a Gwasanaethau** | £7,295 |
| **Incwm – Income** | |
| Gwerthiannau, llogi a thocynnau | £22,790 |
| **Gwariant Net/ Net Expenditure** | **£55,295** |

Costau canolog heb eu cynnwys

| **Dadansoddiad SWOT** | |
|---|---|
| **Cryfderau**<br>***Y Gwasanaeth***<br>- Ffocws ar elfennau hunaniaeth/Cymreig/Gwynedd<br>  - Cyfle gyda Blaenoriaethau Diwylliant a Deddf Llesiant<br>  - Cyfrannu at Gynllun Strategol y Cyngor<br>  - Rhan o Ffordd Gwynedd<br>  - Staff ymroddedig.<br>  - Casgliadau arbennig.<br>  - Gwasanaeth addysg wedi hen sefydlu.<br>  - Cyfraniad at yr economi leol.<br>  - Cyswllt gydag archifau, orielau a chelfyddydau cymunedol ac yn rhan o Wasanaeth Treftadaeth a'r Celfyddydau.<br>  - Cyswllt gyda'r Brifysgol.<br>  - Cymdeithasau Cyfeillion.<br>- Sylw cefnogol ar y cyfryngau<br>- Hanes o gefnogi amgueddfeydd eraill<br>- Gweddu i agenda'r Cyngor a LICC<br>- Nodweddion unigryw amgueddfeydd<br>- Cefnogaeth y gymuned<br>- Enw da yn y maes amgueddfeydd a chelfyddydau<br>- Cefnogaeth arbenigwyr gyda chymorth grantiau ee codi arian; gwerthuso yn datblygu ein sgiliau<br>- Amgueddfeydd Achredededig<br>- Cronfeydd data ar gael ar-lein<br>- Strwythurau cefnogi'r cyngor<br>- Mynediad at gymorth grant<br>- Adeiladau hanesyddol<br>- Defnyddio Ffordd Gwynedd i roi pobl Gwynedd yn ganolog i'r hyn rydym yn ei wneud gan edrych ar ein pwrpas, galw, rhwystrau ayyb<br>- Wedi bod yn rhan o gynlluniau a mentora Gwrth Hiliol Llywodraeth Cymru ac AIM<br>***Storiel***<br>  - Cynllun Busnes yn ei le<br>  - Buddsoddiad yn yr adeilad ac adnoddau<br>  - Bwrdd ar y cyd a phartneriaeth gref gyda'r Brifysgol<br>  - Cyfraniad ariannol gan y Brifysgol i STORIEL a secondiad gyda'r Curadur | **Gwendidau**<br>***Y Gwasanaeth***<br>- Oriau agor cyfyng<br>- Cyllid<br>- Capsiti a chyllideb marchnata isel<br>- Angen codi proffil y 2 amgueddfa<br>- Cwynion am arwyddion cyfeirio<br>- Effaith toriadau ar capasiti i fentora amgueddfeydd<br>- Sut ymateb i Ddeddf Llesiant<br>- Gwasanaethau anstatudol<br>- Diffyg gwybodaeth gyfredol am ymwelwyr a rhai nad ydynt yn ymweld<br>- Dim cyllideb gaffael casgliadau<br>- Yr amgueddfeydd ddim yn gytbwys o ran lleoliad yn y sir<br>- Statws Ysbyty'r Chwarel heb ei hachredu<br>- Angen buddsoddi yn y storfa ganolog neu adnabod ffordd arall ymlaen<br>***Storiel***<br>- Capasiti staff yn isel yn sgil prosiect CDL yn dod i ben a'r galw ar Storiel<br>- Lleoliad yn arwain ar rai i feddwl nad yw'n berthnasol iddynt mewn rhan arall o'r sir<br>- Argraff o ran diffyg proffil Bangor fel man i ymwelwyr a delwedd negyddol i'r stryd fawr. Diffyg rhai i godi arian<br>- Dim staff llawn amser parhaol i un lleoliad<br>- Capasiti isel i geisio am grantiau<br>***Amgueddfa Lloyd George***<br>- Tâl mynediad (LG)<br>- Lleoliad gwledig (LG)<br>- Lleihad ym mherthnasedd Lloyd George<br>- Problem dilysrwydd yn Highgate (methu tanio'r tân yn y lle tân Fictoraidd)<br>- Dim staff llawn amser<br>- Capasiti isel i geisio am grantiau<br>- Angen rhagor o fuddsoddiad a chodi proffil<br>- Themâu heriol |

| | |
|---|---|
| - Buddsoddiad a chyfleoedd pellach gyda CELF<br>- Cyfleoedd gyda grant Llywodraeth y DU<br>- Rhaglen arddangosfeydd gref<br>- Cynllun datblygu cynulleidfa a marchnata yn cael ei gwblhau gyda chefnogaeth CELF<br>- Llwyddiannau gweithgareddau i'r teulu a digwyddiadau<br>- Cyllideb ar gyfer gofalu am y casgliadau<br>- Briff a phroffil sirol<br>- Briff treftadaeth a chelfyddydol<br>- Storfa ffurfiol ar gyfer darganfyddiadau archeolegol<br>- Mynediad am ddim<br>- Lleoliad da – canol Bangor a dros ffordd i Pontio,<br>- Oriel Gelf boblogaidd<br>- Siop o ansawdd<br><br>***Amgueddfa Lloyd George***<br>- Proffil LG fel personoliaeth ac yn rhyngwladol<br>- Amgueddfa a chartref ei blentyndod penodol i safle<br>- Cyswllt â phobl ddylanwadol<br>- Cyswllt a themâu perthnasol i heddiw<br>- Gweithgareddau addysg llwyddiannus<br>- Casgliadau unigryw<br>- Tal mynediad yn denu incwm<br>- Theatr ar y safle<br>- Cyfleoedd gydag arian SPF cam 1 a 2 | |

| **Cyfleoedd** | **Bygythiadau** |
| --- | --- |
| ***Y Gwasanaeth***<br>- Datblygu swyddogaeth drwy Wynedd ar gyfer treftadaeth amgueddfaol<br>- Dynodiad Safle Treftadaeth y Byd Llechi Cymru llwyddiiannus,<br>- Rhaglen Cyfuno Gwynedd yn parhau<br>- Deddf Llesiant a Blaenoriaethau Diwylliant<br>- Cyfrannu at ddiwylliant, hunaniaeth, iechyd, lles, amgylchedd a nifer o themâu eang sydd yn berthnasol i fywydau cymunedau<br>- Y Cwricwlwm<br>- Datblygu ac adeiladau ar bartneriaethau a rhanddeiliaid eang ee Prifysgol Bangor, Amgueddfa Cymru, Yr Ysgwrn, Castell Penrhyn<br>- Ail sefydlu a chefnogi Fforwm Treftadaeth Gwynedd a/neu/Cynhadledd Diwylliant I ddod a'r sector at ei gilydd<br>- Ffocws cryf ar gyfer Gwynedd/yr elfen Gymreig a hunaniaeth<br>- Datblygu swyddogaeth celfyddydau cymunedol drwy Wynedd gyda'r Uned Celfyddydau Cymunedol<br>- Cymorth grant<br>- Cysylltiadau lleol<br>- Partneriaethau – lleol a chenedlaethol<br>- TG/cyfryngau<br>- Cyswllt ag ysgolion a chwricwlwm creadigol<br>- Gwirfoddoli<br>- Achredu<br>- Casglu rhagweithiol<br>- Mwy o hysbysebu a marchnata<br>- Hyfforddiant<br>- Datblygu Ysbyty'r Chwarel a safleoedd eraill gyda'r parciau gwledig<br>***Storiel***<br>- Sefydlu Sefydliad Cefnogi Storiel<br>- Cefnogaeth Bwrdd Storiel<br>- Cyswllt gyda chasgliadau amgueddfaol Prifysgol Bangor a gyda Pontio<br>- Gweledigaeth i ddatblygu Storiel fel ffocws i dreftadaeth a chelfyddydau Gwynedd gan gynnwys celfyddydau cymunedol<br>- Hysbysebu'r tendr a phenodiad i redeg y caffi yn ystod 2025<br>- Parhau fel rhan o CELF a fydd yn cyfrannu at y cynnig | ***Y Gwasanaeth***<br>- Cyllido yn gyffredinol<br>- Safonau'n newid.<br>- Newidiadau yn y farchnad dwristiaid<br>- Parhau â statws anstatudol<br>- Newidiadau i'r Cwricwlwm Cenedlaethol<br>- Cyllidebau ysgol<br>- Cyfundrefn a chyllid cynnal a chadw<br>- Colli Achredu<br>- Newid hinsawdd<br>- Agendau'r Llywodraeth<br>- Cystadleuaeth gan eraill am grantiau a defnyddwyr ayyb<br>- Newid ym mhatrwm ymweliadau ysgol<br>- Newidiadau mewn partneriaethau a chytundebau<br>- Diffyg meddwl diwnïad.<br>- 'Brexit ac effaith hyn ar gyllid allanol i'r dyfodol'<br>***Storiel***<br>- Cynllun busnes heriol Storiel a thargedau incwm heriol<br>- Angen ei rhedeg fel busnes gan effeithio ar ethos y safle o ran mynediad<br>- Dyfodol y caffi yn heriol ac angen i'r tendr nesaf fod yn llwyddiannus<br>- Methu cofrestru Sefydliad Cefnogi Storiel fel elusen<br>***Amgueddfa Lloyd George***<br>- Angen giwrieddu cynllun busnes a denu incwm<br>- Anodd codi proffil yr amgueddfa heb gyllid/capasiti<br>- Methu buddsoddi ymhellach |

| | |
|---|---|
| - Cynlluniau Datblygu Cynulleidfa a Marchnata yn sgil CELF yn gosod sylfeini da gyda rhalfen waith a blaenoriaethau<br>- Gofod addysg<br>- Cyfleoedd am ragor o waith gyda staff addysg a chelf<br>- Potensial prosiectau newydd i adeiladu ar hyn a gyflawnwyd trwy brosiect CDL<br>- Arddangosfeydd newydd ar gyfer dehongli ac addysg<br>- Ehangu mynediad o bell at gasgliadau<br><br>***Amgueddfa Lloyd George***<br>- Datblygu ar y berthynas efo'r Cabinet fel ymddiriedolwyr i Amgueddfa Lloyd George a chodi ymwybyddiaeth<br>- Apêl a chefnogaeth Cyfeillion Amgueddfa Lloyd George<br>- Themâu cryf yn ymwneud â Lloyd George e.e. pensiwn,<br>- Defnyddio brand LG<br>- Prosiectau a chysylltiadau cymunedol<br>- Grant SPF cam 2 i edrych ar y gofodau, cynulleidfa, marchnata a threfn gweithgareddau | |

# Cynllun Gweithredu – Blaengynllun Amgueddfeydd Gwynedd 2025-2030

**Cynllun Gweithredu – Blaengynllun Amgueddfeydd Gwynedd  2025-2030**

| | Amcanion | Gweithredoedd Angenrheidiol | Cyfrifoldeb | Amserlen | Sut y bydd yn cael ei werthuso |
|---|---|---|---|---|---|
| **1. Gofalu am yr amgueddfeydd a'u casgliadau yn ôl y safonau perthnasol. Cynnwys Storiel, Amgueddfa Lloyd George a chasgliad y Brifysgol** | 1.1 Parhau i gyrraedd safonau Achredu | • Cwblhau'r Ffurflenni Adrodd<br><br>• Sicrhau bod yr holl bolisïau a dogfennau perthnasol yn gyfredol. Gan gynnwys Polisi Datblygu Casgliadau, Cynllun Dogfennu Amgueddfeydd<br><br>• Rhoi cais i weithio tuag at achrediad ar ran Casgliadau Prifysgol Bangor<br><br>• Cyflwyno cais achredu llawn i Llywodraeth Cymru | NT/HG<br><br>NT/HG<br><br>HG/NT/Prifysgol<br><br>HG/NT/Prifysgol | Amserlen Achredu- Mehefin 2025<br><br>Amserlen Achredu- Mehefin 2025<br><br>2025-2030<br><br>Cwblhau Mehefin 2025. Aros iddo fynd i banel | Parhau gydag Achrediad<br><br>Yr holl bolisïau yn cydymffurfio â'r gofynion Achredu<br><br>Parhau gyda safon achredu<br><br>Llwyddo i gael Achrediad |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | 1.2 Cynnal y gwaith dogfennu ar y casgliad | • Adolygu Cynllun Dogfennu'r Casgliadau a'r amserlen yn rheolaidd yn enwedig yr elfennau a nodir isod | NT/HG | Yn ôl amserlen Achredu | Dogfennu'n cael ei gwblhau yn ôl yr amserlen yng Nghynllun Dogfennu'r Amgueddfa |
| | | • Dogfennu ôl groniad yn ôl yr amserlen | NT/HG | Yn ôl yr amserlen | Cynhyrchu adroddiad |
| | | • Dogfennu ymdrin â'r casgliadau | NT/HG | Yn ôl yr amserlen | Casgliadau'n addas i'r diben |
| | | • Adolygu a chysoni dogfennaeth casgliadau | NT/HG | Yn ôl yr amserlen | Adolygu'r ddogfennaeth |
| | | • Adolygu a chreu Fframwaith Rheoli Casgliadau | NT/HG | 2025 | Cwblhau'r fframwaith |

| | Amcanion | Gweithredoedd Angenrheidiol | Cyfrifoldeb | Amserlen | Sut y bydd yn cael ei werthuso |
|---|---|---|---|---|---|
| | 1.3 Cyflawni a chynnal lefel uchel o ran gofal a rheolaeth ar y Casgliadau | • Anelu at gynnal amodau amgylcheddol derbyniol trwy'r amgueddfa gyfan | NT/HG | Parhaus a blynyddol | Cyrraedd y meincnodau o ran gofal casgliad. |
| | | • Parhau i fonitro yn amgylcheddol. | NT/HG | Parhaus a blynyddol Diweddarwyd yn ôl y rhaglen ofal | System Meaco yn ei le |
| | | • Gweithredu archwiliad cadwraeth a gweithredu rhaglen a gynlluniwyd o ofal i'r casgliad | NT/HG | Blynyddol ond elfennau yn dibynnu ar gyllid allanol | Staff yn gwneud arolwg mewnol ond ar brydiau bydd angen comisiynu gwaith manwl yn allanol a llunio rhaglen waith ymhellach |
| | | • Diweddaru polisi Cadwraeth | NT/HG | Diweddariad blynyddol | Gweithredu clir o bolisi a rhaglen ayb |
| | | • Diweddaru'r cynllun trychineb yn ôl y gofyn | NT/HG/MC | Adolygu'n flynyddol mis Chwefror | Y cynllun trychineb wedi'i ddiweddaru a staff yn gyfarwydd â hi |
| | | • Rhaglen o gadwraeth gwrthrychau | NT/HG | Blynyddol yn cael ei asesu a'r amserlen yn gallu | Rhaglen yn ei lle ac yn cael ei gweithredu |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | dibynnu ar gyllid | |
| | | • Diogelwch – angen archwiliad diogelwch | MC | Adolygiadau gan swyddog heddlu y nesaf yn 2025 neu yn gynt yn sgil arddangosfeydd /sefyllfa benodol. | Adroddiad wedi'i gwblhau gyda Chynllun Gweithredu<br>Wedi cael arolwg I Storiel yn sgil cynllun CELF hefyd<br>Rhaglen waith |
| | | • Datblygu a gwella gofal casgliadau Prifysgol Bangor | NT/HG/Prifysgol | parhaol | Gwell dealltwriaeth a mynediad at gasgliadau PB<br>Cyfleodd gyda swydd curadur |
| | | • Ceisio sicrhau arian ar gyfer caffael casgliadau | NT/HG/Prifysgol Bangor/Ymddiriedolaeth/Cyfeillion | Grantiau ' un tro' a cheisio sefydlu cronfa | Llwyddo i gaffael eitemau<br>Cyllideb yn ei lle ar gyfer caffael |
| | | • Adnabod a datrys unrhyw oblygiadau casgliadau | NT/RE/Cyngor Gwynedd | Gwaith sgopio manwl a dilyn canllawiau amgueddfaol2026 | /Cytundeb addas gyda'r Cyngor a trefn mewn lle |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | Amgueddfa Lloyd George fel elusen yn enw'r Cyngor | | | |
| | 1.4 Sicrhau bod yr adeilad a'r gwasanaethau yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth berthnasol | • Archwiliad mynediad i'w adolygu yn LLG a Storiel<br><br>• Diweddaru datganiad mynediad a'u rhoi ar lein<br><br>• Oblygiadau unrhyw archwiliad mynediad i gael eu trin a chwilio am gyllid<br><br>• Cyfundrefn cynnal a chadw Adeilad | NT/MC<br><br>NT/MC<br><br>NT/MC<br><br>Cyngor (Eiddo) | Storiel r 2025 Amgueddfa Lloyd George 2025<br><br>Yn flynyddol neu yn ôl yr angen<br><br>Yn flynyddol neu yn ôl yr angen<br><br>Yn flynyddol neu yn ôl yr angen | Adroddiadau wedi eu cynhyrchu<br><br>Yr adeilad a'r fittings yn cydymffurfio<br><br>Cyrraedd y safonau mynediad perthnasol<br><br>Cwblhau datganiad<br><br>Safonau casgliadau a safon Iechyd a Diogelwch wedi'u cyrraedd.<br><br>Cwblhau'r gyfundrefn |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | derbyniol<br>• Ceisio am gyllid ar gyfer gwelliannau. Prosiect ar y gweill gyda cynllun busnes ar gyfer rhannu storfa. Angen adnabod ffordd ymlaen a chyllid. | Cyngor/Eiddo/NT/MC/HG/Prifysgol | Parhaol | Cwblhau'r gwelliannau a datrys sefyllfa prinder gofod storio |
| | 1.5 Hyfforddiant staff a gwirfoddolwyr | • Cynllun hyfforddi yn ei le i bawb | Adran Hyfforddi a NT/MC/staff a gwirfoddolwyr | Parhaus | Pawb wedi eu hyfforddi'n dda ac ymroddedig |
| | | • Gweithredu cynllun cymhareb hyfforddiant | Pawb | Parhaus | Cymwysterau wedi'u hennill/Cofnod o fynychu hyfforddiant |
| | | • Annog hyfforddiant proffesiynol, gan gynnwys Amcanion Dysgu Ysgogol | Pawb | Parhaus | |
| | | • Hyrwyddo Deddf Llesiant i bawb | Pawb | Parhaus | |
| | | • Datblygu sgiliau penodol ee codi arian | Pawb | Parhaus | |
| | | • Adeiladau capasiti i gefnogi gwirfoddolwyr | NT/MC/HG | 2026 | Cynllun Busnes newydd |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | |
| | **Amcanion** | **Gweithredoedd Angenrheidiol** | **Cyfrifoldeb** | **Amserlen** | **Sut y bydd yn cael ei werthuso** |
| **2. Dehongli a sicrhau bod y casgliadau yn hygyrch trwy arddangosfeydd, cyfleoedd dysgu, partneriaethau a dulliau eraill** | 2.1 Oriau agor yn berthnasol i anghenion yr ymwelwyr | • Adolygu amseroedd agor o'u cymharu â'r patrymau ymweld sy'n newid a phrofiad eraill yn lleol. Treialu agor ar adegau gwahanol<br><br>• Canfod ffyrdd i gyflawni oriau agor priodol STORIEL fel rhan o'r Cynllun Busnes pan yn ymarferol<br><br>• Adolygu oriau Amgueddfa Lloyd George ar gyfer 2026 ymlaen os bydd angen | NT/MC/RE<br><br>NT/MC/RE<br><br>NT/MC | Blynyddol<br><br>Blynyddol<br><br>2026 ac yn flynyddol | Wedi ehangu oriau ers Ionawr 2016 ond angen parhau i adolygu hyn ac ymateb i ofynion ein hymwelwyr. Amgueddfeydd yn fwy ymatebol i anghenion yr ymwelwyr<br><br>Oriau agor priodol i gadw o fewn cyllideb ac ymateb i alw'r ymwelwyr<br><br>Addasu os angen a chadw o fewn cyllideb |
| | 2.2 Darparu rhaglen addysg/addysg gydol oes ymarferol wedi | • Denu cyllid i gyflogi mwy o amser i'r Swyddog Dysgu | NT | 2025 | Ar hyn o bryd grant SPF mewn lle<br><br>Adborth defnyddwyr. |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | ei hymchwilio'n dda. | • Adolygu Polisi Addysg<br><br>• Adolygu'r strategaeth dysgu i'r Gwasanaeth<br><br>• Datblygu cyfleoedd newydd ar gyfer datblygu sgiliau a phrofiadau<br><br>• Cynnal a darganfod ffyrdd o wella lefel yr ymweliadau gan ysgolion a threfnu rhaglenni o weithgareddau<br><br>• Gwella adnoddau addysg mewn amgueddfeydd<br><br>• Ehangu cyfleoedd dysgu anffurfiol ee. | Swyddogion Addysg<br><br>Swyddogion Addysg/ NT<br><br>pawb<br><br>/NT /Swyddogion Addysg<br><br>Swyddogion Addysg/ /NT<br><br>Swyddogion Addysg / | 2026<br><br>2026<br><br>Parhaus<br><br>Parhaus<br><br>Parhaus<br><br>Parhaus ond | Cyflwyno rhaglenni newydd<br><br>Strategaeth gyfredol yn ei le<br><br>Staff a gwirfoddolwyr a hyder<br><br>Gwelliant i'r gwasanaeth<br><br>Cyfleusterau yn cydymffurfio ac yn ddigonol (2.8m2 p/p)<br><br>Mwy o gyfleodd a grwpiau yn defnyddio Storiel a pharhau gyda hyn yn Amgueddfa Lloyd George<br><br>Mwy o gyfleodd a grwpiau yn defnyddio |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | Kids in Museums, Happy Museum, agenda gwrth dlodwch blant, Rhwydwaith Cyfuno, y cynnig i deuluoedd, grwpiau cymunedol ayb<br><br>• Datblygu rhaglen o weithgareddau iechyd a lles<br><br>• Datblygu Storiel fel safle ar gyfer grwpiau gyda gofynion penodol fel dementia cyfeillgar, awr awtistiaeth gan ymestyn i Amgueddfa Lloyd George<br><br>• Gwella'r deunydd addysgol ar y wefan | NT/MC/ /HG/RJ | camau penodol yn 2025/6<br><br>2025/6 | Storiel ac Amgueddfa Lloyd George<br><br>Gwella'r wefan Adnoddau ar gael ar y wefan |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | 2.3 Datblygu gwybodaeth am y casgliadau | • Dynodi ffyrdd o hwyluso gwybodaeth ymchwil<br><br>• Datblygu strategaeth ymchwil casgliadau<br><br>• Cyfranogi at brosiectau drwy Gymru (Dispersed National Collection)<br><br>• Ychwanegu gwybodaeth a mynediad i gasgliadau Storiel a'r Brifysgol drwy eu rhoi ar lein | HG / Adrannau'r Brifysgol<br><br>HG / Adrannau'r Brifysgol<br><br>Ffederasiwn Amgueddfeydd / HG / Adrannau'r Brifysgol<br><br>HG | Parhaol<br><br>Parhaol<br><br>Parhaol<br><br>Parhaol | Gwell gwybodaeth am gasgliadau ac ar gael i gynulleidfa ehangach.<br><br>Gwell gwybodaeth am gasgliadau ac ar gael i gynulleidfa ehangach.<br><br>Gwell gwybodaeth am gasgliadau ac ar gael i gynulleidfa ehangach.<br><br>Gwell gwybodaeth am gasgliadau ac ar gael i gynulleidfa ehangach. |
| | 2.4 Parhau i ddiweddaru arddangosfeydd | • Datblygu strategaeth i ddiweddaru arddangosfeydd Storiel/ Amg LLG<br><br>• Parhau i drefnu rhaglenni arddangosfeydd dros dro Storiel | NT<br><br>NT/ER/HG | 2025/6 Storiel<br><br>Amg LLG wedi derbyn buddsoddiad ond angen sgopio gofodau<br>Storiel angen cynllun i'r orielau hanes<br><br>blynyddol | Strategaeth diweddaru yn ei le<br><br>Rhaglenni dros dro sydd yn denu cynulleidfaoedd newydd |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | • Ymchwilio i ragor o ddefnydd o TG i wella'r dehongli<br><br>• Darparu rhaglen o arddangosfeydd yn lloerennau Storiel<br><br>• Datblygu panel defnyddwyr a phanel rhaglennu<br><br>• Datblygu themâu penodol ee protest/iaith Gymraeg/ 1960'a'u/Celf gyfoes/benthyciadau o gasgliadau cenedlaethol ac eraill/artistiaid lleol, cenedlaethol a rhyngwladol | Pawb<br><br>HG ac mewn cydweithrediad a grwpiau ayyb<br><br>NT<br><br>NT/HG/ER | Parhaus<br><br>Blynyddol<br><br>2026<br><br>2025 ymlaen | Ffurf dehongli newydd yn ei le - ar y wefan, ar-lein, ar aps ac yn yr arddangosfeydd<br><br>Llunio rhaglen<br><br>Sefydlu panel<br><br>Ymgorffori yn y rhaglen |
| | 2.5 Marchnata | Cynllun Marchnata newydd ar fin ei gwblhau ac gweithredu'r rhalgen waith I gyda chynllun | NT/MC | 2025/6( grant CELF a SPF yn cefnogi) | Cynnydd mewn ymwybyddiaeth allanol ac yn niferoedd yr |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | clir a rolau yn eu lle. Staff dros dro yn ei gydag arian SPF<br><br>• Codi proffil Amgueddfa Lloyd George<br><br>• Adolygu arwyddion (tu mewn a thu allan)<br><br>• Adolygu effeithiolrwydd y taflenni<br><br>• Diwygio'r wefan a gwella'r cynnwys<br><br>• Llunio neu greu partneriaethau gydag eraill i hyrwyddo'r atyniadau gan gynnwys canmlwyddiannau, Croeso Cymru, ayyb | NT/CG/Cyfeil lion<br><br>NT/MC<br><br>NT/MC<br><br>NT/MC<br><br>NT/Pawb | 2025-2026( grant SPF i gefnogi)<br><br>2025/6<br><br>2025/6<br><br>2025 a Pharhaus ( rhai newydd ar y gweill)<br><br>Parhaus | ymwelwyr.<br><br>Rhaglen yn ei le<br><br>Arwyddion newydd yn ei lle<br><br>Cyllid yn effeithio ar benderfyniadau<br><br>Gwefan priodol ac effeithiol ddiddordeb<br><br>Hyrwyddo effeithiol yn ei le |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | • Ceisio am gyllid i gefnogi marchnata | NT | Parhaus | Denu cyllid a gwella marchnata a chapasiti |
| | 2.6 Datblygu Cynulleidfa | • Cynllun Datblygu Cynulleidfa newydd yn ei le sydd am osod rhaglen waith newydd cynnwys negesuon brand<br><br>• Cynnal arolygon ymwelwyr newydd<br><br>• Creu system casglu data<br><br>• Cynnal arolygon i'r rhai nad ydynt yn ymweld<br><br>• Datblygu cyfleoedd cynulleidfa newydd<br><br>• Adolygu cynllun | NT<br><br>MC<br><br>MC<br><br>MC<br><br>NT/pa wb | Parhaus, ond yn flynyddol. Cynllun i Storiel gyda arian CELF ac anelu i gael un i Amgueddfa Lloyd Geroge gyda SPF<br><br>2025/26<br><br>2025/6<br><br>2025 a pharhaus<br><br>parhaus | Cynllun wedi ei diweddaru<br><br>Cyrraedd cynulleidfaoedd newydd, a gwell dealltwriaeth o'r defnyddwyr presennol<br><br>Gwybodaeth yn bwydo mewn i gynllun cynulleidfaoedd newydd<br><br>Gwirfoddolwyr |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | gwirfoddoli<br><br>• Datblygu presenoldeb ar y we – twitter, facebook, trip advisor ayb<br><br>• Sicrhau bod Storiel yn parhau yn berthnasol i gymunedau Gwynedd<br><br>• Datblygu Storiel fel safle i grwpiau gyda gofynion penodol fel dementia cyfeillgar, awr awtistiaeth ac ymestyn i Amgueddfa Lloyd George<br><br>• Ymgorfforii "Amgueddfeydd yn newid bywydau bobl"<br><br>• Ymgysylltu a materion cyfredol | NT/MC/pawb<br><br>MC/pawb | parhaus<br><br>Parhaus<br><br>Parhaus<br><br>Parhaus ond gyda chamau penodol | ymroddedig yn ei le<br><br>Mwy o ddefnyddwyr yn cymryd rhan |

| | Amcanion | Gweithredoedd Angenrheidiol | Cyfrifoldeb | Amserlen | Sut y bydd yn cael ei werthuso |
|---|---|---|---|---|---|
| **3. Sicrhau cynaliadwyedd tymor hir y Gwasanaeth Amgueddfeydd** | 3.1 Creu incwm | • Defnyddio'r Adolygiadau siopau er mwyn gwella incwm | NT/ MC | Parhaus | Amrywiaeth ehangach o nwyddau; mwy o incwm |
| | | • Adolygiad newydd ar gyfer y siopau | NT/MC | 2025/6 | Adolygiad newydd yn ei le a rhaglen waith yn ei le |
| | | • Cefnogi artistiaid a chynhyrchwyr | NT/MC/DW | Parhaus | Datblygu'r siop i fod y lle gorau i brynu rhoddion a chardiau lleol a gweithiau gan artistiaid a chrefftwyr<br><br>Darparu llwyfan i arddangos gwaith artistiaid |
| | | • Edrych i mewn i werthu ar-lein | NT/MC | 2025/6 – falle efo'r wefan newydd ond angen cyfundrefn i gefnogi | Siop ar-lein yn fyw os yn opsiwn hyfyw |
| | | • Edrych ar gomisiynu nwyddau newydd gan gynnwys rhai unigryw | NT/MC<br>Staff blaen tŷ | 2025 a pharhaus | Nwyddau wedi eu creu |
| | | • Adnabod ffordd ymlaen gyda'r caffi yn Storiel | NT/RE/MC | Medi 2025 | Adolygu'r Cynllun Busnes |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | • Archwilio dulliau eraill o greu incwm ai gwireddu ee digwyddiadau; parcio, rhentu ystafelloedd, atgynhyrchu delweddau.<br><br>• Diweddaru Cynllun Busnes Storiel<br><br>• Diweddaru cynllun busnes Amgueddfa Lloyd George<br><br>• Adnabod os oes modd cael neu addasu swydd/i a fyddai yn arwain ar yr elfennau busnes, digwyddiadau, masnachol i sicrhau potensial Storiel a denu incwm<br><br>• Datblygu cynllun aelodaeth<br><br>• Datblygu "pitch" ar gyfer gofyn am arian ar gyfer cyllideb | NT/RE/MC pawb | Parhaus ac i'r isod | Adolygu neu lunio Cynllun Busnes ac adnabod ffyrdd ymlaen tan y penawdau yma |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | craidd Sicrhau negeseuon allweddol codi arian yn amlwg yn Storiel<br>• Penodi swyddog busnes /digwyddiadau<br>• Penodi swyddog codi arian | | Dibynnol ar gyllid neu addasu swydd ddisgrifiad | |
| | 3.2 Cyllidebau | • Sicrhau bod y gyllideb yn ddigonol i fodloni anghenion presennol ac yn y dyfodol<br>• Parhau i drafod Cynllun Busnes yr amgueddfeydd er mwyn sicrhau dyfodol tymor hir | Cyngor Gwynedd / Y Brifysgol<br>Cyngor Gwynedd/Y Brifysgol NT/RE | Blynyddol<br>2025 ac yn flynyddol | Yr Amgueddfeydd yn cyrraedd y safonau ac yn gwasanaethu eu hymwelwyr a disgwyliadau'r gymuned. Y gyllideb yn hyfyw<br>Parhau gyda'r cytundeb rhwng Cyngor Gwynedd a'r Brifysgol parthed STORIEL |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | • Ymateb i dargedau uwch gan GC<br><br>• Sicrhau trefniadau olyniaeth mewn lle | NT<br><br>NT | 2025 ac yn flynyddol<br><br>Flynyddol ac yn barhaus | Cynllun Busnes<br><br>Trefniadau mewn lle |
| | 3.3 Gweledigaeth | • Datblygu'r weledigaeth o Storiel fel ffocws treftadaeth a chelfyddydol i'r sir gan gynnwys celfyddydau cymunedol o dan | NT/RE/Gwasanaethau eraill sef Celfyddydau Cymunedol a'r Orielau | 2025 ac yn flynyddol | Adolygu Cynllun Busnes |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | brand/baner Storiel | | | |
| | | • Adfywio Economaidd drwy fod yn rhan o gynllun Bangor | RE/NT/MC | | Sicrhau ein bod yn rhan o'r drafodaeth; bod Storiel yn berthnasol i'r datblygiadau ; bod arwyddion cyfeirio clir ati fel atyniad a gwasanaeth pwysig ym Mangor |
| | | • Adnabod ffordd ymlaen i Amgueddfa Lloyd George gyda gweledigaeth glir ac ymgysylltu cryf gyda chymunedau a rhanddeiliaid | RE/NT/Cyngor Gwynedd<br><br>Grŵp Tasg Cyngor a thrafod gyda phartneriaid Grŵp prosiect/Cabinet/Ymddiriedolwyr yr Amgueddfa/ Cyfeillion | | Trefniadau yn bennaf yn eu lle gyda MOU. Bellach yn adeiladu ar y berthynas a rôl y Cabinet fel ymddiriedolwyr yn gliriach a model newydd yn mynd rhagddi. Gyllideb yn nol gan yr Amgueddfa gan y Cyngor<br><br>Buddsoddiad SPF yn yr arddangosfa ac agor Pasg 2025 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | |
| | 3.4 Codi Arian | • Mabwysiadu Strategaeth Nawdd ar gyfer STORIEL<br><br>• Archwilio pob cyfle am gymorth grant gan gynnwys cronfeydd gwaddol, cronfeydd annibynnol a chyllid preifat.<br><br>• Sefydlu Sefydliad Cefnogi Storiel fel corff codi arian<br><br>• Parhau i gyflwyno ceisiadau i LLywodraeth Cymru a'r Ffederasiwn ac eraill yn ôl yr angen<br><br>• Cyflwyno ceisiadau i adnabod dyfodol cynaliadwy i Amgueddfa Lloyd | Pawb/CG/ Y Brifysgol<br><br>Pawb/CG/ Y Brifysgol<br><br>RE/NT<br><br>NT/HG/eraill nol yr angen<br><br>NT | 2025/6<br><br>Parhaus<br><br>Yn ôl y galw, amserlen<br><br>Medi 2025<br><br>parhaol<br><br>2025 /2030 | Strategaeth glir yn ei le<br><br>Datblygu prosiectau newydd ar ôl cyfnod prosiect CDL<br><br>Cofrestru'r Ymddiriedolaeth Storiel gyda Chomisiwn Elusen a Companies House a rhaglen waith yn ei le<br><br>Ceisiadau llwyddiannus yn ôl yr angen<br><br>Ceisiadau |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | George yn ôl yr angen<br><br>• Cyflwyno ceisiadau ar ran Amgueddfa Lloyd George parthed datblygu themâu a chodi proffil yr amgueddfa | NT | 2025-2030 | llwyddiannus yn ôl yr angen<br><br>Ceisiadau llwyddiannus yn ôl yr angen |
| | 3.5 Olyniaeth | • Sicrhau strwythur staffio clir yn ei le, rolau clir ac anwytho cyson<br><br>• Adnabod staff allweddol yn gadael fel risg yn ein Hachos Busnes<br><br>• Sicrhau fod pawb yn defnyddio igwynedd ac yn rhannu gwybodaeth yn effeithiol<br><br>• Eglurdeb am unrhyw ofynion o Amgueddfa lloyd George fel elusen yn enw'r Cyngor | RE/NT<br><br>NT<br><br>Pawb<br><br>NT/RE | Parhaus<br><br>Parhaus<br><br>Adolygu'n chwarterol<br><br>2025/6 | Pawb yn glir o'r rôl a threfn a lleoliad gwybodaeth<br><br>Tîm cryf yn ei le<br><br>Gwybodaeth ar gael ac yn drefnus<br><br>Trefniadau clir mewn lle |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | 3.6 Staffio | • Cynnal ar y lefel bresennol o leiaf<br><br>• Sicrhau lefel addas o hyfforddiant ar gyfer staff yr amgueddfa a gwirfoddolwyr (gweler uchod)<br><br>• Strwythur staffio yn newid yn ôl yr achos busnes yn Storiel | Cyngor Gwynedd<br><br>CG/pawb<br><br>NT/RE/MC | Parhaus<br><br>Parhaus – gwerthusiad blynyddol<br><br>adolygu yn reolaidd | Y safonau wedi eu cyrraedd a'r amgueddfa ar agor<br><br>Trefnu a mynychu hyfforddiant<br><br>Trefn newydd clir yn ei le |
| | 3.7 Technoleg Gwybodaeth | • Diweddaru'r ddarpariaeth TG a'r cyfryngau cysylltiedig yn ôl y galw<br><br>• Datblygu cynigion dehongli newydd yn defnyddio TG | MC/Cyngor Gwynedd<br><br>CG/PB/pawb | parhaus<br><br>Parhaus | Y systemau yn gyfredol ac yn addas i'w diben.<br><br>Darpariaeth dehongli TG yn ei le |
| **4. Darparu cefnogaeth broffesiynol i amgueddfeydd eraill yn y sir fel sy'n briodol** | 4.1 Cefnogaeth i amgueddfeydd eraill | Cynnal cefnogaeth trwy<br>• Mentora<br><br>• Cyngor amgueddfeydd cyffredinol trwy'r sir<br><br>• Cydlynu Ffederasiwn | NT<br><br>RE/NT<br><br>NT | Parhaus<br><br>Parhaus<br><br>Parhaus | Rôl fel Gwasanaeth Amgueddfeydd Sirol yn parhau<br><br>Cynnal cyfarfodydd |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | Amgueddfeydd Morwrol Gwynedd a Môn<br><br>• Cefnogi amgueddfeydd Cymru trwy gyfrannu at waith Ffederasiwn Amgueddfeydd Cymru | NT | Parhaus | Gwynedd gyda rôl mewn strategaeth amgueddfaol cenedlaethol |
| | 4.2 Gwasanaeth Adnabod Gwrthrychau Amgueddfa | • Darparu gwasanaeth dynodi a chynghori i'r cyhoedd yn gyffredinol. | Amgueddfeydd a phartneriaid fel Heneb, PAS | Parhaus | Y Gwasanaeth yn parhau<br><br>Ychwanegu at gasgliadau a'u dealltwriaeth |
| **5. Gweithio mewn partneriaeth â chyrff lleola chenedlaethol i gyfrannu at fwynhad a dealltwriaeth o etifeddiaeth Gwynedd a'i phobl** | 5.1 Cynnal y partneriaethau presennol a datblygu rhai newydd | • Gweithio gyda'n partneriaid presennol<br><br>• Gweithio gyda phartneriaid newydd ee. prosiectau Llofnod Dysgu Teulu, Cynlluniau Cyfuno, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, Strategaethau Amgueddfaol ayb | Pawb<br><br>Pawb | Parhaus<br><br>Parhaus | Perthnasedd a chynaliadwyedd ehangach i'r gwasanaeth amgueddfeydd.<br><br>Rhan o'r Cynllun Busnes |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | • Cyfrannau at weledigaeth Cyngor Gwynedd ee Ffordd Gwynedd, Cynllun Busnes Economi a Chymuned a Chynllun Strategol y Cyngor | Pawb | Parhaus | Rhan o'n cynlluniau |
| | | • Cyfrannu at a manteisio ar gyfleoedd all ddeillio o enwebiad Safle Treftadaeth Byd Llechi Cymru | Pawb | Parhaus | Rhaglen waith arddangosfeydd a gweithgareddau |

**Nodyn Pwysig**
Mae datblygiad y rhan fwyaf o'r camau angenrheidiol yn y Cynllun yn ddibynnol ar barhad yr ariannu gan y Cyngor ar y lefel bresennol

Dyddiad adolygu: Chwefror 2030

**Datganiad Mynediad**

> *"Nid yw'r datganiad mynediad yn cynnwys safbwyntiau personol ynghylch ein haddasrwydd ar gyfer pobl ag anableddau, ond anelir i ddisgrifio'r cyfleusterau a'r gwasanaethau rydym yn eu cynnig i'n holl ymwelwyr."*

Lleolir STORIEL (a adwaenwyd yn flaenorol fel Amgueddfa ac Oriel Gelf Gwynedd, Bangor) yn Ninas Prifysgol Bangor. Dyma amgueddfa ac oriel sirol Gwynedd ac mae'n un o ddwy amgueddfa sy'n cael eu rhedeg yn uniongyrchol gan Adran Economi a Chymuned Cyngor Gwynedd (Gwasanaeth Amgueddfeydd a'r Celfyddydau). Mae rhaglen weithredol o arddangosfeydd dros dro yn yr amgueddfa a'r oriel, digwyddiadau arbennig ac arddangosfa barhaol o gasgliadau'r amgueddfa sy'n ymwneud ag amrywiol agweddau ar fywyd yng Ngwynedd drwy'r oesoedd. Yn ogystal, mae yno siop anrhegion sy'n gwerthu celf a chrefftau.

Mae Storiel wedi ymrwymo ac yn credu bod gan bob person a sector yn y gymuned yr hawl sylfaenol i ymwneud â'r casgliadau a'r gwasanaethau y mae'n eu darparu, a'u defnyddio a'u mwynhau. Mae'n cydnabod bod llawer o rwystrau i fynediad ar bob lefel ond mae wedi ymrwymo i wneud pob agwedd ar ei weithgareddau mor gwbl hygyrch ag y mae adnoddau yn caniatáu. Mae hyn yn cynnwys mynediad i adeiladau, casgliadau, digwyddiadau, arddangosfeydd a dysgu ac i staff a gwirfoddolwyr yn ogystal ag ymwelwyr. Mae Storiel wedi ymrwymo i gynyddu mynediad i'r cyhoedd i'w chasgliadau, ac i wybodaeth sy'n gysylltiedig â'r casgliadau hynny, a chynyddu gwybodaeth a dealltwriaeth o'r eitemau sydd yno.

Er mwyn dileu a lleihau rhwystrau a sicrhau mynediad cyfartal i bawb, bydd yn ystyried yr agweddau canlynol ar hygyrchedd i'w gwasanaethau a'i chasgliadau:

- Ffisegol: galluogi pobl sydd ag anableddau corfforol, yr henoed a'r rheiny sy'n gofalu am bobl ifanc i gyrraedd a gwerthfawrogi pob rhan o'r gwasanaeth a'r casgliadau
- Synhwyraidd: ymgorffori ystod eang o wahanol brofiadau synhwyraidd ym mhob agwedd ar weithgareddau'r gwasanaeth
- Deallusol: cydnabod bod pobl yn dysgu mewn ffyrdd gwahanol a mabwysiadu canllawiau dehongli clir

- Diwylliannol: adnabod a chydnabod gwahaniaethau diwylliannol a cheisio cynrychioli profiadau a materion diwylliannol amrywiol trwy arddangosiadau ac arddangosfeydd
- Emosiynol/Agwedd: sicrhau bod pob ymwelydd yn teimlo bod croeso iddynt a'u bod yn cael eu gwerthfawrogi
- Ariannol: ceisio lleihau rhwystrau ariannol rhag defnyddio safleoedd a'r casgliadau a lle bynnag y bo modd.

**Gwybodaeth Ymarferol**
STORIEL
Ffordd Gwynedd,
Bangor,
Gwynedd,
LL57 1DT.

Rhif Ffôn: 01248 353 368
storiel@gwynedd.gov.uk
www.storiel.cymru

Ffi Mynediad Cyffredinol Yn rhad ac am ddim

Oriau Agor: Dydd Mawrth i Ddydd Sadwrn 11 - 5

Gellir trefnu ymweliadau ymlaen llaw y tu allan i oriau arferol ar gyfer grwpiau ac ysgolion.

Dilynwch ni ar

Instagram @StorielBangor
Facebook @StorielBangor

**Cyrraedd yr Amgueddfa a'r Oriel**

**Trên**
Mae'r orsaf reilffordd agosaf ym Mangor ar Ffordd Caergybi, (LL57 1LZ) sydd tua 10 munud ar droed. Fel arfer, mae tacsis ar gael yn yr orsaf. Mae maes parcio NCP yn yr Orsaf. Am ragor o wybodaeth am yr orsaf, dilynwch y ddolen yma.
http://www.nationalrail.co.uk/stations/bng/details.html

**Bws**
Mae'r safle bws agosaf ar Ffordd Gwynedd, tua dau gan metr oddi wrth ein prif fynedfa. I gael gwybodaeth am gludiant cyhoeddus ar y we, dilynwch y ddolen yma.
http://www.traveline-cymru.info/

**Parcio i'r anabl**
Mae dau le parcio i'r anabl y tu allan i'n prif fynedfa. Mae pellter o tua 25 metr at ein prif fynedfa.

**Car**
Mae gan Storiel faes parcio bach arhosiad byr gyda nifer cyfyngedig o lefydd. Mae nifer o feysydd parcio cyhoeddus eraill gerllaw. Maent yn cynnwys:

> **Maes Parcio Aml-lawr Canolfan Siopa Deiniol** (200m o'n prif fynedfa). Mae 120 o lefydd parcio yma, 7 o lefydd parcio i'r anabl.
> **Maes Parcio Talu ac Arddangos Cyngor Gwynedd** (o'r enw Canondy) rhwng y llyfrgell a'r amgueddfa ar Ffordd Gwynedd. 38 o lefydd parcio, 2 le parcio anabl. Cyfnod byr. Ar agor am 24 awr ond mae cyfyngiad uchder. Dyma ddolen i feysydd parcio eraill Cyngor Gwynedd ym Mangor;
> https://www.gwynedd.llyw.cymru/cy/Trigolion/Parcio-ffyrdd-a-theithio/Parcio-a-thocynnau-parcio/Meysydd-parcio.aspx
> Isod, mae dolen i'r holl feysydd parcio ym Mangor;
> http://en.parkopedia.co.uk/parking/carpark/bangor_menai/ll57/bangor/

**Beiciau**
Rydym wedi ein lleoli oddi ar lwybr beics Lôn Las Menai. Mae gennym bedwar o reiliau beic penodol sy'n gallu cymryd hyd at 8 beic. Maent yn agos at y brif fynedfa. Ni allwn sicrhau y bydd eich beic yn ddiogel tra byddwch ar ein safle.

**Cyrraedd**

**Y Fynedfa**
Gellir cyrraedd prif fynedfa'r amgueddfa o Ffordd Gwynedd ar balmant gwastad o slabiau gyda cherrig crynion wedi'u gosod yma ac acw. Gallwch fynd drwy ddrws yr amgueddfa drwy ddilyn llwybr mwy cylchol o'r lle parcio cyfagos at y drws ffrynt. Fel arfer, mae'r drysau ffrynt dwbl i'r cyntedd bychan ar agor yn barhaol yn ystod oriau agor o 11 i 5, a'u lled yw 130cm. Mae yna ail ddrws gwydr dwbl sy'n agor yn awtomatig. Mae lled y drysau dwbl awtomatig pan fyddant ar agor yn 120cm.

**Arwyddion**
Rydym wedi ceisio gosod arwyddion drwy'r adeilad gyda llythrennau finyl. Os oes unrhyw arwyddion sy'n aneglur neu'n achosi dryswch, byddem yn croesawu unrhyw sylwadau.

**Y Dderbynfa**
Mae'r drws yma yn agor i'n prif dderbynfa, sydd yn lle golau a desg groesawu yn eich wynebu wrth i chi ddod i mewn. Mae'r siop i'r chwith o'n desg groesawu, gyda drysau dwbl yn mynd i'r caffi o'r fan yma. Mae'r grisiau yn arwain at y prif orielau celf a'r amgueddfa. O'r dderbynfa, mae gennym gyfleuster toiled deuryw sy'n cydymffurfio â'r Ddeddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd, gyda lle newid i fabanod. Yn y dderbynfa, mae bocs rhoddion hefyd. Mae staff ar y ddesg groesawu yn ystod yr oriau agor ac mae'r ddesg llai na 3m o'r drws mynediad mewnol. Mae'r ddesg groesawu wedi'i dylunio i fodloni anghenion gwahanol ddefnyddwyr gyda dau uchder, sef 112cm a 78cm. Mae dolen sain gludadwy ar y ddesg groesawu. Mae modd i chi ofyn am gael defnyddio'r ddolen sain glywed yn y brif oriel neu'r ystafelloedd cyfarfod.

**Y Siop**
Mae'r siop ar y llawr gwaelod. Nid oes modd cyrraedd silffoedd arddangos uchel oddi ar eich eistedd. Mae eitemau wedi'u gosod ar unedau annibynnol yn ogystal ag ar silffoedd ac unedau gyda chesys arddangos o amgylch y lle. Mae staff ar gael i helpu. Mae lle i wthio pram neu gadair olwyn o amgylch yr unedau.

**Y Caffi**
Mae'r Caffi ar wahân i'r siop, trwy ddrysau dwbl i'r chwith o'r ddesg groesawu. Mae un drws sengl yn 100cm. Mae 28 o fannau eistedd yn y caffi gyda seddau ychwanegol y tu allan yn ystod misoedd yr Haf. Mae gan yr holl fyrddau goesau ym mhob cornel. Os oes gennych unrhyw anghenion diet arbennig, rhowch wybod i staff y caffi.

**Cyfleusterau toiled**

**Y Llawr Gwaelod**
Ar y llawr gwaelod mae tri thoiled deuryw ac mae dau o'r rhain yn addas i gadeiriau olwyn. Mae arwyneb llawr gwrthlithro ym mhob un.
**WC1**
Mae’r toiled mwyaf ar waelod y prif risiau a gellir mynd ato drwy'r drysau dwbl o'r brif dderbynfa. Mae’r drws yn 90cm o led. Mae’n mesur 270cm gyda 210cm ac yn cynnwys toiled, basn golchi dwylo, cyflenwr dŵr poeth, daliwr sebon, bin, bin nwyddau mislif a bin clytiau a bwrdd newid i fabanod. Mae bocs camu fyny ar gael. Mae'r daliwr papur toiled 88cm o lefel y llawr. Mae canllaw byr wedi’i osod ar y wal, a chortyn tynnu larwm argyfwng.

Mae WC2 a WC3 i lawr y coridor i'r dde o'r brif fynedfa.

**WC2**
Mae WC2 yn addas i gadeiriau olwyn ac mae canllaw, cortyn tynnu larwm, basn dwylo, sychwr dwylo, bin a bin clytiau. Mae'r drws yn 93cm o led ac mae'r papur toiled ar uchder o 91cm. Mae bocs camu fyny ar gael.

**WC3**
Mae gan WC3 sistern toiled, sinc, basn golchi dwylo, sychwr dwylo a bin. Mae’r drws yn 90cm o led. Mae bocs camu fyny ar gael.

**Cyfleusterau ar y llawr cyntaf**
Mae dau doiled deuryw gyda llawr finyl gwrthlithro ar ben landin y prif risiau. Mae gan y ddau sistern toiled a daliwr papur toiled, basn golchi dwylo, darparwr dŵr poeth, sychwr dwylo a bin. Dim ond 87cm o led yw agoriad y drws.

**Lloriau**
Lloriau derw wedi'u peiriannu yw'r lloriau yn y prif orielau a'r llefydd symud. Mae gan y prif risiau, y landin a'r toiledau arwynebau llawr finyl gwrthlithro. Ble fo newidiadau o ran uchder rhwng yr ystafelloedd, mae rampiau bach a chanllawiau. Mae newidiadau bach iawn o ran uchder rhwng yr ystafelloedd yn cael eu marcio gan drothwy drws.

**Arddangosfeydd**
Yn yr arddangosfeydd yn yr oriel mae naill ai gwaith 2D neu 3D ac mae capsiwn ar bob darn o waith sy'n faint ffont 14. Mae gwaith 2D fel arfer yn cael ei hongian i uchder canol o 143cm i sicrhau bod defnyddwyr yn gallu ei weld cystal â phosib.

**Mynediad i'r llawr cyntaf**
**Lifftiau**
Y lifft agosaf at y brif fynedfa yw'r un i'r dde o'r drws ffrynt. Mae hwn yn rhoi mynediad i ofod arddangos cyntaf yr amgueddfa. Mae lled drws y lifft yn 90cm. Mae'r drws yn agor ar dro o 90 gradd i'r man lle mae'n cau.

**Grisiau**
Mae mynediad i'r orielau celf a'r amgueddfa ar y llawr cyntaf. Ar y prif risiau mae ochr a chanllaw wedi'u peintio, sydd wedi'i restru yn Radd II ac yn dyddio yn ôl i tua 1753. Mae canllaw yn rhan o'r dyluniad grisiau gwreiddiol, ond nid ydym wedi gallu gosod canllaw sy'n haws i'w defnyddio ar ddwy ochr y grisiau. Mae dau dwll grisiau i gael mynediad i'r llawr cyntaf - mae'r rhes gyntaf o 4 gris yn dod ar landin, yna mae troad 90 gradd ac yna 11 gris arall, landin bach gyda thro 90 gradd arall a rhes olaf o 4 gris cyn cyrraedd y llawr cyntaf. Mae posib mynd i bob oriel o'r landin uchaf - yr orielau celf drwy'r drysau dwbl o'ch blaen ac orielau'r amgueddfa drwy fynediad llai ar y chwith.

**Goleuadau**
Mae golau da a chyfartal yn y dderbynfa a’r siop. Fel arfer, mae golau da a chyfartal yn yr oriel ac eithrio mewn amgylchiadau pan fo angen gostwng lefel y golau oherwydd yr angen i warchod gweithiau celf penodol. Mae golau da ar y grisiau i’r amgueddfa ond mae'r golau yn isel mewn ambell ystafell yn yr amgueddfa, oherwydd yr angen i warchod gwrthrychau mwy bregus sydd yn yr amgueddfa.

**Llogi Ystafell**
Mae modd llogi ystafelloedd ar y llawr gwaelod. Mae posib rhannu ystafell fawr yn dri gofod llai, pob un â mynedfa drwy ddrws 90cm. Mae mynediad i Ystafell 1 drwy ddau ddrws 90cm. Mae mynediad i Ystafell 2 a 3 yn golygu troi ar ongl 90 gradd o'r coridor. Bydd y sawl sy'n llogi'r ystafelloedd wedi trefnu'r gofynion o flaen llaw.
Mae ystafelloedd ar gael i'w llogi rhwng 9am a 5pm, ac mae modd gofyn am eu llogi y tu allan i'r oriau yma. Mae prisiau llogi a mwy o wybodaeth am yr ystafelloedd, yr offer ac unrhyw ymholiadau eraill ar gael drwy e-bostio llogiystafellstoriel@gwynedd.llyw.cymru neu ffonio 01248353368.

**Gwybodaeth ychwanegol**
Mae’r holl staff yn cael hyfforddiant sy’n cynnwys ymwybyddiaeth o anabledd a gofal cwsmer. Mae rhai staff wedi cael hyfforddiant Iaith Arwyddion Prydain (BSL) sylfaenol.

Nid ydym yn cynnig taith sain ar hyn o bryd.

Mae modd trefnu, o flaen llaw, teithiau ar gyfer grwpiau, ysgolion neu golegau sydd ag anghenion penodol.

Rydym yn croesawu cŵn cymorth yn yr amgueddfa a’r oriel. Nid ydym yn croesawu cŵn eraill.

Croesawn awgrymiadau ar sut i wella ein gwasanaeth drwy lyfrau sylwadau, ffôn, e-bost ac ati.

**Mynediad at gasgliadau**
Gwneir trefniadau effeithiol i alluogi mynediad i gasgliadau. Mae hyn yn cynnwys hwyluso mynediad ffisegol a deallusol ar y safle, ac yn rhithiol.

**Arddangosfeydd ac arddangosiadau**
Dehonglir y casgliad drwy ystod eang o arddangosfeydd ac arddangosiadau. Mae arddangosfeydd parhaol yn rhoi trosolwg ac yn cynnwys themâu allweddol sy'n gwella dealltwriaeth o'r casgliad. Mae rhaglen o arddangosfeydd dros dro yn rhoi'r cyfle i gael mynediad pellach i'r casgliad drwy arddangos gwrthrychau fyddai mewn storfa fel arall.

Mae mannau cymunedol ar gael yn Storiel fel y gall grwpiau cymunedol weld a defnyddio'r casgliadau a chyd-guradu arddangosfeydd gyda'r Curadur Casgliadau. Mae cypyrddau arddangos 'lloeren' yn Llyfrgelloedd Dolgellau, Tywyn a Blaenau Ffestiniog, Oriel Plas Glyn y Weddw ac Ysbyty Chwarel. Defnyddir gwahanol themâu i arddangos gwrthrychau o'r casgliad o fewn gwahanol gymunedau gan ddarparu mynediad pellach.

**Mynediad digidol**
Mae'r casgliadau sydd ar gael ar-lein ar wefan Storiel yn darparu mynediad ar-lein am ddim i'r casgliadau. Mae'r casgliad wrthi'n cael ei ddigideiddio ac mae'n cael ei ddiweddaru'n gyson wrth i destunau a delweddau newydd fod yn barod. Mae'r casgliadau ar-lein yn defnyddio data sydd o fewn system reoli casgliadau'r amgueddfa.

Mae adnoddau digidol eraill ar wefan Storiel, gan gynnwys gwybodaeth am y casgliad, e.e. uchafbwyntiau, gwrthrych y mis.

Lle bo modd, hyrwyddir y casgliad ar sianeli cyfryngau cymdeithasol.

**Ymholiadau**
Mae'n bosibl gweld eitemau o'r casgliad sy'n cael eu storio trwy gysylltu â'r Curadur Casgliadau a gwneud apwyntiad. Mae gwasanaeth ymholiadau hefyd ar gael. Darperir mynediad i'r gwrthrychau a gwybodaeth am y gwrthrychau trwy'r gwasanaeth hwn gan y Curadur Casgliadau.

**Benthyciadau**
Mae Storiel yn gweithredu rhaglen o fenthyciadau i wella mynediad i'r casgliad ymhellach. Mae hyn yn ddibynnol ar gwrdd â meini prawf addas.

**Casgliadau Trin a Thrafod**
Mae casgliad trin a thrafod ar gael ac mae'n cael ei weithredu gan y Swyddog Dysgu.

**Digwyddiadau**

Trefnir digwyddiadau a gweithgareddau i gynyddu mynediad a dealltwriaeth o'r casgliad.

**Hygyrchedd gwybodaeth**

Bydd yr holl wybodaeth am ddehongli a chasgliadau (gan gynnwys taflenni, labeli a gwefan) yn dilyn arfer dda a chanllawiau o ran testun ac arddull.

Mae'r arddangosfeydd ar lawr cyntaf a llawr gwaelod yr amgueddfa yn gyfuniad o weithiau mewn casys arddangos gwydr neu bersbecs, yn arddangosfeydd agored (megis y dodrefn), ac yn baneli gyda chyfuniad o destun a delweddau dwyieithog (Cymraeg a Saesneg).

Ceisiwn sicrhau bod maint y ffont ar y paneli wal yn faint 16 o leiaf, a'r capsiynau llai yn 14. Mae modd gofyn am gopi print bras o destunau'r arddangosfeydd wal. Mae pwyntiau Clywedol gyda rhagor o wybodaeth ryngweithiol am y gwrthrychau ar gael.

Darperir lefelau o wybodaeth a dehongli sy'n addas i wahanol gynulleidfaoedd a galluoedd.

**Polisi Datblygu Casgliadau**

**Enw'r Amgueddfa:** *Amgueddfa Lloyd George Museum*

**Enw'r corff llywodraethu:** *CYNGOR GWYNEDD*

**Y dyddiad y cymeradwywyd y polisi hwn gan y corff llywodraethu:** *Mehefin 2025*

**Gweithdrefn adolygu polisi:** *Staff i adolygu a'r corff llywodraethu i gymeradwyo*

Hysbysir Is-adran Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd Cymru (CyMAL gynt) ynghylch unrhyw newidiadau i'r polisi caffael a gwaredu, a goblygiadau newidiadau o'r fath ar ddyfodol casgliadau cyfredol.

Cyhoeddir y polisi datblygu casgliadau ac fe'i adolygir o bryd i'w gilydd, o leiaf unwaith bob pum mlynedd.

**Y dyddiad mae'r polisi hwn angen ei adolygu:** *Mehefin 2030*

Hysbysir Llywodraeth Cymru ynghylch unrhyw newidiadau i'r polisi datblygu casgliadau, a goblygiadau newidiadau o'r fath ar ddyfodol y casgliadau.

**1. Perthynas â pholisïau/cynlluniau perthnasol eraill y sefydliad:**

**1.1. Datganiad o bwrpas yr amgueddfa yw:**
"Dehongli bywyd a chyfnod David Lloyd George 1863-1945 drwy gasglu, gofalu am, ac arddangos eitemau oedd yn ymwneud ag ef a datblygu'r Amgueddfa a Highgate fel canolfan deilwng i goffáu un o brif wleidyddion yr ugeinfed ganrif ac fel canolbwynt i wybodaeth a gwaith ymchwil fydd yn hyrwyddo ymwybyddiaeth fyd-eang o'r hyn a gyflawnodd".

1.2. Bydd y corff llywodraethu'n sicrhau bod y broses gaffael a gwaredu'n cael ei gweithredu'n agored ac yn dryloyw.

1.3. Yn ôl y diffiniad, mae gan yr amgueddfa bwrpas hirdymor ac mae'n cadw casgliadau mewn ymddiriedolaeth er budd cyhoeddus mewn perthynas â'i hamcanion dynodedig. Felly, mae'r corff llywodraethu'n derbyn yr egwyddor bod yn rhaid sefydlu rhesymau curadurol cadarn cyn y gellir ystyried caffael unrhyw eitem at y casgliad, neu waredu unrhyw eitemau yng nghasgliad yr amgueddfa.

1.4. Dim ond mewn amgylchiadau arbennig iawn y byddwn yn caffael y tu allan i'r polisi cyfredol.

1.5. Mae'r amgueddfa'n cydnabod ei chyfrifoldeb, wrth gaffael ychwanegiadau i'w chasgliadau, i sicrhau bod y gwaith o ofalu am gasgliadau, trefniadau dogfennu a'r defnydd a wneir o gasgliadau yn bodloni gofynion y Safon Achredu Amgueddfeydd. Mae hyn yn cynnwys defnyddio prif weithdrefnau SPECTRUM ar gyfer rheoli casgliadau. Bydd yn rhoi ystyriaeth i gyfyngiadau ar gasglu yn sgil ffactorau megis trefniadau staffio, storio a gofalu am gasgliadau.

1.6. Bydd yr amgueddfa'n gweithredu diwydrwydd dyladwy ac yn gwneud pob ymdrech i beidio â chaffael unrhyw wrthrych neu sbesimen, boed hynny drwy ei brynu, rhodd, cymynrodd neu gyfnewid, heb i'r corff llywodraethu neu'r swyddog cyfrifol fod yn fodlon y gall yr amgueddfa gaffael hawl dilys i'r eitem dan sylw.

1.7. Mewn achosion eithriadol, efallai mai rhesymau ariannol fydd y prif gymhelliant dros waredu. Felly, y dull gwaredu fydd gwerthu ac fe ddilynir y gweithdrefnau a amlinellir isod. Mewn achosion pan mai rhesymau ariannol yw'r cymhelliant dros waredu, ni fydd y corff llywodraethu'n gwaredu oni bai y gellir arddangos fod yr holl amgylchiadau eithriadol a ganlyn yn cael eu bodloni'n llawn:

- bydd y gwarediad yn gwella'n sylweddol y budd cyhoeddus hirdymor sydd i'w gael o'r casgliad sy'n weddill
- ni waredir er mwyn cynhyrchu refeniw byrdymor (er enghraifft, i fodloni diffyg yn y gyllideb)
- gwaredir fel dewis olaf wedi ymchwilio'n drylwyr i'r holl ffynonellau cyllid eraill
- bod proses ymgynghori lawn wedi'i chynnal gyda chyrff y sector ymlaen llaw
- bod yr eitem dan ystyriaeth y tu allan i gasgliad craidd sefydlog yr amgueddfa

## 2. Hanes y casgliad

Mae'r Amgueddfa a'r Bwthyn yn amlinellu bywyd a chyfnod Lloyd George rhwng 1863 a 1945. Mae casgliad yr Amgueddfa'n seiliedig ar gasgliad gwreiddiol Ymddiriedolaeth Amgueddfa Lloyd George, fu'n gyfrifol am redeg yr amgueddfa hyd y 1980au. Bu i Gyngor Sir Gwynedd gymryd awenau yr Amgueddfa yn 1987, ac fe sefydlwyd Ymddiriedolaeth newydd. Ers hynny, mae dau estyniad wedi'u hychwanegu at yr amgueddfa ac mae'r casgliadau wedi tyfu'n helaeth.

Mae Highgate, cartref Fictoraidd Lloyd George yn ystod ei blentyndod a gweithdy crydd ei ewythr, a gyflwynwyd i'r Cyngor gan aelodau o deulu Lloyd George, wedi'u dodrefnu yn union fel ag yr oeddynt pan oedd yn byw yno. Mae rhai o'r eitemau wedi'u benthyg gan Amgueddfa Werin Cymru, mae eraill ym mherchnogaeth y Cyngor, neu wedi cael eu benthyg i'r Cyngor gan sawl ffynhonnell.

Mae hon yn un o ddwy Amgueddfa drwy Brydain gyfan, sy'n coffáu cyn brif weinidogion ac mae'n cynnwys sawl agwedd ar hanes cymdeithasol y cyfnod megis crefydd, addysg, gwleidyddiaeth a bywyd yn y bwthyn.

## 3. Trosolwg o'r casgliadau cyfredol

Mae'n cynnwys casgedau rhyddid a sgroliau, medalau, cofiannau, paentiadau, gwisgoedd ac archifau ac eitemau eraill sy'n ymwneud â Lloyd George ac yn adrodd ei stori. Mae bwthyn Highgate a gweithdy'r crydd wedi'u hail-greu fel yr oeddynt pan oedd Lloyd George yn byw yno rhwng 1864 a 1880 ac maent yn cynnwys dodrefn, eitemau cartref ac offer a meinciau'r crydd. Yr unig eitemau gwreiddiol o Highgate ei hun yw'r ddwy ddesg yn y parlwr yr arferai David a'i frawd William eu defnyddio.

## 4. Themâu a blaenoriaethau ar gyfer casglu i'r dyfodol

a) Byddwn yn caffael eitemau fydd yn gysylltiedig â Lloyd George ac yn adlewyrchu ei fywyd a'i yrfa, yn cynnwys eitemau coffaol.

b) Bydd eitemau'n cael eu caffael i ail-greu Highgate gyda'i weithdy crydd fel ag yr oedd pan fu Lloyd George yn byw yno rhwng 1864 a 1880.

c) Bydd eitemau'n cael eu caffael ar gyfer yr ystafell ddosbarth Fictoraidd sydd yn yr Amgueddfa.

d) O ran archifau, yn cynnwys ffotograffau ac effemera wedi'u printio, bydd yr Amgueddfa'n eu trosglwyddo i Wasanaeth Archifau Gwynedd yn unol â'u telerau adneuo (gweler 12 hefyd).

e) Bydd yr Amgueddfa'n darparu deunydd cyfeirio yn ymwneud â Lloyd George a'i fywyd yn ei llyfrgell a bydd hyn yn ymestyn dealltwriaeth y defnyddwyr o gyd-destun cymdeithasol a gwleidyddol y cyfnod.

## 5. Themâu a blaenoriaethau ar gyfer rhesymoli a gwaredu

5.1 Mae'r Amgueddfa'n cydnabod bod yr egwyddorion a ddefnyddir i bennu'r blaenoriaethau ar gyfer rhesymoli a gwaredu yn dilyn proses adolygu ffurfiol i adnabod pa gasgliadau sydd wedi'u cynnwys neu wedi'u hepgor o'r adolygiad. Ni fydd canlyniad yr adolygiad ac unrhyw resymoli dilynol yn lleihau ansawdd nac arwyddocâd y casgliad a bydd yn arwain at gasgliad sy'n fwy defnyddiol ac sydd wedi'i reoli'n dda.

5.2 Bydd y gweithdrefnau a ddefnyddir yn bodloni safonau proffesiynol. Bydd y broses yn cael ei dogfennu, yn agored ac yn dryloyw. Cyfathrebir yn glir â'r rhanddeiliaid allweddol ynghylch y deilliannau a'r broses.

Bydd yr amgueddfa'n ymgymryd â gwaredu cyfrifol, dan arweiniad y curadur, er mwyn cynyddu'r budd cyhoeddus a geir o gasgliadau'r amgueddfa. Bydd yr amgueddfa'n dilyn canllawiau'r Disposals Toolkit wrth wneud hynny, gan ddilyn Cod Moeseg Cymdeithas yr Amgueddfeydd, ynghyd ag ystyried eitemau sydd wedi'u nodi ar dudalennau 9 a 10 y Toolkit sydd wedi'u rhestru yma:

- Eitemau y tu allan i bolisi'r casgliadau
- Eitemau dyblyg
- Eitemau sy'n cael eu tanddefnyddio
- Eitemau na ellir rhoi gofal digonol iddynt neu nad oes modd eu trwsio
- Eitemau heb gyd-destun / heb darddiad
- Eitemau sydd yn risg o ran Iechyd a Diogelwch, e.e. asbestos
- Eitemau sydd wedi'u gwerthu i brynu enghreifftiau gwell

Cynhelir Adolygiad Casgliadau i asesu'r casgliadau gan ddefnyddio fframwaith i adnabod eitemau fyddai'n well eu gwaredu.

## 6 Fframwaith cyfreithiol a moesol ar gyfer caffael a gwaredu eitemau

6.1 Mae'r Amgueddfa'n cydnabod ei chyfrifoldeb i weithio o fewn paramedrau Cod Moeseg Cymdeithas yr Amgueddfeydd wrth ystyried caffael a gwaredu.

## 7 Polisïau casglu amgueddfeydd eraill

7.1 Bydd yr amgueddfa'n ystyried polisïau casglu amgueddfeydd eraill a sefydliadau eraill yn yr un meysydd neu bwnc. Bydd yn ymgynghori â'r sefydliadau hyn pan fo buddiannau'n gwrthdaro neu er mwyn diffinio meysydd arbenigedd, er mwyn osgoi unrhyw ddyblygu diangen a gwastraffu adnoddau.

7.2 Cyfeirir yn benodol at yr amgueddfa/amgueddfeydd neu sefydliad(au) a ganlyn:

Amgueddfa Lechi Cymru, Llanberis,
Gwasanaeth Amgueddfeydd Ynys Môn,
Segontium,
Amgueddfa Llandudno,
Amgueddfa'r Ffiwsilwyr Brenhinol Cymreig,
Canolfan Treftadaeth Thomas Telford,
Castell Penrhyn,
Oriel Plas Glyn-y-weddw
a'r amgueddfeydd morwrol a rheilffordd annibynnol yn yr ardal.

## 8 Daliadau Archifol

Gan fod yr amgueddfa'n cadw archifau, yn cynnwys ffotograffau ac effemera wedi'u printio, bydd ei chorff llywodraethu'n cael ei arwain gan y Cod Ymarfer ar Archifau i Amgueddfeydd ac Orielau yn y Deyrnas Gyfunol (Trydydd Argraffiad, 2002). Bydd Amgueddfa Lloyd George yn cydweithio â Gwasanaeth Archifau Gwynedd pan fydd yn caffael archifau. Fel arfer, dylid storio deunydd o'r fath yn Ystorfeydd Gwasanaeth Archifau Gwynedd pan nad ydynt yn cael eu harddangos a bydd BS5454 yn cael ei ddilyn. Mae Gwasanaeth Archifau Gwynedd yn bodloni'r safonau ar gyfer storio sydd wedi'u hamlinellu yn y Royal Commission on Historical Manuscripts Standards for Record Repositories (2001).

## 9 Caffael

### 9.1 Y polisi ar gyfer cytuno i gaffael yw:

Yr aelodau o staff sydd wedi'u hawdurdodi i dderbyn gwrthrychau i'r amgueddfa yw Helen Gwerfyl a Nêst Thomas. Ni ddylid derbyn unrhyw wrthrych heb gymeradwyaeth o leiaf un o'r ddwy aelod staff uchod. Os bydd gwrthrych yn cyrraedd yn yr amgueddfa pan nad yw'r un o'r ddwy uchod yn bresennol, dylid cofnodi manylion cyswllt y rhoddwr ar Ffurflen Ymholi ynghyd â manylion ynghylch yr eitem sy'n cael ei chyflwyno fel rhodd a chysylltir â'r rhoddwr cyn gynted ag y bo modd. Byddwn yn ystyried sefydlu panel caffael i benderfynu ar eitemau sy'n cael eu caffael.

Nid oes cyllideb Caffael yn bodoli. Pan geisir prynu gwrthrych, bydd angen sicrhau grantiau a derbyn cymeradwyaeth gan naill ai Helen Gwerfyl neu Nêst Thomas.

9.2 Ni fydd yr amgueddfa'n caffael unrhyw wrthrych neu sbesimen oni bai y bydd yn fodlon nad yw'r gwrthrych neu'r sbesimen wedi'i gaffael o'i wlad wreiddiol (neu o unrhyw wlad ganolog ble roedd ganddo berchennog cyfreithiol), neu wedi'i allforio oddi yno, yn anghyfreithlon yng nghyfraith y wlad honno. (Er dibenion y paragraff hwn, mae'r 'wlad wreiddiol' yn cynnwys y Deyrnas Gyfunol.)

9.3 Yn unol â darpariaethau Confensiwn UNESCO 1970 ar Ddulliau Gwahardd ac Atal Mewnforio, Allforio a Throsglwyddo Perchnogaeth Eiddo Diwylliannol yn Anghyfreithlon, a ddilyswyd gan y Deyrnas Gyfunol ac a ddaeth yn weithredol ar 1 Tachwedd 2002, a Deddf Delio mewn Gwrthrychau Diwylliannol (Troseddau) 2003, bydd yr amgueddfa'n gwrthod unrhyw eitemau sydd wedi'u masnachu'n anghyfreithlon. Bydd y corff

llywodraethu'n cael ei arwain gan y canllawiau cenedlaethol ar gaffael eiddo diwylliannol yn gyfrifol a gyhoeddwyd gan yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon yn 2005.

**10 Gweddillion dynol**

10.1 Ni fydd yr Amgueddfa yn caffael unrhyw weddillion dynol.

**11 Deunydd biolegol a daearegol**

11.1 Ni fydd yr amgueddfa'n caffael unrhyw ddeunydd biolegol na daearegol.

**12 Deunydd Archeolegol**

12.1 Ni fydd yr amgueddfa'n caffael deunydd archeolegol (yn cynnwys cerameg a gloddiwyd), mewn unrhyw achos pan fo'r corff llywodraethu neu'r swyddog cyfrifol yn amau bod yr amgylchiadau pan adenillwyd y deunydd yn cynnwys methiant i ddilyn y gweithdrefnau cyfreithiol priodol.

12.2 Yn Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon, mae'r gweithdrefnau'n cynnwys adrodd ar bethau a ganfyddir i'r tirfeddiannwr neu ddeilydd y tir ac i'r awdurdodau priodol o ran trysor posib (h.y. y Crwner Trysorau) fel y'i diffinnir yn Neddf Trysorau 1996 (fel y'i diwygiwyd gan y Ddeddf Crwneriaid a Chyfiawnder 2009).

**13 Eithriadau**

13.1 Yr unig amser y gwneir eithriadau i'r cymalau uchod yw pan fo'r amgueddfa'n:

- gweithredu fel ystorfa dewis olaf wedi'i chymeradwyo'n allanol ar gyfer deunydd o darddiad lleol (Y Deyrnas Gyfunol);
- gweithredu gyda chaniatâd awdurdodau gyda'r awdurdodaeth angenrheidiol yn y wlad wreiddiol.

Dan yr amgylchiadau hyn, bydd yr amgueddfa'n agored ac yn dryloyw o ran sut mae'n gwneud penderfyniadau ac ni fydd yn gweithredu heb ganiatâd gan awdurdod allanol priodol. Bydd yr Amgueddfa'n dogfennu'r enghreifftiau pan fo'r eithriadau hyn yn digwydd.

**14 Ysbeiliad**

14.1 Bydd yr amgueddfa'n defnyddio datganiad egwyddorion y ddogfen 'Spoliation of Works of Art during the Nazi, Holocaust and World War II period', a gyflwynwyd ar gyfer amgueddfeydd nad ydynt yn rhai cenedlaethol yn 1999 gan y Comisiwn Amgueddfeydd ac Orielau.

**15 Dychwelyd ac Adfer gwrthrychau a gweddillion dynol**

15.1 Gall corff llywodraethu'r amgueddfa, yn gweithredu ar gyngor staff proffesiynol yr amgueddfa, os o gwbl, benderfynu dychwelyd gweddillion dynol (oni bai eu bod yn syrthio dan y 'Guidance for the care of human remains in museums' a gyflwynwyd gan DCMS yn 2005), gwrthrychau neu sbesimenau i wlad neu bobl wreiddiol. Bydd yr amgueddfa'n gwneud penderfyniadau o'r fath fesul achos, o fewn ei sefyllfa gyfreithiol a chan ystyried yr holl oblygiadau moesegol a'r canllawiau sydd ar gael. Golyga hyn y bydd y gweithdrefnau a ddisgrifiwyd yn 16.1-5 yn cael eu dilyn ond ni fydd y gweithdrefnau sy'n weddill yn briodol.

15.2 Bydd unrhyw achos o waredu gweddillion dynol o amgueddfeydd yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon yn dilyn y gweithdrefnau yn y 'Guidance for the care of human remains in museums'.

## 16 Gweithdrefnau gwaredu

16.1 Gwneir yr holl warediadau gan gyfeirio at Brif Weithdrefnau SPECTRUM wrth waredu.

16.2 Bydd y corff llywodraethu'n cadarnhau ei fod yn gyfreithiol rydd i waredu eitem. Yn ogystal, rhoddir ystyriaeth i'r cytundeb ar waredu y daethpwyd iddo â'r cyfranwyr.

16.3 Pan roddir ystyriaeth i waredu gwrthrych o'r amgueddfa, bydd yr amgueddfa'n sefydlu p'un a gaffaelwyd yr eitem gyda chymorth sefydliad cyllido allanol. Mewn achosion o'r fath, rhaid dilyn unrhyw amodau oedd ynghlwm â'r grant gwreiddiol. Gall hyn gynnwys ad-dalu'r grant gwreiddiol a chyfran o'r elw os bydd yr eitem yn cael ei gwaredu drwy gael ei gwerthu.

16.4 Os mai rhesymau curadurol sy'n cymell y gwarediad, dilynir y gweithdrefnau sydd wedi'u hamlinellu isod a gallai'r dull gwaredu fod ar ffurf rhodd, gwerthu neu gyfnewid, neu, fel dewis olaf, dinistrio.

16.5 Ni fydd y corff llywodraethu yn penderfynu gwaredu deunydd o'r casgliadau hyd nes y bydd y rhesymau dros waredu wedi'u hystyried yn llawn. Ystyrir ffactorau eraill, yn cynnwys y budd cyhoeddus, y goblygiadau ar gasgliadau'r amgueddfa a'r casgliadau a gedwir gan amgueddfeydd eraill a sefydliadau eraill sy'n casglu'r un deunyddiau neu mewn meysydd perthnasol. Cymerir cyngor gan arbenigwyr ynghyd â barn gan randdeiliaidmegis cyfranwyr, ymchwilwyr, cymunedau lleol a ffynhonnell ac eraill a wasanaethir gan yr amgueddfa.

16.6 Corff llywodraethu'r amgueddfa sy'n gweithredu ar gyngor staff curadurol proffesiynol, os o gwbl, ac nid curadur y casgliad ar ei ben ei hun, fydd yn gyfrifol am wneud penderfyniad i waredu sbesimen neu wrthrych boed drwy rodd, cyfnewid, gwerthu neu ddinistrio (o ran eitem sydd wedi'i difrodi neu sydd wedi dirywio gormod i fod o unrhyw ddefnydd er dibenion y casgliadau neu am resymau iechyd a diogelwch).

16.7 Unwaith y penderfynir gwaredu deunydd yn y casgliad, rhoddir blaenoriaeth i'w gadw yn gyhoeddus. Felly, yn y lle cyntaf, bydd yn cael ei gynnig drwy rodd neu drwy werthu, yn uniongyrchol i Amgueddfeydd Achrededig eraill sy'n debygol o fod â diddordeb i'w gaffael.

16.8 Os na fydd unrhyw Amgueddfeydd Achrededig yn caffael y deunydd y cynigiwyd iddynt fel rhodd neu ar werth, yna hysbysir y gymuned amgueddfeydd yn gyffredinol ynghylch y bwriad i waredu'r deunydd, fel arfer drwy osod rhybudd ar wasanaeth rhestru Find an Object Cymdeithas yr Amgueddfeydd ar y we, gwneud datganiad yn Museums Journal Cymdeithas yr Amgueddfeydd, ac mewn cyhoeddiadau neu ar wefannau arbenigol eraill.

16.9 Bydd y datganiad ynghylch y rhodd neu'r gwerthiant yn nodi nifer a natur y sbesimenau neu'r gwrthrychau dan sylw, a sut fydd y deunydd yn cael ei drosglwyddo i'r sefydliad arall. Rhoddir blaenoriaeth i fynegiant o ddiddordeb a dderbynnir gan Amgueddfeydd Achrededig eraill. Caniateir cyfnod o ddau fis o leiaf i fynegi diddordeb yn y deunydd. Ar ddiwedd y cyfnod hwn, os na fydd unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb wedi'u derbyn, gall yr amgueddfa ystyried gwaredu'r deunydd i unigolion a sefydliadau eraill â diddordeb gan roi blaenoriaeth i sefydliadau cyhoeddus.

16.10 Defnyddir unrhyw arian a dderbynnir gan gorff llywodraethu'r amgueddfa yn sgil gwaredu eitemau yn unig ac yn uniongyrchol er budd y casgliadau. Fel arfer, bydd hyn yn golygu prynu caffaeliadau pellach. Mewn achosion eithriadol, efallai y bydd modd cyfiawnhau gwneud gwelliannau mewn perthynas â gofalu am gasgliadau er mwyn bodloni neu wneud mwy na'r gofyn o ran y gofynion Achredu mewn perthynas â'r risg o ddifrod a dirywiad i gasgliadau. Defnyddir unrhyw arian a dderbynnir fel iawndal am ddifrodi, colli neu ddinistrio eitemau yn yr un modd. Ceisir cyngor ar yr achosion hynny ble bwriedir defnyddio'r arian i ofalu am gasgliadau gan Isadran Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd Cymru (CyMAL gynt).

16.11 Bydd yr elw o werthiannau yn cael ei ddyrannu fel y gellir dangos ei fod yn cael ei wario mewn modd sy'n cyfateb â gofynion y safon Achredu. Rhaid cyfyngu'r arian i gynaliadwyedd hirdymor, defnydd a datblygiad y casgliad.

16.12 Cedwir cofnod llawn o'r holl benderfyniadau a wneir ar waredu a'r eitemau oedd yn gysylltiedig a gwneir trefniadau priodol i gadw ac/neu drosglwyddo, fel sy'n briodol, y ddogfennaeth sy'n ymwneud â'r eitemau dan sylw, yn cynnwys cofnodion ffotograffig ble bo'n ymarferol yn unol â Gweithdrefn SPECTRUM ar ildio a gwaredu.

***Gwaredu drwy gyfnewid***

16.13 Mae natur gwaredu drwy drosglwyddo yn golygu na fydd yr amgueddfa, o angenrheidrwydd, mewn sefyllfa i gyfnewid y deunydd ag Amgueddfa Achrededig arall. Felly, bydd y corff llywodraethu'n sicrhau bod materion yn ymwneud ag atebolrwydd a diduedddrwydd yn cael eu hystyried yn ofalus i osgoi dylanwad gormodol ar ei broses gwneud penderfyniadau.

16.13.1 Mewn achosion pan fo'r corff llywodraethu'n dymuno cael rhesymau curadurol clir dros gyfnewid deunydd yn uniongyrchol ag amgueddfeydd Achrededig a rhai nad ydynt yn achrededig, gyda sefydliadau eraill neu gydag unigolion, bydd y gweithdrefnau ym mharagraffau 16.1-5 yn berthnasol.

16.13.2 Os bwriedir cyfnewid ag amgueddfa Achrededig benodol, hysbysir amgueddfeydd Achrededig eraill sy'n casglu yn yr un maes neu mewn maes perthnasol yn uniongyrchol o'r bwriad a gofynnir am eu sylwadau.

16.13.3 Os bwriedir cyfnewid ag amgueddfa nad ydyw'n achrededig, gyda sefydliad arall neu gydag unigolyn, bydd yr amgueddfa'n gosod rhybudd ar wasanaeth rhestru Find an Object Cymdeithas yr Amgueddfeydd ar y we, gwneud datganiad yn Museums Journal Cymdeithas yr Amgueddfeydd, ac mewn cyhoeddiadau neu ar wefannau arbenigol eraill

16.13.4 Bydd yr hysbysiad a'r datganiad yn rhoi gwybodaeth ynghylch nifer a natur y sbesimenau neu'r gwrthrychau sy'n gysylltiedig yng nghasgliad yr amgueddfa a'r rhai y bwriedir eu caffael fel rhan o'r cyfnewid. Rhaid caniatáu cyfnod o ddau fis o leiaf i dderbyn sylwadau. Ar ddiwedd y cyfnod hwn, rhaid i'r corff llywodraethu ystyried y sylwadau cyn y gwneir penderfyniad terfynol ar y cyfnewidiad.

***Gwaredu drwy ddinistrio***

16.14 Os nad oes modd gwaredu gwrthrych drwy drosglwyddiad neu werthiant, gall y corff llywodraethu benderfynu ei waredu.

16.15 Mae'n dderbyniol dinistrio deunydd sydd ag arwyddocâd cynhenid isel (erthyglau dyblyg a gynhyrchwyd yn helaeth neu sbesimenau cyffredin nad oes iddynt darddiad arwyddocaol), ble nad oes modd canfod unrhyw ddull gwaredu amgen.

16.16 Yn ogystal, mae dinistrio yn ddull gwaredu derbyniol mewn achosion pan fo gwrthrych mewn cyflwr hynod wael, pan fo risgiau iechyd a diogelwch yn perthyn iddo neu pan fo'n rhan o gais i brofi wrth ddinistrio sydd wedi'i nodi ym mholisi ymchwil sefydliad.

16.17 Pan fo’r angen, ceisir cyngor arbenigol i sefydlu pa ddull dinistrio sy'n briodol. Cynhelir asesiadau risg iechyd a diogelwch gan staff hyfforddedig pan fo angen.

16.18 Dylai aelod priodol o weithlu'r amgueddfa fod yn dyst i'r gwaith o ddinistrio gwrthrychau. Mewn amgylchiadau ble nad yw hyn yn bosib, e.e. dinistrio sylweddau wedi'u rheoli, dylid cael tystysgrif gan yr heddlu a'i chadw yn ffeil hanes y gwrthrych perthnasol.

**Polisi Datblygu Casgliadau**

**Enw'r Amgueddfa:** *STORIEL*

**Enw'r corff llywodraethu:** *CYNGOR GWYNEDD*

**Y dyddiad y cymeradwywyd y polisi hwn gan y corff llywodraethu:** *Mehefin 2025*

**Gweithdrefn adolygu polisi:** *Staff i adolygu a'r corff llywodraethu i gymeradwyo*

Hysbysir Is-adran Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd Cymru (CyMAL gynt) ynghylch unrhyw newidiadau i'r polisi caffael a gwaredu, a goblygiadau newidiadau o'r fath ar ddyfodol casgliadau cyfredol.

Cyhoeddir y polisi datblygu casgliadau ac fe'i adolygir o bryd i'w gilydd, o leiaf unwaith bob pum mlynedd.

**Y dyddiad mae'r polisi hwn angen ei adolygu:** *Mehefin 2030*

***MALD: Hysbysir Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd Cymru* ynghylch unrhyw newidiadau i'r polisi datblygu casgliadau, a goblygiadau newidiadau o'r fath ar ddyfodol casgliadau.**

**1. Perthynas â pholisïau/cynlluniau perthnasol eraill y sefydliad:**

**1.1. Datganiad o bwrpas yr amgueddfa yw:**
*Casglu, gofalu am, dehongli ac arddangos deunydd sy'n darlunio a hyrwyddo hanes, diwylliant a bywyd Gwynedd a'i phobl drwy addysg a mwynhad.*

**1.2. Bydd y corff llywodraethu'n sicrhau fod y broses gaffael a gwaredu'n cael ei gweithredu'n agored ac yn dryloyw.**

**1.3. Drwy ddiffiniad, mae gan yr amgueddfa bwrpas hirdymor ac mae'n cadw casgliadau mewn ymddiriedolaeth er budd cyhoeddus mewn perthynas â'i hamcanion dynodedig. Felly, mae'r corff llywodraethu'n derbyn yr egwyddor bod yn rhaid sefydlu rhesymau curadurol cadarn cyn y gellir ystyried caffael unrhyw eitem at y casgliad, neu gael gwared ag unrhyw eitemau yng nghasgliad yr amgueddfa.**

**1.4. Dim ond mewn amgylchiadau arbennig iawn y byddwn yn caffael y tu allan i'r polisi cyfredol.**

**1.5. Mae'r amgueddfa'n cydnabod ei chyfrifoldeb, wrth gaffael ychwanegiadau i'w chasgliadau, i sicrhau fod y gwaith o ofalu am gasgliadau, trefniadau dogfennu a'r defnydd a wneir o gasgliadau yn bodloni gofynion y Safon Achredu Amgueddfeydd. Mae hyn yn cynnwys defnyddio prif weithdrefnau SPECTRUM ar gyfer rheoli casgliadau. Bydd yn rhoi ystyriaeth i gyfyngiadau ar gasglu yn sgil ffactorau megis trefniadau staffio, storio a gofalu am gasgliadau.**

**1.6. Bydd yr amgueddfa'n gweithredu diwydrwydd dyladwy ac yn gwneud pob ymdrech i beidio â chaffael unrhyw wrthrych neu sbesimen, boed hynny drwy ei**

**brynu, rhodd, cymynrodd neu gyfnewid, heb i'r corff llywodraethu neu'r swyddog cyfrifol fod yn fodlon y gall yr amgueddfa gaffael hawl dilys i'r eitem dan sylw.**

**1.7 Mewn achosion eithriadol, efallai mai rhesymau ariannol fydd y prif gymhelliant dros waredu. Felly, y dull gwaredu fydd gwerthu ac fe ddilynir y gweithdrefnau a amlinellir isod. Mewn achosion pan mai rhesymau ariannol yw'r cymhelliant dros waredu, ni fydd y corff llywodraethu'n gwaredu oni bai y gellir arddangos fod yr holl amgylchiadau eithriadol a ganlyn yn cael eu bodloni'n llawn:**

- **bydd y gwarediad yn gwella'n sylweddol y budd cyhoeddus hirdymor sydd i'w gael o'r casgliad sy'n weddill**
- **ni waredir er mwyn cynhyrchu refeniw byrdymor (er enghraifft, i fodloni diffyg yn y gyllideb)**
- **gwaredir fel dewis olaf wedi ymchwilio'n drylwyr i'r holl ffynonellau cyllid eraill**
- **bod proses ymgynghori lawn wedi'i chynnal gyda chyrff y sector ymlaen llaw**
- **bod yr eitem dan ystyriaeth yn gorwedd y tu allan i gasgliad craidd sefydlog yr amgueddfa**

## 2. Hanes y Casgliadau

*Casgliad.*
Mae'r eitemau a gasglwyd cyn 1990 (75% o'r casgliad cyfan) yn parhau i fod ym mherchnogaeth y Brifysgol (Casgliad y Sir yw'r gweddill). Mae'r casgliad yn cynnwys deunydd archeolegol, dodrefn, printiau topograffig, gwisgoedd a deunyddiau, ynghyd ag eitemau hanes cymdeithasol arwyddocaol. Mae'r rhan fwyaf o gasgliad y Brifysgol wedi'i restru a'i gatalogio. Mae casgliad y Brifysgol yn statig. Mae'r casgliadau oedd ar fenthyg i'r amgueddfa pan oedd yn cael ei rhedeg gan y Brifysgol (cyn 1990, ond gyda llawer yn dyddio'n ôl i'r 1930au a'r 1940au), yn hanesyddol ac yn ychwanegu at gymhlethdod statws cyfreithiol casgliad y Brifysgol. Mae unrhyw eitem a gasglwyd ers 1990 yn rhan o Gasgliad y Sir. Mae'r rhan fwyaf o Gasgliad y Sir wedi'i gatalogio. Mae'r gwaith o ddogfennu'r casgliad yn parhau, fel y nodir yn rhaglen waith y Gwasanaeth Amgueddfeydd. Mae'r Llawlyfr yn amlinellu'r Gweithdrefnau Dogfennu sy'n bodloni safonau SPECTRUM a'r atodlen waith yn y Cynllun Dogfennu ar gyfer pob amgueddfa. Gofalir am y casgliad drwy ddefnyddio system o fonitro a rheolaeth amgylcheddol, amddiffyn a goruchwylio, cynnal a chadw adeiladau, cadw tŷ a rhaglen o archwilio casgliadau a chynllunio gwelliannau i'w gweithredu.

Mae cyfran fawr o'r casgliadau wedi'u digideiddio ac maent ar gael i'r cyhoedd eu gweld trwy gronfa ddata CALM trwy ddolen o wefan STORIEL. Mae'r gwaith sganio a ffotograffiaeth i wella gwybodaeth ynghylch yr eitemau a gwella mynediad atynt wedi dechrau. Rydym hefyd yn gweithio mewn partneriaeth â, e.e. ArtUK i wella mynediad rhithwir i'r casgliadau. Dyma faes yr ydym yn awyddus i'w ddatblygu ymhellach.

## 3. Trosolwg o'r casgliadau cyfredol

i) *Casgliad y Sir*

Crëwyd y casgliad wrth i'r Gwasanaeth Archifau, ac yn fwy diweddar y Gwasanaeth Amgueddfeydd, gaffael eitemau. Mae'r casgliad yn dyddio'n ôl i'r 1950au ac yn

canolbwyntio ar hanes cymdeithasol yr hen Sir Gaernarfon a'r hen Sir Feirionnydd. Mae'r polisi hwn yn ystyried y newidiadau a wnaed i ffiniau'r sir yn 1974 ac 1996. Er enghraifft, mae'n cynnwys offer crefft, medalau, gwisgoedd, eitemau'r cartref a gwrthrychau sy'n ymwneud â chrefydd. Mae'r casgliad hwn yn cael ei storio yn Amgueddfa ac Oriel Gelf Gwynedd, Bangor.

ii) *Storiel, Bangor*

Mae prif gasgliad yr Amgueddfa (oddeutu 75% ohono) ar fenthyg i'r Cyngor gan Brifysgol Bangor. Adnodd addysgiadol oedd y casgliad hwn yn wreiddiol, oddeutu 1884. Ar y pryd, nid oedd amgueddfa yng ngogledd Cymru, felly ehangwyd y casgliad i gynnwys henebion Cymreig gyda'r nod o sefydlu amgueddfa i ogledd Cymru ac felly crëwyd Amgueddfa Hynafiaethau Cymru. Ym mis Chwefror 1993, yn dilyn sefydliad Cydbwyllgor Rheoli'r Amgueddfa, ailenwyd yr Amgueddfa yn Amgueddfa ac Oriel Gelf Bangor. Ar ôl 1993, polisi'r Amgueddfa yw casglu o Fangor a'r cyffiniau. Mae'r casgliad yn cynnwys archeoleg ac eitemau hanes cymdeithasol. Mae i ran o'r casgliad, yn enwedig yr archeoleg, y dodrefn, y gwisgoedd a'r tecstilau, bwysigrwydd sy'n ymestyn y tu hwnt i'r ardal leol. Yn 1996, ehangwyd polisi'r Amgueddfa i gynnwys Gwynedd i adlewyrchu ei brîff sirol fel amgueddfa'r sir. Yn ogystal â hyn, addaswyd enw'r Amgueddfa i Amgueddfa ac Oriel Gelf Gwynedd ym mis Medi 2002 ac i STORIEL yn 2016.

**4. Themâu a blaenoriaethau ar gyfer casglu i'r dyfodol**

Bydd yn casglu gwrthrychau o ardaloedd Arfon, Dwyfor a Meirionnydd a bydd y thema gyffredinol yn darlunio:

- twf cymdeithasol, diwydiannol ac economaidd yr ardal a'i chymunedau
- ei threftadaeth ddiwylliannol
- ei chymeriadau
- digwyddiadau arbennig

**CASGLIADAU PENODOL**

**4a. HANES CYMDEITHASOL**

i) Dylai'r casgliadau hanes cymdeithasol gofnodi, darlunio neu adlewyrchu fel arall, fywyd pob dydd ardal Gwynedd a'i chymunedau. Bydd meysydd o ddiddordeb yn cynnwys bywyd cymdeithasol, domestig, diwydiannol, amaethyddol, addysgiadol, masnachol a chrefft.

ii) Bydd y casglu mwyaf gweithgar yn cael ei wneud mewn meysydd sydd wedi'u tangynrychioli ar hyn o bryd, e.e. casgliadau'r ugeinfed ganrif.

iii) Wrth gaffael eitemau o ddiddordeb hanes cymdeithasol, rhaid cymryd gofal bod gan y gwrthrychau arwyddocâd a phwysigrwydd sirol gan ddim ond casglu gwrthrych a gynhyrchwyd yn helaeth os oes iddo arwyddocâd neu ofyn penodol.

**4b. ARCHEOLEG**

i) Mae Gwasanaeth Amgueddfeydd Gwynedd wedi ymrwymo i gytundeb gydag adran gynllunio cyn-Ymddiriedolaeth Archaeolegol Gwynedd, Ymddiriedolaeth Archaeoleg Cymru (Heneb) bellach, i sicrhau y bydd deunydd archeolegol a gloddiwyd yn briodol yng Ngwynedd yn cael ei adneuo yn Storiel, Bangor. Bydd yr archif archeolegol ddogfennol yn

cael ei hadneuo gyda Chomisiwn Brenhinol Henebion Cymru (CBHC). Amlinellir manylion pellach yn y 'Canllaw i Baratoi ac Adneuo Archifau Archeolegol' ('Guideline to the Preparation and Deposition of Archaeological Archives').

ii) Ni fydd gwrthrychau y deuir o hyd iddynt ar hap, yn cynnwys darnau arian, yn cael eu casglu os credir eu bod wedi cael eu hadfer yn groes i ddeddfwriaeth neu ganllawiau a ddyluniwyd i amddiffyn safleoedd neu henebion hynafol, neu'n cynnwys methiant i ddatgelu'r eitemau a ganfuwyd i berchennog neu ddeilydd y tir, neu i'r awdurdodau priodol mewn perthynas â Thrysor posib. Mae Storiel yn ganolfan adrodd ar achosion posib o Drysorau ac yn rhan o'r Cynllun Hynafiaethau Cludadwy. Mae Storiel yn cydnabod y defnydd a wneir o declynnau canfod metel a bydd yn ceisio arweiniad gan awdurdodau archeolegol cydnabyddedig o ran eitemau a ganfyddir gyda theclynnau o'r fath.

iii) Ni fydd Storiel yn casglu gweddillion dynol, oni bai bod dadleuon gwyddonol, hanesyddol neu addysgiadol cryf o blaid gwneud hynny.

## 4c. GWISGOEDD A THECSTILAU

i) Diffinnir tecstilau fel ategolion, er enghraifft, esgidiau, penwisgoedd, menig ac ymbarelau, tecstilau mewn cyd-destun archeolegol, carpedi, baneri, defnyddiau ar ddodrefn, sampleri, cwiltiau a llieiniau'r cartref.

ii) Rhaid monitro a rheoli gwisgoedd a thecstilau sy'n cael eu caffael yn ofalus er mwyn sicrhau cydbwysedd ac i osgoi problemau cadwraethol mawr.

iii) Mae casgliadau sylweddol o wisgoedd, er bod llawer o fylchau'n bodoli, yn enwedig mewn meysydd megis gwisgoedd gwaith neu alwedigaethol a gwisgoedd dynion. Bydd yr Amgueddfa'n mynd ati i geisio llenwi'r bylchau hyn.

iv) Bydd yr Amgueddfa'n casglu gwisgoedd a thecstilau yn ymwneud â phersonoliaethau, cymdeithasau a digwyddiadau penodol.

v) Bydd yr Amgueddfa'n cryfhau ac yn datblygu ei chasgliad presennol o wisgoedd a thecstilau Cymreig sy'n berthnasol i Wynedd.

## 4d. CELF GAIN A CHELF ADDURNIADOL

i) Mae'r casgliadau hyn yn cynnwys, er enghraifft, beintiadau olew, lluniadau, dyfrlliwiau, printiau, cerfluniau, gwydr, cerameg, dodrefn a gemwaith ac addurniadau personol.

ii) Bydd yr Amgueddfa'n caffael celf gain ac addurniadol sydd â pherthnasedd penodol i'r ardal, e.e. sy'n darlunio golygfa leol, unigolyn neu grŵp, neu sydd wedi eu cynhyrchu'n lleol. Bydd yr Amgueddfa'n ystyried ac yn cydweithredu â Gwasanaeth Archifau a Pholisi Celf Cyngor Gwynedd. Drwy weithio mewn partneriaeth, bydd yr Amgueddfa'n archwilio ffyrdd o ddiogelu cronfa gaffael er mwyn mynd ati'n rhagweithiol i gasglu gwaith gan artistiaid lleol neu waith a gynhyrchwyd yn lleol gan artistiaid rhyngwladol.

iii) Fel arfer, ni ychwanegir at y casgliad dodrefn oherwydd adnoddau cyfyngedig, ac eithrio mewn enghreifftiau eithriadol.

## 4e. HANES NATURIOL, DAEAREG A DEUNYDD ETHNOGRAFFIG

i) Bydd rhagdybiaeth yn erbyn caffael deunydd astudiaethau natur, daearegol neu ethnolegol, ac eithrio deunydd a allai fod yn berthnasol i arddangosfa neu raglen addysg benodol yn yr Amgueddfa. Yn absenoldeb gwyddonydd astudiaethau natur hyfforddedig, bydd yr Amgueddfa yn ceisio cyngor ynghylch deunydd o'r fath, yn enwedig ar agweddau iechyd a diogelwch ymdrin â deunydd astudiaethau natur.

## 5. Themâu a blaenoriaethau ar gyfer rhesymoli a gwaredu

**5.1 Mae'r Amgueddfa'n cydnabod fod yr egwyddorion a ddefnyddir i bennu'r blaenoriaethau ar gyfer rhesymoli a gwaredu yn dilyn proses adolygu ffurfiol i adnabod pa gasgliadau sydd wedi'u cynnwys a'u hepgor o'r adolygiad. Ni fydd canlyniad yr adolygiad ac unrhyw resymoli dilynol yn lleihau ansawdd nac arwyddocâd y casgliad a bydd yn arwain at gasgliad sy'n fwy defnyddiol ac sydd wedi'i reoli'n dda.**

**5.2 Bydd y gweithdrefnau a ddefnyddir yn bodloni safonau proffesiynol. Bydd y broses yn cael ei dogfennu, yn agored ac yn dryloyw. Cyfathrebir yn glir â'r rhanddeiliaid allweddol ynghylch y deilliannau a'r broses.**

Bydd yr amgueddfa'n ymgymryd â gwaredu cyfrifol, dan arweiniad y curadur, er mwyn cynyddu'r budd cyhoeddus a geir o gasgliadau'r amgueddfa. Bydd yr amgueddfa'n dilyn Canllawiau'r Pecyn Cymorth Gwaredu (Disposal Toolkit) wrth wneud hynny, gan ddilyn Cod Moeseg Cymdeithas yr Amgueddfeydd, ynghyd ag ystyried eitemau sydd wedi'u nodi ar dudalennau 9 a 10 Canllawiau'r Pecyn Cymorth sydd wedi'u rhestru yma:

- Eitemau y tu allan i bolisi'r casgliadau
- Eitemau dyblyg
- Eitemau sy'n cael eu tanddefnyddio
- Eitemau na ellir rhoi gofal digonol iddynt neu nad oes modd eu trwsio
- Eitemau heb gyd-destun/o darddiad nas gellir ei brofi
- Eitemau sydd yn risg o ran Iechyd a Diogelwch, e.e. asbestos
- Eitemau y gellir eu gwerthu i brynu enghreifftiau gwell

Cynhelir Adolygiad Casgliadau i asesu'r casgliadau gan ddefnyddio fframwaith i adnabod eitemau fyddai'n well eu gwaredu.

## 6. Fframwaith cyfreithiol a moesegol ar gyfer caffael a chael gwared ar eitemau

**6.1 Mae'r Amgueddfa'n cydnabod ei chyfrifoldeb i weithio o fewn paramedrau Cod Moeseg Cymdeithas yr Amgueddfeydd wrth ystyried caffael a gwaredu.**

## 7. Polisïau casglu amgueddfeydd eraill

**7.1 Bydd yr amgueddfa'n ystyried polisïau casglu amgueddfeydd eraill a sefydliadau eraill sy'n casglu yn yr un meysydd neu bwnc neu rai cysylltiedig. Bydd yn ymgynghori â'r sefydliadau hyn pan fo buddiannau'n gwrthdaro neu er mwyn diffinio meysydd arbenigedd, i osgoi unrhyw ddyblygu diangen a gwastraffu adnoddau.**

**7.2 Cyfeirir yn benodol at yr amgueddfa/amgueddfeydd neu'r sefydliad(au) a ganlyn:**

Amgueddfa Lechi Cymru, Llanberis,
Gwasanaeth Amgueddfeydd Ynys Môn,
Segontium,
Amgueddfa Llandudno,
Amgueddfa'r Ffiwsilwyr Brenhinol Cymreig,
Canolfan Treftadaeth Thomas Telford,
Castell Penrhyn,
Oriel Plas Glyn-y-weddw
a'r amgueddfeydd morwrol a rheilffordd annibynnol yn yr ardal.

## 8. Daliadau Archifol

Gan fod yr amgueddfa'n cadw archifau, yn cynnwys ffotograffau ac effemera wedi'u hargraffu, bydd ei chorff llywodraethu'n cael ei arwain gan y Cod Ymarfer ar Archifau i Amgueddfeydd ac Orielau yn y Deyrnas Unedig (trydydd argraffiad, 2002). Bydd Storiel yn cydweithio â Gwasanaeth Archifau Gwynedd pan fydd yn caffael archifau. Fel arfer, dylid storio deunydd o'r fath yn Ystorfeydd Gwasanaeth Archifau Gwynedd pan nad yw'n cael ei arddangos a bydd BS5454 yn cael ei ddilyn. Mae Gwasanaeth Archifau Gwynedd yn bodloni'r safonau ar gyfer storio sydd wedi eu hamlinellu yn Safonau ar gyfer Ystorfeydd Cofnodion y Comisiwn Brenhinol Llawysgrifau Hanesyddol (2001).

## 9. Caffael

### 9.1 Y polisi ar gyfer cytuno i gaffael yw:

Yr aelodau o staff sydd wedi'u hawdurdodi i dderbyn gwrthrychau i'r amgueddfa yw Helen Gwerfyl a Nêst Thomas. Ni ddylid derbyn unrhyw wrthrych heb gymeradwyaeth o leiaf un o'r ddwy aelod staff uchod. Os bydd gwrthrych yn cyrraedd yn yr amgueddfa pan nad yw'r un o'r ddwy uchod yn bresennol, dylid cofnodi manylion cyswllt y rhoddwr ar Ffurflen Ymholi ynghyd â manylion ynghylch yr eitem sy'n cael ei chyflwyno fel rhodd ac fe gysylltir â'r rhoddwr cyn gynted ag y bo modd. Byddwn yn ystyried sefydlu panel caffael i benderfynu ar eitemau sy'n cael eu caffael.

Nid oes cyllideb Caffael yn bodoli. Pan geisir prynu gwrthrych, bydd angen sicrhau grantiau a derbyn cymeradwyaeth gan naill ai Helen Gwerfyl neu Nêst Thomas.

**9.2 Ni fydd yr amgueddfa'n caffael unrhyw wrthrych neu sbesimen oni bai ei bod yn fodlon nad yw'r gwrthrych neu'r sbesimen wedi'i gaffael yn, neu wedi'i allforio o'i wlad wreiddiol (neu o unrhyw wlad yn y cyfamser ble roedd ganddo berchennog cyfreithiol) yn groes i gyfraith y wlad honno. (Er dibenion y paragraff hwn, mae'r 'wlad wreiddiol' yn cynnwys y Deyrnas Unedig.)**

**9.3 Yn unol â darpariaethau Confensiwn UNESCO 1970 ar Ddulliau Gwahardd ac Atal Mewnforio, Allforio a Throsglwyddo Perchnogaeth Eiddo Diwylliannol yn Anghyfreithlon, a ddilyswyd gan y Deyrnas Unedig ac a ddaeth yn weithredol ar 1 Tachwedd 2002, a Deddf Delio mewn Gwrthrychau Diwylliannol (Troseddau) 2003, bydd yr amgueddfa'n gwrthod unrhyw eitemau sydd wedi'u masnachu'n anghyfreithlon. Bydd y corff llywodraethu'n cael ei arwain gan y canllawiau cenedlaethol ar gaffael eiddo diwylliannol yn gyfrifol a gyhoeddwyd gan yr Adran Dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon yn 2005.**

**10. Gweddillion dynol**

**10.1 Wrth i'r amgueddfa gadw neu fwriadu caffael gweddillion dynol o unrhyw gyfnod, bydd yn dilyn y gweithdrefnau yn yr 'Arweiniad ar gyfer gofalu am weddillion dynol mewn amgueddfeydd' a gyhoeddwyd gan y DCMS yn 2005.**

**11. Deunydd biolegol a daearegol**

**11.1 Ni fydd yr amgueddfa'n caffael unrhyw ddeunydd biolegol na daearegol.**

**12. Deunydd Archeolegol**

**12.1 Ni fydd yr amgueddfa'n caffael deunydd archeolegol (yn cynnwys cerameg a gloddiwyd), mewn unrhyw achos pan fo'r corff llywodraethu neu'r swyddog cyfrifol yn amau fod yr amgylchiadau pan adenillwyd y deunydd yn cynnwys methiant i ddilyn y gweithdrefnau cyfreithiol priodol.**

**12.2 Yn Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon, mae'r gweithdrefnau'n cynnwys adrodd ar ganfyddiadau i'r tirfeddiannwr neu ddeilydd y tir ac i'r awdurdodau priodol yn achos trysor posib (h.y. y Crwner Trysorau) fel y'i diffinnir yn Neddf Trysorau 1996 (fel y'i diwygiwyd gan y Ddeddf Crwneriaid a Chyfiawnder 2009).**

**13. Eithriadau**

**13.1 Yr unig amser y gwneir eithriadau i'r cymalau uchod yw pan fo'r amgueddfa'n:**

- **gweithredu fel ystorfa dewis olaf wedi'i chymeradwyo'n allanol ar gyfer deunydd o darddiad lleol (Y Deyrnas Unedig);**
- **gweithredu gyda chaniatâd awdurdodau sydd â'r awdurdodaeth angenrheidiol yn y wlad wreiddiol.**

**Dan yr amgylchiadau hyn, bydd yr amgueddfa'n agored ac yn dryloyw o ran sut mae'n gwneud penderfyniadau ac ni fydd yn gweithredu heb ganiatâd gan awdurdod allanol priodol. Bydd yr Amgueddfa'n dogfennu'r enghreifftiau pan fo'r eithriadau hyn yn digwydd.**

**14. Ysbeiliad**

**14.1 Bydd yr amgueddfa'n defnyddio datganiad egwyddorion y ddogfen 'Ysbeilio Gweithiau Celf yn ystod cyfnod y Natsïaid, yr Holocost a'r Ail Ryfel Byd' ('Spoliation of Works of Art during the Nazi, Holocaust and World War II period'), a gyhoeddwyd ar gyfer amgueddfeydd nad ydynt yn rhai cenedlaethol yn 1999 gan y Comisiwn Amgueddfeydd ac Orielau.**

**15. Dychwelyd ac Adfer gwrthrychau a gweddillion dynol**

**15.1** **Gall corff llywodraethu'r amgueddfa, yn gweithredu ar gyngor staff proffesiynol yr amgueddfa, os o gwbl, benderfynu dychwelyd gweddillion dynol (oni bai eu bod yn syrthio dan yr 'Arweiniad ar gyfer gofalu am weddillion dynol mewn amgueddfeydd' a gyhoeddwyd gan y DCMS yn 2005), gwrthrychau neu sbesimenau i'r wlad neu'r bobl wreiddiol. Bydd yr amgueddfa'n gwneud penderfyniadau o'r fath fesul achos, o fewn ei sefyllfa gyfreithiol a chan ystyried yr holl oblygiadau moesegol a'r canllawiau sydd ar gael. Golyga hyn y bydd y gweithdrefnau a ddisgrifiwyd yn 16.1-5 yn cael eu dilyn ond nid yw'r gweithdrefnau sy'n weddill yn briodol.**

**15.2** **Bydd unrhyw achos o gael gwared ar weddillion dynol o amgueddfeydd yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon yn dilyn y gweithdrefnau yn yr 'Arweiniad ar gyfer gofalu am weddillion dynol mewn amgueddfeydd'.**

## 16. Gweithdrefnau gwaredu

**16.1** **Gwneir yr holl warediadau gan gyfeirio at Brif Weithdrefnau SPECTRUM wrth waredu.**

**16.2** **Bydd y corff llywodraethu'n cadarnhau ei fod yn gyfreithiol rydd i gael gwared ar eitem. Yn ogystal, rhoddir ystyriaeth i'r cytundeb ar waredu y daethpwyd iddo â'r rhoddwyr.**

**16.3** **Pan roddir ystyriaeth i gael gwared ar wrthrych o'r amgueddfa, bydd yr amgueddfa'n sefydlu a gaffaelwyd yr eitem gyda chymorth sefydliad cyllido allanol. Mewn achosion o'r fath, rhaid dilyn unrhyw amodau oedd ynghlwm â'r grant gwreiddiol. Gall hyn gynnwys ad-dalu'r grant gwreiddiol a chyfran o'r elw os bydd yr eitem yn cael ei gwaredu drwy gael ei gwerthu.**

**16.4** **Os mai rhesymau curadurol sy'n cymell y gwarediad, dilynir y gweithdrefnau sydd wedi'u hamlinellu isod a gallai'r dull gwaredu fod ar ffurf rhodd, gwerthu neu gyfnewid, neu, fel dewis olaf, dinistrio.**

**16.5** **Ni fydd y corff llywodraethu yn penderfynu cael gwared ar ddeunydd o'r casgliadau hyd nes y bydd y rhesymau dros waredu wedi'u hystyried yn llawn. Ystyrir ffactorau eraill, yn cynnwys y budd cyhoeddus, y goblygiadau i gasgliadau'r amgueddfa a'r casgliadau a gedwir gan amgueddfeydd eraill a sefydliadau eraill sy'n casglu'r un deunyddiau neu mewn meysydd perthnasol. Cymerir cyngor gan arbenigwyr ynghyd â barn gan randdeiliaid megis rhoddwyr, ymchwilwyr, cymunedau lleol a ffynhonnell ac eraill a wasanaethir gan yr amgueddfa.**

**16.6** **Cyfrifoldeb corff llywodraethu'r amgueddfa yn gweithredu ar gyngor staff curadurol proffesiynol, os o gwbl, ac nid curadur neu reolwr y casgliad yn gweithredu ar ei ben ei hun, fydd gwneud penderfyniad i gael gwared ar sbesimen neu wrthrych boed drwy rodd, cyfnewid, gwerthu neu ddinistrio (o ran eitem sydd wedi'i difrodi neu sydd wedi dirywio gormod i fod o unrhyw ddefnydd er dibenion y casgliadau neu am resymau iechyd a diogelwch).**

**16.7** **Unwaith y penderfynir cael gwared ar ddeunydd yn y casgliad, rhoddir blaenoriaeth i'w gadw yn gyhoeddus. Felly, yn y lle cyntaf, bydd yn cael ei**

**gynnig drwy rodd neu drwy werthu, yn uniongyrchol i Amgueddfeydd Achrededig eraill sy'n debygol o fod â diddordeb i'w gaffael.**

**16.8 Os na fydd unrhyw Amgueddfeydd Achrededig yn caffael y deunydd a gynigiwyd iddynt fel rhodd neu drwy werthiant, yna hysbysir y gymuned amgueddfeydd yn gyffredinol ynghylch y bwriad i gael gwared ar y deunydd, fel arfer drwy osod rhybudd ar wasanaeth rhestru 'Canfod Gwrthrych' (Find an Object) Cymdeithas yr Amgueddfeydd ar y we, gwneud datganiad yn 'Museums Journal' Cymdeithas yr Amgueddfeydd, neu mewn cyhoeddiadau neu ar wefannau arbenigol eraill.**

**16.9 Bydd y datganiad ynghylch y rhodd neu'r gwerthiant yn nodi nifer a natur y sbesimenau neu'r gwrthrychau dan sylw, a sut fydd y deunydd yn cael ei drosglwyddo i sefydliad arall. Rhoddir blaenoriaeth i fynegiant o ddiddordeb a dderbynnir gan Amgueddfeydd Achrededig eraill. Caniateir cyfnod o ddau fis o leiaf i fynegi diddordeb yn y deunydd. Ar ddiwedd y cyfnod hwn, os na fydd unrhyw fynegiant o ddiddordeb wedi'i dderbyn, gall yr amgueddfa ystyried cael gwared ar y deunydd i unigolion a sefydliadau eraill â diddordeb gan roi blaenoriaeth i sefydliadau cyhoeddus.**

**16.10 Defnyddir unrhyw arian a dderbynnir gan gorff llywodraethu'r amgueddfa yn sgil cael gwared ar eitemau er budd y casgliadau yn unig a hynny'n uniongyrchol. Fel arfer, bydd hyn yn golygu prynu rhagor o eitemau. Mewn achosion eithriadol, efallai y bydd modd cyfiawnhau gwneud gwelliannau mewn perthynas â gofalu am gasgliadau er mwyn bodloni neu wneud mwy na'r gofyn o ran y gofynion Achredu mewn perthynas â'r risg o ddifrod a dirywiad i gasgliadau. Defnyddir unrhyw arian a dderbynnir fel iawndal yn sgil difrodi, colli neu ddinistrio eitemau yn yr un modd. Ceisir cyngor yn yr achosion hynny ble bwriedir defnyddio'r arian i ofalu am gasgliadau oddi wrth MALD: Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd Cymru.**

**16.11 Bydd yr elw o werthiannau yn cael ei ddyrannu fel y gellir dangos ei fod yn cael ei wario mewn modd sy'n cyfateb â gofynion y safon Achredu. Rhaid cyfyngu'r arian i gynaliadwyedd hirdymor, defnydd a datblygiad y casgliad.**

**16.12 Cedwir cofnod llawn o'r holl benderfyniadau a wneir ar waredu a'r eitemau dan sylw, a gwneir trefniadau priodol i gadw ac/neu drosglwyddo, fel sy'n briodol, y ddogfennaeth sy'n ymwneud â'r eitemau dan sylw, yn cynnwys cofnodion ffotograffig ble bo'n ymarferol yn unol â Gweithdrefn SPECTRUM ar ildio a gwaredu.**

***Gwaredu drwy gyfnewid***

**16.13 Mae natur gwaredu drwy gyfnewid yn golygu na fydd yr amgueddfa, o angenrheidrwydd, mewn sefyllfa i gyfnewid y deunydd gydag Amgueddfa Achrededig arall. Felly, bydd y corff llywodraethu'n sicrhau bod materion yn ymwneud ag atebolrwydd a diduedddrwydd yn cael eu hystyried yn ofalus i osgoi dylanwad gormodol ar ei broses gwneud penderfyniadau.**

**16.13.1 Mewn achosion pan fo'r corff llywodraethu'n dymuno cael rhesymau curadurol clir dros gyfnewid deunydd yn uniongyrchol ag amgueddfeydd achrededig a rhai nad ydynt yn achrededig,**

**gyda sefydliadau eraill neu gydag unigolion, bydd y gweithdrefnau ym mharagraffau 16.1-5 yn berthnasol.**

**16.13.2 Os bwriedir cyfnewid ag amgueddfa Achrededig benodol, hysbysir amgueddfeydd Achrededig eraill sy'n casglu yn yr un maes neu mewn maes perthnasol yn uniongyrchol o'r bwriad a gofynnir am eu sylwadau.**

**16.13.3 Os bwriedir cyfnewid ag amgueddfa nad ydyw'n achrededig, gyda sefydliad o fath arall neu gydag unigolyn, bydd yr amgueddfa'n gosod rhybudd ar wasanaeth rhestru 'Canfod Gwrthrych' Cymdeithas yr Amgueddfeydd ar y we, neu'n gwneud datganiad yn 'Museums Journal' Cymdeithas yr Amgueddfeydd, neu mewn cyhoeddiadau neu ar wefannau arbenigol eraill.**

**16.13.4 Rhaid i'r hysbysiad a'r datganiad roi gwybodaeth ynghylch nifer a natur y sbesimenau neu'r gwrthrychau sydd dan sylw yng nghasgliad yr amgueddfa a'r rhai y bwriedir eu caffael fel rhan o'r cyfnewid. Rhaid caniatáu cyfnod o ddau fis o leiaf i dderbyn sylwadau. Ar ddiwedd y cyfnod hwn, rhaid i'r corff llywodraethu ystyried y sylwadau cyn y gwneir penderfyniad terfynol ar y cyfnewid.**

***Gwaredu drwy ddinistrio***

**16.14 Os nad oes modd cael gwared ar wrthrych drwy drosglwyddiad neu werthiant, gall y corff llywodraethu benderfynu ei ddinistrio.**

**16.15 Mae'n dderbyniol dinistrio deunydd sydd ag arwyddocâd cynhenid isel (erthyglau dyblyg a gynhyrchwyd yn helaeth neu sbesimenau cyffredin nad oes iddynt darddiad arwyddocaol), ble nad oes modd canfod unrhyw ddull gwaredu amgen.**

**16.16 Mae dinistrio hefyd yn ddull gwaredu derbyniol mewn achosion pan fo gwrthrych mewn cyflwr hynod wael, pan fo risgiau iechyd a diogelwch yn perthyn iddo neu pan fo'n rhan o gais a gymeradwywyd i brofi wrth ddinistrio sydd wedi'i nodi ym mholisi ymchwil sefydliad.**

**16.17 Pan fo angen, ceisir cyngor arbenigol i sefydlu pa ddull dinistrio sy'n briodol. Cynhelir asesiadau risg iechyd a diogelwch gan staff hyfforddedig pan fo angen.**

**16.18 Dylai aelod priodol o weithlu'r amgueddfa fod yn dyst i'r gwaith o ddinistrio gwrthrychau. Mewn amgylchiadau ble nad yw hyn yn bosib, e.e. dinistrio sylweddau dan reolaeth, dylid cael tystysgrif gan yr heddlu a'i chadw yn ffeil hanes y gwrthrych perthnasol.**

# Amgueddfa Lloyd George

## POLISI DOGFENNU

**Dyddiad cymeradwyo'r polisi: Mehefin 2025**
**Dyddiad adolygu'r polisi: Mehefin 2030**

### Cyflwyniad

Mae'r Polisi Dogfennu hwn yn llywio'r gwaith y mae'r Amgueddfa yn ei wneud ym maes dogfennu casgliadau. Mae dogfennu yn hanfodol ar gyfer pob agwedd ar ein gwaith. Mae'n sicrhau bod atebolrwydd am y casgliad, ei hygyrchedd, rheolaeth, ymchwil a defnydd. Ein polisi cyffredinol ar gyfer dogfennu'r casgliad yw dilyn gweithdrefnau SPECTRUM i sicrhau bod y wybodaeth a gedwir mewn perthynas â'r casgliad yn gywir, yn ddibynadwy, yn ddiogel ac yn hygyrch. Mae'n hanfodol bod gwybodaeth ddigonol yn cael ei chofnodi ar gyfer pob gwrthrych y mae'r Amgueddfa'n gyfrifol amdano'n gyfreithiol (gan gynnwys benthyciadau), fel y gellir ei adnabod a'i leoli.

### Nod ac amcanion

Nod y polisi hwn yw sicrhau ein bod yn bodloni'n cyfrifoldebau gwarchodaeth, stiwardiaeth a mynediad. Drwy weithredu'r polisi hwn, ein hamcan yw:

a) *gwella* atebolrwydd am y casgliad;
b) *cynnal* o leiaf y safonau proffesiynol gofynnol mewn gweithdrefnau dogfennu a gwybodaeth sy'n ymwneud â'r casgliad, a chyflawni'r safonau uchaf lle bo modd;
c) *ymestyn* mynediad i'r casgliad drwy ddarparu gwybodaeth i ddefnyddwyr am y gwrthrychau sydd gennym;
d) *cryfhau* diogelwch y casgliad.

Ar hyn o bryd, mae ein cofnodion ar bapur ac ar Axiell Collections (System Reoli Casgliadau).

### Safonau

Mae'r Amgueddfa wedi ymrwymo i ddilyn y safonau gofynnol ar gyfer prif weithdrefnau SPECTRUM sef:

· Cofnodi gwrthrych,
· Caffael a derbyn,
· Lleoli a rheoli symudiad,
· Rhestru eiddo,
· Catalogio,
· Cofnodi gwrthrych yn gadael,
· Benthyciadau i mewn,
· Benthyciadau allan,
· Cynllunio dogfennaeth.

Mae'r gweithdrefnau wedi'u nodi yn y Llawlyfr Gweithdrefnol Dogfennu.

### Moeseg a deddfwriaeth

Mae'r Amgueddfa wedi ymrwymo i reoli ei chasgliadau yn unol â'r Cynllun Achredu a Chod Moeseg Cymdeithas yr Amgueddfeydd, yn ogystal â fframweithiau cyfreithiol yng nghyswllt Diogelu Data a Rhyddid Gwybodaeth.

**Atebolrwydd**
Bydd yr amgueddfa yn cofnodi gwybodaeth ddigonol am y gwrthrychau a sbesimenau yn ei gofal fel ei bod yn gwybod yn union beth mae'n gyfrifol yn gyfreithiol amdanynt (gan gynnwys benthyciadau yn ogystal â chasgliadau parhaol) a bod modd adnabod a lleoli pob eitem.

**Diogelwch rhag colli gwybodaeth unigryw am gasgliadau**
Mae mesurau wedi eu sefydlu i sicrhau diogelwch corfforol a chadwraeth hirdymor yr holl gofnodion dogfennaeth, boed ar bapur neu ar gyfrifiadur. Mae cofnodion llaw a rhai ar gyfrifiadur yn cael eu diweddaru fel y bo'n briodol. Cedwir copi wrth gefn o ddata ar gyfrifiadur ar y gweinydd.

**Mynediad i wybodaeth am gasgliadau**
Mae'r rhan fwyaf o'r casgliad ar Axiell Collections (System Reoli Casgliadau). Mae rhan o hwn ar gael i unrhyw un chwilio ar-lein, a bydd mwy o wrthrychau a sbesimenau yn cael eu hychwanegu i wella ymwybyddiaeth y cyhoedd a chynyddu mynediad at gasgliadau.

**Mynediad rheoledig i wybodaeth sensitif**
Bydd yr holl geisiadau am wybodaeth yn cael eu hystyried o ran cydymffurfiaeth â'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth (2000) a'r Ddeddf Diogelu Data (2018). Bydd ceisiadau am ddata cyfrinachol megis gwybodaeth am roddwyr, gwybodaeth amgylcheddol, prisiadau neu fanylion safle yn cael eu trin fesul achos, ac yn unol â'r ddeddfwriaeth berthnasol ac unrhyw gytundebau cyfreithiol.

**POLISI DOGFENNU**

# STORIEL

**Dyddiad cymeradwyo'r polisi: Mehefin 2025**
**Dyddiad adolygu'r polisi: Mehefin 2030**

**Cyflwyniad**
Mae'r Polisi Dogfennu hwn yn llywio'r gwaith y mae'r Amgueddfa yn ei wneud ym maes dogfennu casgliadau. Mae dogfennu yn hanfodol ar gyfer pob agwedd ar ein gwaith. Mae'n sicrhau bod atebolrwydd am y casgliad, ei hygyrchedd, rheolaeth, ymchwil a defnydd. Ein polisi cyffredinol ar gyfer dogfennu'r casgliad yw dilyn gweithdrefnau SPECTRUM i sicrhau bod y wybodaeth a gedwir mewn perthynas â'r casgliad yn gywir, yn ddibynadwy, yn ddiogel ac yn hygyrch. Mae'n hanfodol bod gwybodaeth ddigonol yn cael ei chofnodi ar gyfer pob gwrthrych y mae'r Amgueddfa'n gyfrifol amdano'n gyfreithiol (gan gynnwys benthyciadau), fel y gellir ei adnabod a'i leoli.

**Nod ac amcanion**
Nod y polisi hwn yw sicrhau ein bod yn bodloni ein cyfrifoldebau gwarchodaeth, stiwardiaeth a mynediad. Trwy weithredu'r polisi hwn, ein hamcan yw:

a) *gwella* atebolrwydd am y casgliad;
b) *cynnal* o leiaf y safonau proffesiynol gofynnol mewn gweithdrefnau dogfennu a gwybodaeth sy'n ymwneud â'r casgliad, a chyflawni'r safonau uchaf lle bo modd;
c) *ymestyn* mynediad i'r casgliad trwy ddarparu gwybodaeth i ddefnyddwyr am y gwrthrychau sydd gennym;
d) *cryfhau* diogelwch y casgliad.

Ar hyn o bryd, mae ein cofnodion ar bapur ac ar Axiell Collections (System Reoli Casgliadau).

**Safonau**
Mae'r Amgueddfa wedi ymrwymo i ddilyn y safonau gofynnol ar gyfer prif weithdrefnau SPECTRUM sef:

- Cofnodi gwrthrych,
- Caffael a derbyn,
- Lleoli a rheoli symudiad,
- Rhestru eiddo,
- Catalogio,
- Cofnodi gwrthrych yn gadael,
- Benthyciadau i mewn,
- Benthyciadau allan,
- Cynllunio dogfennaeth.

Mae'r gweithdrefnau wedi'u nodi yn y Llawlyfr Gweithdrefnol Dogfennu.

**Moeseg a deddfwriaeth**
Mae'r Amgueddfa wedi ymrwymo i reoli ei chasgliadau yn unol â'r Cynllun Achredu a Chod Moeseg Cymdeithas yr Amgueddfeydd, yn ogystal â fframweithiau cyfreithiol yng nghyswllt Diogelu Data a Rhyddid Gwybodaeth.

**Atebolrwydd**
Bydd yr amgueddfa yn cofnodi gwybodaeth ddigonol am y gwrthrychau a'r sbesimenau yn ei gofal fel ei bod yn gwybod yn union beth mae'n gyfrifol yn gyfreithiol amdanynt (gan gynnwys benthyciadau yn ogystal â chasgliadau parhaol) a bod modd adnabod a lleoli pob eitem.

**Diogelwch rhag colli gwybodaeth unigryw am gasgliadau**
Mae mesurau wedi eu sefydlu i sicrhau diogelwch corfforol a chadwraeth hirdymor yr holl gofnodion dogfennaeth, boed ar bapur neu ar gyfrifiadur. Mae cofnodion llaw a rhai ar gyfrifiadur yn cael eu diweddaru fel y bo'n briodol. Cedwir copi wrth gefn o ddata ar gyfrifiadur ar y gweinydd.

**Mynediad i wybodaeth am gasgliadau**
Mae'r rhan fwyaf o'r casgliad ar Axiell Collections (System Reoli Casgliadau). Mae rhan o hwn ar gael i unrhyw un chwilio ar-lein, a bydd mwy o wrthrychau a sbesimenau yn cael eu hychwanegu i wella ymwybyddiaeth y cyhoedd a chynyddu mynediad at gasgliadau.

**Mynediad rheoledig at wybodaeth sensitif**
Bydd yr holl geisiadau am wybodaeth yn cael eu hystyried o ran cydymffurfiaeth â'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth (2000) a'r Ddeddf Diogelu Data (2018). Bydd ceisiadau am ddata cyfrinachol megis gwybodaeth am roddwyr, gwybodaeth amgylcheddol, prisiadau neu fanylion safle yn cael eu trin fesul achos, ac yn unol â'r ddeddfwriaeth berthnasol ac unrhyw gytundebau cyfreithiol.

**Casgliadau Amgueddfa Lloyd George**

**Polisi Gofal a Chadwraeth Casgliadau**

Cymeradwywyd y polisi hwn ym mis Mehefin 2025 a bydd yn cael ei adolygu ym mis Mehefin 2030.

Cefndir

Pwrpas y Polisi Gofal a Chadwraeth yw gosod fframwaith ar gyfer:

- gofalu am y casgliad a'r adeilad yng ngofal yr amgueddfa;
- cadwraeth ataliol ac adferol y casgliad;
- y defnydd diogel o, a mynediad at, y casgliad, o fewn terfynau adnoddau'r Amgueddfa.

Gofalu am y casgliadau yw cyfrifoldeb arbennig staff yr Amgueddfa sydd â chyfrifoldebau guradurol o'r Amgueddfa. Dylid rhoi gwybod am unrhyw bryderon ynglŷn â'r casgliadau gan yr aelod dynodedig o staff yn yr achos hwn i'r Rheolwr Amgueddfeydd a'r Celfyddydau neu'r Curadur yn Storiel. Mae gan yr Amgueddfa hefyd fynediad at Adran Cadwraeth Archifau yn Archifdy Caernarfon sy'n gallu cynghori ar gasgliadau archifol.

1. **Cyflwyniad**

1.1 Datganiad o ddiben Amgueddfa Lloyd George ('yr Amgueddfa') yw:

> "Dehongli bywyd a chyfnod David Lloyd George 1863-1945 drwy gasglu, gofalu am, ac arddangos eitemau oedd yn ymwneud ag ef a datblygu'r Amgueddfa a Highgate fel canolfan deilwng i goffáu un o brif wleidyddion yr ugeinfed ganrif ac fel canolbwynt i wybodaeth a gwaith ymchwil fydd yn hyrwyddo ymwybyddiaeth fyd-eang o'r hyn a gyflawnodd".

1.2 Mae casgliad yr Amgueddfa yn seiliedig ar gasgliad gwreiddiol Ymddiriedolaeth Amgueddfa Lloyd George, a oedd yn rhedeg yr Amgueddfa tan y 1980au. Mae'n cynnwys blychau a sgroliau rhyddid, medalau, memorabilia, paentiadau ac archifau. Bu i Gyngor Gwynedd gymryd yr awenau yn yr Amgueddfa yn 1987, ac fe sefydlwyd Ymddiriedolaeth newydd. Ers hynny, mae dau estyniad wedi'u hychwanegu at yr amgueddfa ac mae'r casgliadau wedi tyfu'n helaeth.

Mae Highgate, cartref Fictoraidd Lloyd George yn ystod ei blentyndod a gweithdy crydd ei ewythr, a gyflwynwyd i'r Cyngor gan aelodau o deulu Lloyd George, wedi'u dodrefnu yn union fel ag yr oeddynt pan oedd yn byw yno.

Mae rhai o'r eitemau ar fenthyg gan Amgueddfa Werin Cymru, mae eraill yn eiddo i'r Cyngor, neu wedi'u benthyg i'r Cyngor gan sawl ffynhonnell.

.

1.3 Pwrpas y polisi yw sicrhau bod yr amgueddfa yn cyflawni ei chyfrifoldeb mewn perthynas â gofalu a chadwraeth ei chasgliadau. Bydd y Cynllun Gofal a Chadwraeth Casgliadau yn helpu i gyflwyno'r datganiadau a wneir yn y polisi hwn.

1.4 Mae gofalu am y casgliadau yn ddyletswydd sylfaenol i bob amgueddfa. Mae'r polisi hwn yn darparu fframwaith ar gyfer:-

1.4.1 Cyfuniad o fesurau cadwraeth ataliol ac adferol, wedi'u cynllunio i sicrhau cadwraeth hirdymor.

- Mae cadwraeth ataliol yn cwmpasu'r mesurau sy'n angenrheidiol i arafu neu leihau dirywiad gwrthrychau a sbesimenau yr amgueddfa.
- Mae cadwraeth adferol yn cynnwys triniaeth i wrthrych neu sbesimen i'w ddod i gyflwr neu gyflwr mwy derbyniol er mwyn ei sefydlogi neu wella rhai agweddau ar ei werth diwylliannol neu wyddonol.

1.4.2 Cadw'r casgliadau a'r adeiladau yng ngofal yr amgueddfa.

1.4.3 Defnyddio casgliadau yn ddiogel a mynediad iddynt, o fewn terfynau adnoddau'r amgueddfa.

1.5 Gofalu am gasgliadau yw cyfrifoldeb yr holl staff a gwirfoddolwyr sy'n gweithio gyda'r casgliadau. Bydd gwirfoddolwyr yn cael eu gwneud yn ymwybodol o'r polisi hwn fel rhan o raglen sefydlu'r Amgueddfa. Bydd unrhyw Wirfoddolwyr sy'n trin y casgliadau yn cael eu dangos sut i drin gwrthrychau yn y casgliad ac o dan arweiniad y rhai a ddynodwyd at y diben hwn.

**2. Moeseg, deddfwriaeth a safonau**

2.1 Bydd yr Amgueddfa yn gofalu am ei chasgliadau yn unol â Chod Moeseg Cymdeithas yr Amgueddfeydd.

2.2 Bydd yr Amgueddfa yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth ganlynol yn ôl y math o gasgliad:-

Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974

Rheoliadau COSHH 2002

2.3 Mae'r Amgueddfa wedi ymrwymo i'r safonau a'r fframweithiau canlynol:-

Meincnodau mewn Gofal Casglu,

BS EN 16893:2018 'Cadwraeth Treftadaeth Ddiwylliannol'
PAS 197:2009 'Cod ymarfer ar gyfer rheoli casgliadau diwylliannol'
PAS 198: 2012 'Manyleb ar gyfer rheoli amodau amgylcheddol ar gyfer casgliadau diwylliannol'

SPECTRUM.

**3. Gofal Casgliadau a Monitro Cadwraeth**

3.1 Nod yr Amgueddfa yw gwella gofal a chyflwr ei holl gasgliadau iddynt fod ar gael i genedlaethau'r dyfodol ar gyfer addysgu, gwaith ymchwil a mwynhad.

3.2 Bydd yr Amgueddfa yn cynnal rhaglen arolygu rheolaidd i fonitro cyflwr y casgliadau.

**4. Cadwraeth adferol**

4.1 Mae cadw tŷ a gofal cyffredinol rheoli casgliadau yn tynnu sylw at unrhyw flaenoriaethau cadwraeth. Bob 2-3 blynedd mae glanhau arbenigol o'r dodrefn a'r eitemau pren yn nodi unrhyw fannau sydd i'w cadw ymhellach.

4.2 Nid oes gan Amgueddfa Lloyd George gyllideb ar gyfer gwaith cadwraeth gweithredol ac asesir y blaenoriaethau yn unol â hynny tra hefyd yn ystyried arwyddocâd eitemau unigol, rhai ohonynt yn bwysig yn genedlaethol.

4.3 Bydd gwaith cadwraeth adferol bob amser yn cael ei wneud gan gadwraethwr proffesiynol. Pan fydd angen cyngor neu wasanaethau cadwraeth, bydd yr Amgueddfa bob amser yn ceisio cyflogi cadwraethwr neu ymarfer cadwraeth sydd wedi'i gynnwys ar y Gofrestr Gadwraeth a weithredir gan y Sefydliad Cadwraeth (ICON).

4.4 Bydd Storiel yn cadw'r holl ddogfennaeth a ddarperir gan gadwraethwyr sy'n ymwneud â hanes a chyflwr eitem, unrhyw driniaeth a gynhelir ac argymhellion ar gyfer gofal yn y dyfodol.

**5. Cadwraeth ataliol**

5.1 Mae'r Amgueddfa yn ymwybodol o'r risgiau i'r casgliad gan ffactorau amgylcheddol, deunyddiau a dulliau trin, storio ac arddangos yn wael, ac o'r angen i gofnodi cyflwr y casgliad. Mae'n gofalu am y casgliadau sydd yn cael eu cadw ac yn cael eu harddangos.

5.2 Mae offer monitro amgylcheddol wedi'u gosod i asesu tymheredd a lleithder cymharol y casgliadau.

5.3 Asesir y data monitro amgylcheddol a chymerir mesurau i wella rheolaeth amgylcheddol y casgliadau.

5.4 Mae lefelau golau a lux yn cael eu monitro mewn ardaloedd arddangos a storio.

5.5 Bydd rhaglen rheoli plâu integredig yn cael ei gweithredu ar gyfer y casgliadau.

5.6 Bydd yr Amgueddfa yn cynnal tŷ yn rheolaidd ym mhob ardal sy'n gartref i gasgliadau.

5.7 Bydd diogelwch a chadw'r casgliadau yn cael eu hystyried o ddechrau unrhyw gynlluniau i newid yr arddangosfeydd neu'r storfa neu i addasu'r adeiladau.

5.8 Bydd polisi trin yn cael ei ddatblygu i hysbysu staff a gwirfoddolwyr ar sut i ymdrin â chasgliadau.

5.9 Bydd deunyddiau a ddefnyddir ar gyfer storio a phecynnu yn darparu'r amddiffyniad gorau posibl a byddant naill ai ddim yn ymateb yn gemegol neu'n fuddiol i'r gwrthrychau.

**4. Polisïau a chynlluniau eraill**

Dylid darllen y polisi hwn ar y cyd â'r Blaengynllun, Cynlluniau argyfwng a 'r Cynllun

Gofal a Chadwraeth Casgliadau.

.

.

**Storiel**

**Polisi Gofal a Chadwraeth Casgliadau**

Cymeradwywyd y polisi hwn ym mis Mehefin 2025 a bydd yn cael ei adolygu ym mis Mehefin 2030.

## 1. Cyflwyniad

1.1 Datganiad o ddiben Storiel yw: Casglu, dehongli, arddangos a gofalu am ddeunydd sy'n darlunio a hyrwyddo hanes, diwylliant a bywyd Gwynedd a'i phobl drwy addysg a mwynhad.

1.2 Mae Casgliadau Storiel yn cynnwys hanes cymdeithasol, archeoleg, gwisgoedd a thecstilau, celf gain a chelf addurnol.

1.3 Pwrpas y polisi yw sicrhau bod yr amgueddfa yn cyflawni ei chyfrifoldeb mewn perthynas â chadwraeth a gofalu am ei chasgliadau. Bydd y Cynllun Gofal a Chadwraeth Casgliadau yn helpu i gyflawni'r datganiadau a wneir yn y polisi hwn.

1.4 Mae gofalu am y casgliadau yn ddyletswydd sylfaenol ar bob amgueddfa. Mae'r polisi hwn yn darparu fframwaith ar gyfer:-

1.4.1 Cyfuniad o fesurau cadwraeth ataliol ac adferol, gyda'r bwriad o sicrhau cadwraeth hirdymor.

- Mae cadwraeth ataliol yn cwmpasu'r mesurau sy'n angenrheidiol i arafu neu leihau dirywiad gwrthrychau a sbesimenau mewn amgueddfa.
- Mae cadwraeth adferol yn cynnwys trin gwrthrych neu sbesimen i ddod ag ef i gyflwr neu stad mwy derbyniol er mwyn ei sefydlogi neu wella rhai agweddau ar ei werth diwylliannol neu wyddonol.

1.4.2 Cadw'r casgliadau a'r adeiladau sydd yng ngofal yr amgueddfa.

1.4.3 Defnyddio casgliadau a chael mynediad diogel atynt, o fewn terfynau adnoddau'r amgueddfa.

1.5 Mae gofalu am gasgliadau yn gyfrifoldeb ar yr holl staff a'r gwirfoddolwyr sy'n gweithio gyda'r casgliadau. Codir ymwybyddiaeth gwirfoddolwyr o'r polisi hwn fel rhan o raglen sefydlu'r Amgueddfa.

## 2. Moeseg, deddfwriaeth a safonau

2.1 Bydd yr Amgueddfa yn gofalu am ei chasgliadau yn unol â Chod Moeseg Cymdeithas yr Amgueddfeydd.

2.2 Bydd yr Amgueddfa yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth ganlynol yn ôl y math o gasgliad:-
Ddeddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974
Rheoliadau COSHH 2002

2.3 Mae'r Amgueddfa wedi ymrwymo i'r safonau a'r fframweithiau canlynol:-

Meincnodau mewn Gofal Casgliadau,
BS EN 16893:2018 'Cadwraeth Treftadaeth Ddiwylliannol'
PAS 197:2009 'Cod ymarfer ar gyfer rheoli casgliadau diwylliannol'
PAS 198: 2012 'Manyleb ar gyfer rheoli amodau amgylcheddol ar gyfer casgliadau diwylliannol'
SPECTRUM.

**3. Gofalu am Gasgliadau a Monitro Cadwraeth**

3.1 Nod yr Amgueddfa yw gwella gofal a chyflwr ei holl gasgliadau er mwyn iddynt fod ar gael i genedlaethau'r dyfodol ar gyfer addysgu, ymchwil a mwynhad.

3.2 Bydd yr Amgueddfa yn cynnal rhaglen arolygu reolaidd i fonitro cyflwr y casgliadau.

**4. Cadwraeth adferol**

4.1 Bydd archwilio casgliadau ac arolygu cyflwr yn ogystal â chadw tŷ a gofal cyffredinol o waith rheoli casgliadau yn amlygu unrhyw flaenoriaethau cadwraeth. Pob 2 i 3 blynedd, bydd y dodrefn a'r eitemau pren yn cael eu glanhau'n arbenigol gan nodi unrhyw rannau sydd angen cadwraeth bellach.

4.2 Cyllideb gyfyngedig sydd gan Storiel ar gyfer gwaith cadwraeth gweithredol ac mae blaenoriaethau yn cael eu hasesu yn unol â hynny, gan hefyd ystyried arwyddocâd eitemau unigol ac anghenion arddangos.

4.3 Bydd gwaith cadwraeth adferol bob amser yn cael ei wneud gan gadwraethwr proffesiynol. Pan fydd angen cyngor neu wasanaethau cadwraeth, bydd yr Amgueddfa bob amser yn ceisio defnyddio cadwraethwr neu ymarfer gadwraethol sydd ar y Gofrestr Gadwraeth a weithredir gan y Sefydliad Cadwraeth (ICON).

4.4 Bydd Storiel yn cadw'r holl ddogfennaeth a ddarperir gan gadwraethwyr sy'n ymwneud â hanes a chyflwr eitem, unrhyw driniaeth a wneir ac argymhellion ar gyfer gofalu yn y dyfodol.

**5. Cadwraeth ataliol**

5.1 Mae'r Amgueddfa yn ymwybodol o'r risgiau i'r casgliad gan ffactorau amgylcheddol, trin a thrafod yn wael, deunyddiau a dulliau storio ac arddangos, ac o'r angen i gofnodi cyflwr y casgliad. Mae'n gofalu am y casgliadau sydd yn cael eu storio ac yn cael eu harddangos.

5.2 Mae offer monitro amgylcheddol wedi'i osod yn 2015 a'i uwchraddio yn 2024 i asesu tymheredd a lleithder cymharol y casgliadau.

5.3 Asesir y data monitro amgylcheddol a gweithredir mesurau i wella rheolaeth amgylcheddol y casgliadau.

5.4 Mae lefelau golau a lux yn cael eu monitro mewn ardaloedd arddangos a storio.

5.5 Mae rhaglen integredig rheoli plâu ar waith ar gyfer y casgliadau.

5.6 Bydd yr Amgueddfa yn cynnal gwaith cadw tŷ yn rheolaidd ym mhob ardal sy'n gartref i gasgliadau.

5.7 Bydd diogelwch a chadwraeth y casgliadau yn cael eu hystyried ar ddechrau unrhyw gynlluniau i newid yr arddangosfeydd neu'r storfa neu i addasu'r adeiladau.

5.8 Bydd polisi trin a thrafod yn cael ei ddatblygu i hysbysu staff a gwirfoddolwyr ar sut i ymdrin â chasgliadau.

5.9 Bydd deunyddiau a ddefnyddir ar gyfer storio a phecynnu yn darparu'r amddiffyniad gorau posibl a byddant naill ai ddim yn ymateb yn gemegol neu'n fuddiol i'r gwrthrychau.

## 6. Polisïau a chynlluniau eraill

Dylid darllen y polisi hwn ar y cyd â'r Blaengynllun, y Cynlluniau argyfwng a'r Cynllun Gofal a Chadwraeth Casgliadau.